# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

11 Mai 2021

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Iaith trwy We-Ddarlledu o Bell ar, Dydd Llun, 17 Mai 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar 07 Rhagfyr 2020 (Tudalennau 3 - 6)**

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**5. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 (Tudalennau 7 - 62)**

**6. Data am ail gartrefi a llety gwyliau Ceredigion (Tudalennau 63 - 78)**

**7. Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 2020-21 (Tudalennau 79 - 116)**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

LEdwards

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Iaith**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd drwy fideo gynadledda ddydd Llun, 07 Rhagfyr 2020**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), y Cynghorwyr Keith Evans, Alun Lloyd Jones, Gareth Lloyd, Dai Mason a John Roberts

**Swyddogion a oedd yn bresennol**: Mrs Carys Morgan, Swyddog Polisi Iaith, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(2.00pm-3.15pm)

.

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis a Mrs Elen James am na allent fynychu'r cyfarfod.

Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Gareth Lloyd a'i wraig Cerys ar enedigaeth mab y bore hwnnw.

2 **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu.

3 **Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2020**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2020 yn gywir, ond bod angen nodi y dylai cofnod 10 ddarllen mai Comisiynydd y Gymraeg oedd wedi cyhoeddi'r Cod Ymarfer i Safonau'r Gymraeg ac nid y Swyddog Iaith.

4 **Materion yn Codi o'r Cofnodion**

Dim

5 **Canllaw Safonau'r Gymraeg a Phoster 'Yr hyn sydd angen i mi ei wneud'**

Rhoddwyd sylw i Ganllaw Safonau'r Gymraeg a'r Poster 'Yr hyn sydd angen i mi ei wneud'. Gwyliodd Aelodau fideo a oedd wedi ei rannu â'r holl staff yng nghyhoeddiad newyddion Adnoddau Dynol, er mwyn hyrwyddo'r canllaw newydd. Roedd Aelodau o'r farn bod y fideo yn gryno ac yn glir i'r gwyliwr. Nodwyd bod y ddogfen ganllaw hon yn cael ei defnyddio'n aml yn awr gan staff ar draws holl Wasanaethau'r Cyngor.

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

6 **Adroddiad y Fforwm Dyfodol Dwyieithog 'Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfnod clo'**

Rhoddwyd sylw i Adroddiad y Fforwm Dyfodol Dwyieithog ‘Cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn ystod y cyfnod clo’. Roedd yr adroddiad wedi’i gymeradwyo gan aelodau’r Fforwm Dyfodol Dwyieithog ar 29 Hydref 2020. Aeth y Swyddog Polisi Iaith yn ei blaen drwy roi cyflwyniad PwerBwynt a oedd yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:-

- Dull – Holiadur
- Arferion sy’n newid
- Arweiniad ar gynnal cyfarfodydd dwyieithog drwy fideo
- Gwasanaethau Clic Ceredigion i Gwsmeriaid
- Dysgu Cymraeg yn y Gweithle
- Grantiau Arfor
- Rhith ddigwyddiadau Arloesol a Chreadigol
- Heriau
- Beth allwn ni ei wneud yn well, er mwyn cynyddu’r cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg?
- Effaith yr achosion o COVID-19 ar y Gymraeg – Adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu/Senedd Cymru

Yn dilyn cwestiynau o’r llawr, CYTUNWYD i nodi’r sefyllfa bresennol. Holodd Aelodau a ellid gofyn i Un Llais Cymru, Cered neu Gomisiynydd y Gymraeg am gyllid i dalu am drwydded uwch Zoom, fel y gellid sicrhau bod y cyfleuster cyfieithu ar gael i Gynghorau Tref a Chynghorau Cymuned, er mwyn hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg yn eu cyfarfodydd. Fodd bynnag, nodwyd y byddai Cynghorau Tref a Chymuned yn parhau i dalu am y cyfieithydd.

7 **Dogfen Terminoleg Covid Cyngor Sir Ceredigion**

Dywedwyd bod geiriau defnyddiol yn ymwneud â phandemig y coronafeirws wedi’u casglu a’u rhestru mewn dogfen hygyrch.

Er mwyn hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg, roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi casglu rhai o’r termau newydd a oedd wedi’u bathu yn ystod cyfnod y coronafeirws.

Mae cyfnod y pandemig wedi bod yn amser o newid arferion ac yn anochel , felly, yn gyfnod o greu geiriau newydd wrth gyfathrebu negeseuon a chyhoeddiadau allweddol, geiriau a oedd yn eu tro wedi dod yn rhan o iaith bob dydd. Roedd y geiriau hyn yr un mor bwysig yn y ddwy iaith - y Saesneg a’r Gymraeg.

Er mwyn hwyluso’r defnydd o’r termau Cymraeg newydd, mae’r Cyngor wedi mynd ati i gasglu rhai o’r termau hyn a’u dwyn ynghyd mewn dogfen o’r enw ‘Terminoleg COVID-19’. Gellir chwilio am eiriau penodol yn y ddogfen Cymraeg-Saesneg, neu fel arall yn y ddogfen Saesneg-Cymraeg, fel y’u cyflwynwyd.

CYTUNWYD i nodi’r adroddiad er gwybodaeth ac y byddai’r ddogfen yn cael ei dosbarthu i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned.

8 **Eitemau Comisiynydd y Gymraeg**

CYTUNWYD i nodi'r canlynol er gwybodaeth

- o Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg – Cau'r Bwlch
- o Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau i hwyluso'r broses o weithredu Safonau'r Gymraeg.

9 **Yr Wybodaeth ddiweddaraf am Bolisi Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Sir Ceredigion**

Rhoddwyd sylw i'r adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau sut mae'r polisi enwi a rhifo strydoedd wedi datblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (Ionawr – Rhagfyr 2020).

Cytunwyd i nodi'r adroddiad ac i ystyried anfon llythyr at berchnogion unrhyw ddatblygiadau/eiddo cyn iddynt ddechrau adeiladu, gan roi gwybod iddynt beth yw polisi'r Cyngor parthed enwi eiddo.

10 **Arolwg Enwau Lleoedd: Cylch yr Iaith - ymateb drafft**

Roedd y Prif Weithredwr wedi derbyn llythyr oddi wrth Gylch yr Iaith i adolygu enwau llefydd. Roedd ymateb drafft wedi'i baratoi er ystyriaeth.

Cytunwyd i dderbyn yr ymateb drafft a gyflwynwyd a nodwyd y byddai'n cael ei anfon yn enw'r Arweinydd; hefyd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Iaith.

11 **Diwrnod Hybu Hawliau'r Gymraeg, 7 Rhagfyr**

Dywedodd y Swyddog Polisi Iaith wrth yr aelodau am yr hyn a baratowyd i hyrwyddo Diwrnod Hawliau'r Gymraeg a gynhelid y diwrnod hwnnw. Ar 7 Rhagfyr eleni, byddai sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn cynnal ymgyrch un diwrnod i godi ymwybyddiaeth o hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ogystal â'r negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo rhestr o hawliau ar gyfer ein dinasyddion, manteisiodd y Cyngor ar y cyfle hefyd i atgoffa staff yn fewnol beth yw hawliau'r cyhoedd o safbwynt y Gymraeg.

Cytunwyd i nodi'r sefyllfa bresennol.

12 **Unrhyw fater arall**

- o Estynnwyd dymuniadau gorau i aelodau teulu'r Swyddog Polisi Iaith sy'n anhwylus ar hyn o bryd.

- o Nodwyd bod angen darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ym maes gemau cyfrifiadurol. Dywedwyd bod rhywfaint o ddarpariaeth i'r rhai hynny sydd o oedran cyn-ysgol a'r rhai sydd o oedran ysgol gynradd, fodd bynnag, roedd bwlch yn y ddarpariaeth i blant a phobl ifanc sydd o

oedran ysgol uwchradd. Awgrymwyd y byddai adroddiad ar Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol yn un o gyfarfodydd nesaf y pwyllgor. Byddai hefyd yn ddefnyddiol deall pa adnoddau Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd ym maes gemau digidol.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar**

Cadeirydd:-____________________

Eitem Agenda 5

# Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Iaith |
| **DYDDIAD:** | 17.05.21 |
| **TEITL:** | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Darparu gwybodaeth am y CySGA drafft a derbyn sylwadau gan yr aelodau. |

**CEFNDIR:** Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022- 2032 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr 2022. Cynllunir yn unol â 7 deilliant statudol er mwyn datblygu a chryfhau lle'r Gymraeg o fewn addysg.

Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol
Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)
Deilliant 7: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

**ARGYMHELLIAD:**

Bod y Pwyllgor Iaith yn ystyried cynnwys y ddogfen gan fynegi unrhyw welliannau sy'n ddymunol cyn iddi fynd i'r cam nesaf o'r broses ddemocrataidd.


| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Meinir Ebbsworth |
| **Swydd:** | Prif Swyddog Addysg –<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 17.05.21 |

# CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

| Enw'r Awdurdod Lleol |
|---|
| Ceredigion |
| **Cyfnod y Cynllun hwn** |
| 2022-32 |

**Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn cael ei wneud o dan adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*[1-2]. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.**

**Llofnod**: Meinir Ebbsworth **Dyddiad**: 31 Ionawr 2022

(Mae angen i'r Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol lofnodi'r Cynllun hwn)

[1] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
[2] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

| **Nodiadau i'ch cynorthwyo** |
|---|
| **Bydd angen i chi amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg eich awdurdod lleol dros y deng mlynedd nesaf a'r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn.  Dangoswch sut y byddwch yn cyflawni Deilliant 1-7 gan gyfeirio at y Canllawiau.**<br><br>**Cyn cwblhau'r templed hwn, cyfeiriwch yn benodol at Rhan 2 o'r Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.**<br><br>**https://llyw.cymru/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg**<br><br>**Mae'r rhan hon yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn eich Cynllun (fel yr amlinellir yn Atodlen y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019). Yn ogystal â'ch targed 10 mlynedd cyffredinol, mae rhai datganiadau yn yr Atodlen yn gofyn i chi osod targedau eraill, ac os felly, dylech hefyd gyfeirio at y rheini.** |

DRAFFT

## Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

TARGED 10 MLYNEDD O RAN NIFER Y PLANT BLWYDDYN 1 A ADDYSGIR DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Erbyn mis Medi 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion yw y bydd pob disgybl yn ysgolion yr awdurdod yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes y bydd yn saith oed. Bydd derbyn sylfaen ragorol wrth siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg yn cynyddu ar ddewis a hyder y disgybl i ddilyn trywydd cwbl ddwyieithog drwy weddill ei yrfa addysgol ac wrth wynebu byd gwaith a bywyd cymdeithasol y dyfodol. Bydd hyn nid yn unig yn llesol i'r unigolyn ac i sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion fel iaith gymunedol, bydd hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn tuag at nodau llesiant cenedlaethol Cymru ac at nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae'r datblygiadau hyn hefyd yn mynd law yn llaw gyda thri nod strategol 'Strategaeth Iaith Ceredigion' sef:

- Cynyddu sgiliau iaith trigolion Ceredigion
- Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion
- Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu bydd hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn tuag at nodau llesiant

Ym mis Medi 2020 nodwyd bod 72.9% o ddisgyblion Blwyddyn 1 ysgolion Ceredigion yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Erbyn 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion, a hynny drwy ymgynghori'n llawn â rhan-ddeiliaid ar hyd y daith, yw bod y *targed* o 87% (Ystod Uchaf) a awgrymwyd gan Llywodraeth Cymru yn cael ei ragori ymhellach i 100%.

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

## Deilliant 1

**Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

### Ble rydym ni nawr?

Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg

- Mae llawer o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yng Ngheredigion ar gyfer yr oedran cyn-ysgol oherwydd nifer y Cylchoedd Meithrin a darpariaeth gofal plant eraill sy’n weithredol yma.
- Mae angen mwy o warchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig yng ngogledd y sir. Mae Aberystwyth ac Aberaeron wedi cael eu nodi fel dwy ardal lle mae angen mwy o ddarpariaeth gwarchodwyr plant Cymraeg.
- Ceir 872 (data Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017-2022) o leoedd cyn-ysgol/meithrinfa/Cylch Meithrin ar gyfer plant 3 oed yng Ngheredigion. Mae 81% ohonynt mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac mae'r gweddill yn ddwyieithog neu'n gyfrwng Saesneg. Mae dewis o ddarparwyr gofal sesiynol ar draws y sir. Mae'r mwyafrif ohonynt yn leoliadau Cymraeg.
- Mae'r isod yn cynnig dadansoddiad o'r math o ofal plant a ddefnyddir a chyfrwng iaith y darparwr. Gofal plant cyfrwng Cymraeg ddefnyddir amlaf o'r holl fathau o ofal plant. Mae hyn ar ei uchaf ar gyfer gofal sesiynol trwy'r Cylchoedd Meithrin a'r clybiau brecwast am ddim sydd ar gael yn yr ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion Ceredigion yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Nifer y darparwyr gofal plant yn ôl iaith y ddarpariaeth (Rhagfyr 2019):

| | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg gydag elfennau o Gymraeg | Saesneg | Cyfanswm lleoliadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer gwarchodwyr cofrestredig | 12 | 12 | 16 | 11 | 51 |
| Nifer Meithrinfeydd Dydd cofrestredig | 3 | 4 | 0 | 1 | 8 |
| Nifer Gofal Sesiynol cofrestredig | 25 | 2 | 0 | 0 | 27 |
| Nifer lleoliadau ôl ysgol cofrestredig | 9 | 6 | 0 | 3 | 18 |
| Cyfanswm | 49 | 24 | 16 | 15 | 104 |

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

Mae 21 o leoliadau nas cynhelir yn darparu addysg i blant 3 oed ar draws y sir.

| Enw'r lleoliad | Cyfrwng Iaith y Darparwr |
|---|---|
| CM Penparc | Cymraeg |
| Meithrinfa Camau Bach (Aberystwyth) | Cymraeg |
| Meithrinfa Plas Gogerddan | Saesneg a Cymraeg yn ôl dewis |
| Mês Bach (Blynyddoedd Cynnar Cymru) | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog |
| Grŵp Chwarae Padarn Sant (Blynyddoedd Cynnar Cymru) | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog |
| CM Trefeurig | Cymraeg |
| CM Felinfach | Cymraeg |
| CM Talybont | Cymraeg |
| CM Ffrindiau Bach Tegryn (Aberporth) | Cymraeg |
| Grŵp Chwarae Dwyieithog Aberporth (Blynyddoedd Cynnar Cymru) | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog |
| CM Llechryd | Cymraeg |
| CM Llangeitho | Cymraeg |
| CM Llanilar | Cymraeg |
| CM Llanarth | Cymraeg |
| CM Cei Newydd | Cymraeg |
| CM Llangwyryfon | Cymraeg |
| CM Llanrhystud (Glan y Môr) | Cymraeg |
| CM Llanfarian | Cymraeg |
| CM Pontrhydfendigaid | Cymraeg |
| CM Penllwyn | Cymraeg |
| CM Talgarreg | Cymraeg |

**Data Dilyniant Mudiad Meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg (data 2019/20)**:

Mae mwyafrif helaeth y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg. Er hyn, yn 2019/20 mae cyfradd dilyniant Cylch Meithrin Cei Newydd i addysg Gymraeg yn 25%, Camau Bach (Aberystwyth) yn 97.74%, CM Penllwyn yn 87.5.31%, CM Talybont yn 90%, 0% y CM Pontrhydfendigaid (1 plentyn oedd yn trosglwyddo i'r cynradd), CM Glan y Môr (Llanrhystud) yn 92.31%. Mae Cylch Meithrin Cei Newydd (cyfrwng Cymraeg) yn nalgylch Ysgol Cei Newydd sydd yn ysgol sydd wedi ei diffinio fel ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg.

**Blynyddoedd Cynnar Cymru a gofal preifat**

Nid oes data pendant am drosglwyddiad plant o Meithrinfa Plas Gogerddan, Gofal Plant Mês Bach, Grŵp Chwarae Padarn Sant nac o Grŵp Chwarae Dwyieithog Aberporth i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Grŵp Chwarae Dwyieithog Aberporth yn nalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg sef Ysgol Gynradd Aberporth. Gwasanaeth Saesneg/dwyieithog sy'n cael ei gynnig gan y lleoliadau hyn.

**Ysgolion sy'n darparu addysg i blant 3 oed (dosbarth meithrin)**

| **Ysgol** | **Cyfrwng** |
|---|---|
| Dyffryn Cledlyn | Cymraeg |
| Aberteifi | Cymraeg |
| Plascrug* | *Saesneg* |
| Llwyn yr Eos* | *Saesneg* |
| Rhydypennau | Cymraeg |
| Y Dderi | Cymraeg |
| Bro Teifi | Cymraeg |
| Aberaeron | Cymraeg |
| Henry Richard | Cymraeg |
| T Llew Jones | Cymraeg |
| Ysgol Gymraeg | Cymraeg |
| Cenarth | Cymraeg |
| Bro Pedr | Cymraeg |
| Bro Sion Cwilt | Cymraeg |

Mae 12 o'r ysgolion felly yn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy ysgol* yn ardal Aberystwyth wedi'u diffinio'n bresennol fel ysgolion cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg.

- Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant sesiynol am ddim i bob plentyn 2 - 3 oed sy'n byw yn ardaloedd daearyddol Dechrau'n Deg o fewn lleoliadau gofal plant cymeradwy. Mae pob un o'r lleoliadau yma yn rhai cyfrwng Cymraeg gan gynnwys y ddarpariaeth yn 'Ffrindiau Bach yr Eos' (Penparcau/Llwyn yr Eos - Aberystwyth).

- Mae mwyafrif o'r darparwyr gofal plant wedi cofrestru ar gyfer darparu 'Cynnig Gofal Plant 30 awr' Llywodraeth Cymru i blant 3-4 oed

- Mae angen denu mwy o bobl i fod yn warchodwyr plant yn yr ardaloedd lle mae diffyg darpariaeth. Mae hyn yn arbennig o wir am warchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg.

- Mae annog staff mewn lleoliadau gofal plant i ddilyn hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg yn parhau i fod yn her oherwydd byddai'n well gan staff fod yr hyfforddiant ar gael iddynt pan fyddant gyda'r plant.

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

| **Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?** |
|---|
| • Llunio ymgyrch flynyddol er mwyn annog mwy o warchodwyr Cymraeg eu hiaith (o fis Medi 2022 ymlaen).<br>• Gwyntyllu'r posibilrwydd o geisio cynyddu nifer y darparwyr/gwarchodwyr plant sydd ar gael i ddarparu gwasanaeth Cymraeg drwy eu cefnogi/talu am fynychu cyrsiau dysgu/gloywi Cymraeg.<br>• Ehangu ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob darpariaeth gofal plant yn ardal Aberystwyth (gan gynnwys gwarchodwyr, Meithrinfeydd Dydd, Gofal sesiynol a Clybiau ar ôl Ysgol/Gwyliau (gofal cofleidiol).<br>• Sicrhau partneriaeth agos gydag ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach Ceredigion a chynlluniau/prentisiaethau Mudiad Meithrin er mwyn cael gweithlu digonol cyfrwng Cymraeg yn y sector gofal plant (mis Medi 2022 ymlaen).<br>• Anelu at ddilyniant 100% cyfrwng Cymraeg o'r cylchoedd meithrin MM presennol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg meithrin a derbyn ysgolion cylch Aberystwyth yn ystod hanner cyntaf oes y cynllun hwn.<br>• Ymgynghori gyda'r nod o greu dosbarth meithrin CC yn Ysgol Cei Newydd, Comins Coch ac Ysgol Padarn Sant yn ogystal ag ymgynghori i gynllunio darpariaeth meithrin cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llwyn yr Eos ac Ysgol Plascrug yn ystod hanner cyntaf oes y cynllun hwn, gan hwyluso dilyniant ieithyddol ar draws y cyfnod sylfaen. (Mae'r uchod yn golygu y byddai pob plentyn sy'n mynychu darpariaeth Cylchoedd Meithrin (MM)/Grwpiau Chwarae (BCC) eraill ar draws y sir yn dilyn llwybr mamiaith gan mai darpariaeth CC fyddai yn nghyfnod sylfaen pob ysgol).<br>• Sicrhau y byddwn yn cydweithio gyda 'Dechrau'n Deg' gyda'r nod o gynyddu'r lleoedd ar gael yn y ddarpariaeth CC i blant 2-3 oed ym Mhenparcau (Ffrindiau Bach yr Eos) o fis Medi 2022 ymlaen.<br>• Llunio rhaglen flynyddol o hyfforddiant gloywi iaith i weithlu gofal plant presennol (a'r dyfodol) yn benodol yn ardal Aberystwyth pan bydd cyllid yn caniatáu.<br>• Cynllunio rhaglen gefnogol o ddysgu proffesiynol am ddulliau trochi iaith effeithiol yn y blynyddoedd cynnar.<br>• Rhoi sylw i'r diffyg gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg drwy barhau i ymgyrchu ac annog mwy o unigolion sy'n siarad Cymraeg i ymuno â'r proffesiwn.<br>• Cydweithio gyda phartneriaid yn y colegau addysg bellach ayyb er mwyn hyrwyddo manteision y Gymraeg yn y gweithle ac yn benodol o ran yr angen am warchodwyr/gweithlu gofal plant Cymraeg eu hiaith yn y dyfodol.<br>• Sicrhau dosbarth sy'n darparu addysg 3 oed mewn ysgol cyfrwng Cymraeg newydd sy'n gwasanaethu ysgolion Dyffryn Aeron (Felinfach, Ciliau Aeron a Dihewyd). Yn bresennol cylchoedd meithrin lleol sy'n darparu hynny. Mae 'Grant Cyfalaf Cynnig Gofal Plant' wedi sicrhau cyllid i ddarparu gofod ar gyfer darpariaeth Cylch Meithrin/gofal cofleidiol.<br>• Dros gyfnod y cynllun, bydd pob ysgol gynradd newydd a gynllunnir, yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i blant 3 oed. Bydd yr awdurdod yn cydweithio gyda Mudiad Meithrin i geisio sicrhau lleoliad i wasanaethu plant 2-3 oed a gofal cofleidiol ar y safle. |

DRAFT

- Parhau i gydweithio gyda'r Mudiad Meithrin i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer plant cyn oed ysgol (2-3 oed) drwy eu prosiect 'Sefydlu a Symud'.
- Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i annog a hyrwyddo manteision y Gymraeg ac amlieithrwydd drwy wefan Cyngor Sir Ceredigion a thrwy ddolenni sy'n arddangos adnoddau penodol e.e. Byw a Bod, Cymraeg i Blant, Cylchoedd Ti a Fi, Gofal Plant Ceredigion, Mudiad Meithrin, Cered, Sianel 'You-Tube' y Gymraeg ayyb.
- Uned Gofal Plant – trwy'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, nodi a chynllunio mesurau i gryfhau ac ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr ardal i sicrhau llwybr di-dor tuag at addysg cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn sicrhau bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer rhieni/gofalwyr a darpar rieni/gofalwyr yn darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg gartref drwy wefan DEWIS Cymru a FIS.
- Yn dilyn y prosesau ymgynghori perthnasol, bydd cyswllt CLIC y cyngor yn cyfeirio rhieni newydd at swyddog Derbyniadau'r awdurdod fydd yn nodi mai addysg cyfrwng Cymraeg fydd holl ddarpariaeth meithrin yr awdurdod a hynny wedi ei gynllunio ar gyfer hanner cyntaf oes y cynllun hwn.
- Bydd unrhyw rieni newydd o'r tu allan i'r awdurdod yn cael eu cyfeirio at swyddog Derbyniadau'r awdurdod fydd yn dosbarthu gwybodaeth unffurf fydd yn nodi mai darpariaeth drochi cyfrwng Cymraeg fydd y blynyddoedd cynnar i ddisgyblion hyd 7 oed. Bydd hefyd yn nodi manteision dwyieithrwydd a byw mewn cymdeithas ddwyieithog yn y dyfodol. Bydd hyn yn weithredol yn ystod hanner cyntaf oes y cynllun hwn.
- Wrth i rieni ddewis ysgol i'w plentyn, mae'n ddyletswydd o dan Adran 10 o'r Mesur i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae adran 6 o'r Mesur yn rhoi grym i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau trafnidiaeth i ddysgwyr nad ydynt o reidrwydd yn mynychu eu hysgol agosaf oherwydd dewis iaith.

  Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol / Coleg:

  https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/ysgolion-ac-addysg/cludiant-ysgol-coleg/

- Gweithio mewn partneriaeth gyda Blynyddoedd Cynnar Cymru (sy'n cefnogi'r lleoliadau) a Phwyllgorau Rheoli perthnasol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn eu grwpiau chwarae ar gyfer plant 2-3 oed (yn y pendraw) h.y. Padarn Sant, Aberporth a Mês Bach yn ddarpariaeth gyda phwyslais cyfrwng Cymraeg gan ystyried y bydd y plant i gyd yn trosglwyddo i ddarpariaeth CC meithrin 3 oed yn yr ysgolion lleol yn sgil proses ymgynghori yn ystod hanner cyntaf oes y cynllun hwn.
- Mae plant Grŵp Chwarae Aberporth yn trosglwyddo i addysg CC ar hyn o bryd felly byddwn yn cydweithio i weld datblygiad ieithyddol sydd â gogwydd gynyddol o safbwynt y Gymraeg yno o fis Medi 2022 ymlaen.
- Cydweithio gyda grwpiau gofal plant preifat e.e. Meithrinfeydd Dydd er mwyn sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a hynny er mwyn hwyluso dilyniant i addysg feithrin/derbyn cyfrwng Cymraeg yn ysgolion cylch Aberystwyth.

DRAFT

- Parhau i gyd weithio gyda Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Cylchoedd Ti a Fi, Canolfannau Teulu a Dechrau'n Deg i gefnogi rhieni a phlant i ddechrau'r daith o addysg cyfrwng Cymraeg trwy'r dull trochi.
- Parhau i gyd weithio gyda Mudiad Meithrin  a thrwy hynny gyda'r Cylchoedd Meithrin i ddarparu gwasanaethau Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant a gofal cofleidiol.

**Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Bod holl blant Ceredigion yn/wedi cael mynediad lawn i addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar(3 oed) hyd 7 oed yn ddi-wahân gan adeiladu ar y dewis hwnnw wrth symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu haddysg a'u bywyd cymdeithasol hyd 11 oed a thu hwnt.

**Data Allweddol**

Yn y tabl isod nodir canran y plant 3 oed hynny fydd mewn addysg CC yn ysgolion Ceredigion ac mewn lleoliadau nas-cynhelir CC. Yn 2020/21 roedd y ganran honno oddeutu 79%. Erbyn diwedd y cynllun hwn bydd y ganran wedi cynyddu ac yn cynnwys y dosbarthiadau meithrin 3 oed sydd wedi eu datblygu i fod yn rhai CC.

| Niferoedd a % y plant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | 80 - 85% | | 80 - 85% | | 80 - 85% | | 80 - 90% | | 85 - 95% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | 85 - 95% | | 90 – 100% | | 95 – 100% | | 95 – 100% | | 95 – 100% |

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

## Deilliant 2

### Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Ble rydym ni nawr?**

Yn y flwyddyn ysgol 2020/2021, mae 72.9% o holl ddisgyblion Blwyddyn 1 ysgolion Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd disgyblion Blwyddyn 1 Ysgol Bro Pedr yn ymddangos yn y data ym Medi 2022 gan eu bod eisoes wedi mynd drwy'r broses o ddatblygu'n ieithyddol yn y cyfnod sylfaen. Dosbarth meithrin 2020/21 yw'r disgyblion cyntaf i ddilyn y continwwm CC yn y cyfnod sylfaen.

**Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

*Mae Cymraeg 2050 yn nodi'n glir mai addysg drochi lawn yn y Gymraeg – hynny yw, addysg mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Cymraeg yn bennaf – yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o greu unigolion gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau pob dydd.*

- Drwy broses ymgynghori a chydweithio gyda phenaethiaid, cyrff llywodraethol a holl ran-ddeiliaid Ysgol Cei Newydd, Ysgol Plas-crug, Ysgol Padarn Sant, Ysgol Llwyn yr Eos ac Ysgol Comins Coch, gweld datblygiad i'r drefn bresennol gan gynnig dewis ieithyddol ehangach i holl blant yr ysgolion yma. Byddai'r datblygiad yma'n golygu sefyllfa drochi ieithyddol yn y blynyddoedd cynnar hyd saith oed ym mhob un o'r ysgolion gan gynnwys sefydlu dosbarth meithrin newydd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Comins Coch, Ysgol Padarn Sant ac Ysgol Cei Newydd.
- Ymgynghori ar greu darpariaeth meithrin a chyfnod sylfaen CC yn Ysgol Comins Coch, Ysgol Padarn Sant ac Ysgol Cei Newydd i gyd- redeg gyda'r isod.
- Cynnal proses ymgynghori yn ardal Aberystwyth yn benodol yn ystod hanner cyntaf oes y cynllun hwn ar weld datblygiad ieithyddol yn y Cyfnod Sylfaen.
  Ysgol Plascrug (darpariaeth meithrin presennol)
  Ysgol Comins Coch (cynnig darpariaeth meithrin)
  Ysgol Llwyn yr Eos (darpariaeth meithrin presennol)
  Ysgol Padarn Sant (cynnig darpariaeth meithrin)
  Ysgol Cei Newydd (cynnig darpariaeth meithrin)

Y plant cyntaf fyddai'n cael eu hystyried ar lwybr CC fyddai'r rhai sy'n cael mynediad i'r dosbarth meithrin ym mhob ysgol (Ysgol Plascrug, Ysgol Llwyn yr Eos, Ysgol Comins Coch, Ysgol Padarn Sant ac Ysgol Cei Newydd) a hynny ar yr un pryd e.e. Medi 2024. Gweithredir ar hyn yn ystod hanner cyntaf oes y cynllun hwn.

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

Bydd unrhyw geisiadau am gyllid grant gan LlC mewn cysylltiad ag ysgolion yn ystyried y targed i gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd ysgol newydd yn Nyffryn Aeron yn darparu addysg feithrin mewn dosbarth pwrpasol, ond ni fydd yn ychwanegu cynnydd at y nifer/% presennol disgyblion Blwyddyn 1 gan fod yr holl ysgolion fydd yn trosglwyddo iddi yn rhai cyfrwng Cymraeg (YG Felinfach, YG Dihewyd, YG Ciliau Parc).

https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/ysgolion-ac-addysg/cynllunior-ddarpariaeth-addysg/

Bydd Ceredigion yn cydweithio'n agos gyda Cyngor Sir Powys, Sir Gâr a Phenfro er mwyn sicrhau bod disgyblion sy'n mynychu ysgolion trawsffiniol e.e. Ysgol y Preseli, Ysgol Gyfun Emlyn yn parhau i ddilyn llwybr cyfrwng Cymraeg (os yn berthnasol).

Canolfannau Iaith
Ceir mynediad i ganolfannau trochi i hwyrddyfodiaid Bl2-6 mewn dau leoliad parhaol yn y sir sef Canolfan y Castell (Aberteifi) a Chanolfan y Felin (Felinfach). Mae darpariaeth y sir ar gyfer hwyrddyfodiaid ar darged. Mae hwn yn ddarpariaeth arbennig i ddisgyblion sydd wedi symud i mewn i'r ardal yn ddiweddar ac yn cael ei gynllunio yn ôl yr angen.

Mae Canolfan Iaith ar gyfer Cylch Aberystwyth yn estyniad Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn gais gan Geredigion ar gyfer grant cyfalaf y Gymraeg 2021 i gwrdd â'r angen cynyddol fydd yng ngogledd y sir o ganlyniad i'r ymgynghoriadau a nodir yn y cynllun hwn.

Bydd y cais ar gyfer estyniad Ysgol Gymraeg Aberystwyth (uchod) yn ychwanegu 30 o lefydd ychwanegol yno ac yn cynnwys Canolfan Iaith.

Mae ymateb i'r galw e.e. wrth sefydlu cefnogaeth gloywi uwchradd i hwyrddyfodiaid (Bl7 ac 8 yn bennaf) yn Ysgol Bro Teifi hefyd yn rhan o'r strategaeth presennol a'r dyfodol.
Drwy fuddsoddiad ariannol sylweddol a chefnogaeth bendant Cyngor Sir Ceredigion, bydd y ddarpariaeth ar draws yr holl ganolfannau iaith yn parhau.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bod holl blant Ceredigion yn/wedi cael mynediad lawn i addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar hyd 7 oed yn ddi-wahân gan adeiladu ar y dewis hwnnw wrth symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu haddysg a'u bywyd cymdeithasol hyd 11 oed a thu hwnt.

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

| **Data Allweddol** |
|---|
| Targedau cynnydd i ddangos canran y plant 5 oed (Blwyddyn 1) sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg |

| Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | 78% | | 80% | | 82% | | 85% | | 100% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | 100% | | 100% | | 100% | | 100% | | 100% |

DRAFFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

# Deilliant 3

## Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

### Ble rydym ni nawr?

Nodwyd y sefyllfa gyfredol ac fel y bydd y sefyllfa'n datblygu ymhellach dros oes y cynllun hwn (o ran plant dan 5) yn neilliant 1 a 2 (uchod).

72.9% o ddisgyblion Blwyddyn 1 Ceredigion sydd yn dilyn llwybr addysg CC yn 2020/21.

Data CA2 – Nifer/% sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ers 2017/18 fel cyfanswm a chanran o holl ddisgyblion CA2:

| 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|
| Nifer CC 496 (allan o 685)<br>% = 72.4 | Nifer CC 483 (allan o 648)<br>% = 74.5 | Nifer CC 411 (allan o 571)<br>% = 72.0<br>*(answyddogol, o ganlyniad i Covid)* | Nifer CC (allan o……..)<br>% =<br>PLASC 2021<br>*(ar gael Mehefin 2021)* |

Data CA3 – Mae'r nifer a chyfanswm y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel pwnc Iaith 1af ym mlwyddyn 9 fel a ganlyn ers 2017/18:

| 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020(COVID-19) | 2020/21(COVID-19) |
|---|---|---|---|
| Targed: 66%<br>Canlyniad: 64%<br>Nifer y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = 469/732 | Targed: 68%<br>Canlyniad: 66%<br>Nifer y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = 479/728 | Targed : 70%<br>Canlyniad : 72%<br>Nifer y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = 458/633<br>*(answyddogol, o ganlyniad i Covid)* | Targed : 70%<br>Canlyniad : N/A<br>Nifer y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = N/A<br>*(ar gael Gorffennaf 2021)* |

Blwyddyn 9: Asesiad Ail Iaith

| 2017/18 | 2018/19 | 2019/20(COVID-19) | 2020/21(COVID-19) |
|---|---|---|---|
| Nifer/% y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = 36% (263/732) | Nifer/% y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = 34% (249/728) | Nifer/% y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = 26% (165/633)<br>*(answyddogol, o ganlyniad i Covid)* | Nifer/% y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = N/A<br>*(ar gael Gorffennaf 2021)* |

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

| **Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?** |
|---|
| <u>'Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (*Llywodraeth Cymru*)</u><br>Yn unol â'r arweiniad yn nogfen ganllaw 'Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' Llywodraeth Cymru bydd yr awdurdod yn mapio'r ddarpariaeth addysg bresennol yn ôl gweithgarwch addysgu a dysgu Cymraeg, gan ddefnyddio data CYBLD fel gwaelodlin o fis Gorffennaf 2021 ymlaen.<br><br>Erbyn Gorffennaf 2022 bydd yr awdurdod yn cytuno â llywodraethwyr pob ysgol a gynhelir pa gategori sy'n disgrifio'r ysgol orau o ran y weledigaeth yn y CySGA i'w datblygu'n ieithyddol gan gynnwys y categorïau trosiannol.<br><br>Bydd yr awdurdod yn cyd-weithio gyda'r ysgolion wrth weithredu i gwrdd â'r canlyniadau addysgol/ieithyddol perthnasol a disgwyliedig wrth weld cynnydd tuag at y Gymraeg yn ei hysgolion hyd 2032 a thu hwnt.<br><br><u>Targed</u><br>Cynnydd canrannol yn nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg presennol i addysg cyfrwng Cymraeg uwchradd (yn ardal Aberystwyth).<br><br>Roedd 79% o ddisgyblion Blwyddyn 6 wedi trosglwyddo i addysg CC uwchradd ym mis Medi 2020 o'r ysgolion hyn.<br><br>Targed Medi 2021: 80%<br>Targed Medi 2022: 82%<br>Targed Medi 2023: 84%<br>Targed Medi 2024: 82%<br>Targed Medi 2025: 90%<br><br><u>Targed</u><br>Adeiladu ar y sail gadarn a osodwyd yn y cyfnod sylfaen fel bod disgyblion 7-11oed Ysgol Plascrug, Ysgol Padarn Sant, Ysgol Llwyn yr Eos, Ysgol Comins Coch ac Ysgol Cei Newydd yn medru parhau i ddatblygu eu medrau ieithyddol. Y nod yw sicrhau eu bod yn deall a siarad y Gymraeg yn hyderus yn unol â'r dyhead ym mhedwar diben Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn cynnig y dewis iddynt o ran cyfrwng ieithyddol addysg uwchradd yn y dyfodol.<br><br><u>Targed</u><br>Cydweithio gyda'r rhan-ddeiliaid perthnasol er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol o'r cynradd i'r uwchradd mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth yn Ysgol Penweddig (hyn i gyd-fynd gyda chontinwwm ieithyddol Cwricwlwm i Gymru).<br><br><u>Targed</u><br>Cynyddu'r dilyniant ieithyddol o ran y meysydd sy'n cael eu cynnig a'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3 ar draws Ysgol Bro Pedr, Ysgol Henry Richard, Ysgol Uwchradd Penglais, Ysgol Uwchradd Aberaeron, Ysgol Uwchradd Aberteifi ac Ysgol Uwchradd Penweddig.<br><br><u>Targed</u><br>Ymgynghori gyda'r rhan-ddeiliaid perthnasol er mwyn cynllunio datblygiad a dilyniant ieithyddol Categori 3 yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 Ysgol Henry Richard |

DRAFT

(‘Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg’ - Llywodraeth Cymru) gyda hynny’n weithredol yn ystod hanner cyntaf y cynllun strategol hwn.

Targed
Cynllunio cynnydd pendant yn nifer y disgyblion sy’n astudio ar gyfer cymwysterau ac sy’n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr ysgolion uwchradd. Adeiladu ar hyder disgyblion CA3 drwy gefnogaeth hyfforddiant sirol, cefnogaeth allgyrsiol, cefnogaeth gwaith cartref (datblygiad ‘ap’ ar lefel sirol/genedlaethol), hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff a disgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 ayyb) gyda chysywllt pendant yma gydag ymgyrch HYDER sirol (gweler Deilliant 5).

Targed
Yn unol â’r hyn a nodir yn arweiniad ‘Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg’ (Llywodraeth Cymru), ymgynghori gyda holl ran-ddeiliad Ysgol Uwchradd Penglais er mwyn cynllunio datblygiad ieithyddol dros gyfnod 10 mlynedd y cynllun hwn. Y nod yw sicrhau dilyniant ieithyddol o’r cynradd yn unol â gofynion y pedwar diben a Cwricwlwm i Gymru.

Targed
Sicrhau bod dogfen ‘Datblygu Addysg yng Ngheredigion 2022-32' yn alinio gyda CySGA 2022/32 o ran sicrhau darpariaeth lawn CC ôl 16 yn y sir.

**Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Dros y ddegawd nesaf, bwriedir ymgynghori yn unol â’r arweiniad yn ‘Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg’ (Llywodraeth Cymru) gyda rhanddeiliaid yr ysgolion uwchradd canlynol: Ysgol Uwchradd Aberaeron, Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ysgol Henry Richard ac Ysgol Bro Pedr fel eu bod yn cwrdd â gofynion C3 i’r mwyafrif llethol o ddisgyblion erbyn 2032.

(Bydd y rhaglen o ymgynghori uchod yn dechrau yn rhan gyntaf y cynllun hwn ar gyfer Ysgol Henry Richard, gyda’r ysgolion eraill uchod i ddilyn).

**Data Allweddol**

Ym Medi 2020 trosglwyddodd 387 (70%) o ddisgyblion Blwyddyn 6 ar draws ysgolion cynradd Ceredigion i addysg cyfrwng Gymraeg uwchradd. Trosglwyddodd 168 (30%) o’r un fintai i addysg cyfrwng Saesneg uwchradd h.y. o CA2 i CA3.

Nifer a chanran y disgyblion Blwyddyn 1 – 6 sydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Ionawr 2020 (CYBLD 2020)

| | Blwyddyn 1 | | Blwyddyn 2 | | Blwyddyn 3 | | Blwyddyn 4 | | Blwyddyn 5 | | Blwyddyn 6 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 465 | 73% | 500 | 76% | 520 | 74% | 503 | 75% | 533 | 72% | 459 | 74% |
| Cyfrwng Saesneg | 170 | 27% | 154 | 24% | 178 | 26% | 171 | 25% | 207 | 28% | 160 | 26% |

(gall fod rhai disgyblion ar goll o’r mintai llawn oherwydd na dderbyniwyd y data yn ystod cyfnod cofnodi’r ddogfen hon)

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

| Niferoedd a % y dysgwyr sy’n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o’u haddysg statudol i un arall | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | 72% | | 75% | | 75% | | 75% | | 76% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | 76% | | 78% | | 79% | | 80% | | 81% |

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

## Deilliant 4

**Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Ble rydym ni nawr?**

Y Gymraeg fel pwnc

Mae polisi iaith Ceredigion yn nodi dilyniant cryf o ran astudio'r Gymraeg fel pwnc. Mae disgyblion sydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y cynradd neu sydd wedi treulio cyfnod allweddol cyfan yn astudio mamiaith yn dilyn yr un llwybr trwy'r cyfnodau allweddol uwchradd.

Nifer a chanran y disgyblion sy'n astudio manyleb mamiaith yn 2020/2021

CA3 - Oherwydd cyfyngiadau Covid mae'r data ar gyfer CA3 YN ANGHYFLAWN.

CA4 - Yn Haf 2020, astudiodd 63.5% ar gyfer cymhwyster TGAU mamiaith (453 o ddisgyblion).

CA5 - Yn Haf 2020, astudiodd 7.81% o'r disgyblion cymwys (oedd wedi astudio TGAU mamiaith yn flaenorol), y Gymraeg fel pwnc safon uwch.

Nifer a chanran disgyblion sy'n astudio manyleb ail iaith yn 2020/2021

CA3 - Oherwydd cyfyngiadau Covid mae'r data ar gyfer CA3 YN ANGHYFLAWN

CA4 Yn Haf 2020, astudiodd 29% ar gyfer cymhwyster TGAU ail iaith (207 o ddisgyblion)

CA5 - Yn Haf 2020, astudiodd 1.97 o'r disgyblion cymwys ( oedd wedi astudio TGAU ail iaith yn flaenorol), Cymraeg ail iaith fel pwnc safon uwch.

PYNCIAU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Ar hyn o bryd, mae pob disgybl sy'n mynychu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (CS) ac mae o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA2.

Anelir at addysgu 40% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg yn y CS yn yr ysgolion cynradd 'Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg' a 30% ohono yn CA2.

CA 3 - Oherwydd cyfyngiadau Covid mae'r data ar gyfer CA3 YN ANGHYFLAWN

CA4 –Yn Haf 2020, roedd 57% o ddisgyblion Ceredigion wedi llwyddo i astudio 2 neu fwy o gymwysterau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg a 33% wedi astudio 5 neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg.

CA5 – Yn Haf 2020, safwyd 1309 o gymwysterau gan ddisgyblion Ceredigion. Roedd 317 o'r rheiny trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys 157 o gymhwyster y fagloriaeth Gymreig. Rhydd hyn ganran o 24% o ddisgyblion safon Uwch yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

**Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

- Bydd angen sicrhau yr un cadernid o ran llwybr ieithyddol wrth arwain ysgolion drwy newid yn y system dynodiadau ysgolion.
- Bydd angen cefnogi ysgolion uwchradd wrth iddynt annog disgyblion i barhau gyda'u llwybr mamiaith.
- Targedu mwy o ddisgyblion o ysgolion cynradd Cymraeg i barhau gydag addysg cyfrwng yn enwedig yng nghylch Aberystwyth.
- Darparu hyfforddiant Gloywi Iaith ar gyfer yr athrawon hynny sy'n ddi-hyder yn eu defnydd o'r iaith.
- Bydd angen sicrhau hefyd bod ysgolion yn deall anghenion newydd cymwysterau TGAU yn sgil Cwricwlwm i Gymru.
- Bydd angen cadarnhad pellach wedi ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar y cynnig bod Cymraeg TGAU yn gyfwerth ag un TGAU a hanner. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn cael effaith ar y data a'n targedau.
- Yn yr un modd bydd angen ystyried darpariaeth ysgolion o bynciau cyfrwng Cymraeg wrth eu gosod yn y dynodiad cywir. Bydd nifer o'n hysgolion yn syrthio rhwng dau gategori a bydd angen cefnogaeth pellach er mwyn symud ysgolion ar hyd y llwybr sy'n cynyddu canran y pynciau a gynigir, astudir ac asesir trwy gyfrwng y Gymraeg.

| | **2022/2023** | **2023/2024** | **2024/2025** | **2025/2026** | **2026/2027** |
|---|---|---|---|---|---|
| **TGAU mamiaith** | 63% | | | | |
| **TGAU ail iaith** | 29% | | | | |
| **Safon Uwch mamiaith** | 7.81% | | | | |
| **Safon Uwch ail iaith** | 1.97% | | | | |

Mae opsiynau disgyblion o astudio mwy na 10 cymhwyster yn amrywio o ysgol i ysgol ac yn ôl blociau opsiwn a phynciau galwedigaethol. Rydym felly wedi penderfynu defnyddio canrannau o'r cymwysterau yn hytrach na rhif absoliwt.

| | **2022/2023** | **2023/2024** | **2024/2025** | **2025/2026** | **2026/2027** |
|---|---|---|---|---|---|
| **20%** o'r cymwysterau a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg ar wahân i'r Gymraeg a Chymraeg Llên | | | | | |
| **40%** o'r cymwysterau a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg ar wahân i'r Gymraeg a Chymraeg Llên | | | | | |
| **50%** o'r cymwysterau a astudir trwy | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| gyfrwng y Gymraeg ar wahân i'r Gymraeg a Chymraeg Llên | | | | | |
| **100%** o'r cymwysterau a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg ar wahân i'r Gymraeg a Chymraeg Llên | | | | | |

**Sut byddwn yn cefnogi ysgolion Uwchradd i gymryd camau i gynyddu nifer y cymwysterau y gall dysgwyr eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg?**

- Sicrhau bod darn penodol o waith yn rhan o swydd newydd y Cydlynydd Cwricwlaidd Uwchradd i fonitro'r ddarpariaeth a chasglu gwybodaeth ynghylch cyfradd astudio cyfrwng CA4 a CA5. Bydd y cydlynydd yn medru casglu data cyfredol o ba fwrdd arholi/cymwysterau mae ysgolion yn eu dewis e.e. ambell ysgol yn newid o ddysgu safon Uwch i ddarparu cwrs BTEC.
- Ymgynghori ar newid categori un ysgol uwchradd i ddynodiad 3 yn unol â 'Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru)
- Parhau i ddosrannu arian y Gymraeg er mwyn sicrhau dosbarthiadau pynciau cyfrwng Cymraeg yn CA4 – Monitro a chyfiawnhau'r gwariant hwn cyn , yn ystod ac ar ddiwedd y cyfnodau arian.
- Dylid sicrhau adrodd ar y camau yma o ychwanegu at yr arlwy o bynciau cyfrwng Cymraeg yn flynyddol yn CDY pob ysgol.
- Sefydlu pwyllgor a chyfarfodydd ar gyfer Llywodraethwyr sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg er mwyn mireinio eu rôl a chryfhau atebolrwydd.
- Defnyddio system e-sgol i gefnogi pynciau TGAU ac ehangu ar fwydlen e-ddysgu o ran pynciau cyfrwng Cymraeg safon Uwch.
- Sicrhau bod pob disgybl sy'n astudio cymhwyster mamiaith yn cael ei asesu ar gyfer y Fagloriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cefnogi'r athrawon hynny sy'n ddi-hyder yn ieithyddol i fynychu'r cwrs sabothol a darparu sesiynau gloywi ar eu cyfer yn fewnol. Cwrs Cymorthyddion (Pasg '21) ac athrawon yn barod (Medi '21). Bydd penodiad newydd o swyddog Cefnogi Gyrfa Gynnar athrawon hefyd yn helpu i flaenoriaethu targedau personol yr athrawon hyn a'u harwain at y cyrsiau perthnasol nid yn unig o fewn eu blwyddyn gyntaf ond y tu hwnt i hynny hefyd. Bydd yn gaffaeliad i baratoi'r gweithle ar gyfer medru darparu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Casglu data cyfredol o ba fwrdd arholi/cymwysterau mae ysgolion yn eu dewis e.e. ambell ysgol yn newid o ddysgu safon Uwch i ddarparu cwrs BTEC.
- Cynnal Ffair Yrfaoedd/Byd Gwaith – rhannu pwysigrwydd dwyieithrwydd – modd gwneud hyn trwy gyfres o ffilmiau byrion o brofiadau pobl go iawn yn ogystal â thrwy'r Ymgyrch Hyder (gweler Deilliant 5).

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

- Cefnogi'r ysgolion gyda Cwricwlwm i Gymru – edrych ar is-bennawd y 4 diben - "Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddatblygu yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n ... gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg". Defnyddio uned 'Troi'r trai mewn trideg mlynedd' y Coleg Cymraeg fel modiwl gyda'r holl ddisgyblion.
- Cefnogi llysgenhadon ysgol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda'u gwaith.
- Cefnogi ysgolion wrth gynllunio dilyniant addas ar hyd llwybr ieithyddol disgyblion o naill sector i'r llall yn unol â Chwricwlwm i Gymru.
- Cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg a Cered i barhau i fynychu nosweithiau agored ysgolion uwchradd a hyrwyddo astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a siarad Cymraeg. Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg o fewn Addysg a Cered i gydweithio ar amserlen a chynllun cefnogi'r Uwchradd.
- Sefydlu perthynas agos a chynllunio gyda Gyrfa Cymru er mwyn lledaenu negeseuon cadarnhaol.
- Sicrhau bod prentisiaethau a swyddi'r sir yn nodi pwysigrwydd/angen y Gymraeg.

**Sut byddwn ni'n cydweithio gydag ysgolion i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig fel pwnc safon Uwch mewn ysgolion gan gefnogi ysgolion i gynnal dosbarthiadau llai os oes rhaid er mwyn diogeli'r pwnc?**

- Bydd modd rhannu arbenigedd rhwng ysgolion trwy e-sgol.
- Hyrwyddo sesiynau meistr a gynhelir trwy gynllun Y Coleg Cymraeg a'r prifysgolion.
- Cydweithio gyda phenaethiaid adrannau i adnabod darpar ddisgyblion Safon Uwch.
- Ail sefydlu a chryfhau rhwydwaith penaethiaid adrannau er mwyn cyd weithio a chadw golwg fanylach ar y rhifau.

**Sut byddwn ni'n cydweithio ag ysgolion i hyrwyddo manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc ymhlith disgyblion a rhieni/gofalwyr?**

- Rhannu fideos LlC - https://www.youtube.com/cymraeg ar gyfer nosweithiau opsiynau ac i'w hyrwyddo ymysg rhieni ac ar Cardi Iaith.
- Creu fideos astudiaethau achos ein hunain yn olrhain gyrfa hyd yma y disgyblion hynny sydd wedi astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch.
- Creu Fideo astudiaethau achos– Manteision dilyn llwybr aelod o staff sydd wedi astudio'r Gymraeg. Cydweithio gyda'n rhan-ddeiliaid, Y Coleg Cymraeg, Cered, Gyrfa Cymru a SAB.

**Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

- Rydym yn disgwyl, ar ddiwedd y cynllun 10 mlynedd, y bydd 6 o'r 7 ysgol Uwchradd yn cwrdd â gofynion dynodiad 3 ('Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' – LlC).
- Rydym yn disgwyl gweld canran y cymwysterau a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg yn codi'n raddol bob blwyddyn.
- Rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn hyder disgyblion a rhieni i ddewis addysg Gymraeg.
- Yng nghanlyniadau cyfrifiad 2031 byddwn yn disgwyl gweld canran uwch o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn medru siarad Cymraeg.



DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

| | 2027/2028 | 2028/2029 | 2029/2030 | 2030/2031 | 2031/2032 |
|---|---|---|---|---|---|
| TGAU mamiaith | | | | | 72% |
| TGAU ail iaith | | | | | 28% |
| Safon Uwch mamiaith | | | | | 20% |
| Safon Uwch ail iaith | | | | | 10% |
| 20% cyfrwng | | | | | 65% |
| 40% cyfrwng | | | | | 48% |
| 50% cyfrwng | | | | | 45% |
| 100%cyfrwng ( ac eithrio Saesneg fel pwnc) | | | | | 25% |

DRAFFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

# Deilliant 5

## Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

### Ble rydym ni nawr?

Penodwyd Swyddog Hyrwyddo’r Gymraeg Mewn Addysg ym mis Medi 2020 i arwain ar waith y Siarter Iaith (cynradd ac uwchradd) ac i gydweithio gydag amryw o ran-ddeiliaid gyda’r nod penodol o annog defnydd o’r Gymraeg yn anffurfiol ymysg disgyblion Ceredigion.

Mae’r Adran Diwylliant bellach yn rhan o’r Adran Ysgolion yng Ngheredigion gan felly gynnig cyfleoedd pellach i gyd-weithio ar gyfleoedd allgyrsiol a chymdeithasol o ran y Gymraeg.

Mae’r deilliant hwn yn cysylltu’n uniongyrchol â strategaeth hyrwyddo 5 mlynedd Ceredigion (sy’n ofyniad dan Safonau’r Gymraeg):

Nod Strategol 1 - Cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion.

1.3 Amcanion - Sicrhau cyfleoedd digonol i bobl ifanc ac oedolion gaffael a datblygu eu sgiliau Cymraeg: yn y gweithle ac yn y gymuned.

*gan blethu hefyd gyda:*

Nod Strategol 2 - Cynnal a chynyddu’r cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg mewn amrywiol gyd-destunau.

2.1 - Cynnal a chynyddu’r defnydd o’r Gymraeg ar lefel gymunedol.

<u>Data Cered</u>

Data CERED
2019-20.docx

<u>Data Theatr Felinfach</u>

| Prosiect | Nifer y sesiynau | Nifer y disgyblion | Arall |
|---|---|---|---|
| Dramatic | 6 | 73 | Ysgolion Henry Richard, T Llew Jones, Felinfach, CA2 |
| Sioe Dramatic (pawb ynghyd) | 5 | 225 | Fel uchod |
| Dawns | 5 | 72 | Dihewyd, ysgol gyfan |
| Sesiwn Stori a Drama | 1 | 53 | Ysgol Aberaeron, CA2 |
| Cwlltwr (Gweithdai theatr ieuenctid) | 20 | 84 | Ysgol Bro Pedr, Henry Richard (CA3) |

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

Arad Goch

Perfformiad i ddisgyblion CA3 - HUDO

**Dyma'r ysgolion yn Sir Ceredigion a gafodd berfformiad/au:**

| Ysgol | Perfformiadau | Disgyblion |
|---|---|---|
| Henry Richard | 1 | 26 |
| Penglais | 2 | 200 |
| Aberteifi | 2 | 93 |
| Aberaeron | 2 | 91 |
| Penweddig | 2 | 90 |
| Bro Pedr | 2 | 89 |
| Bro Teifi | 1 | 102 |
| | **12** | **691** |

Noder: Cafwyd 7 perfformiad Cymraeg, a 5 perfformiad Saesneg

Perfformiad i ddisgyblion CA2 – Tu fewn Tu-Fas

Dyma enwau ysgolion Sir Ceredigion sydd wedi derbyn y cynhyrchiad yn ystod 2019-20:

| | |
|---|---|
| Talybont | Llwyn yr Eos |
| Craig yr Wylfa | Plas Crug |
| Rhydypennau | Ponrhydfendigaid |
| YGA | Syr John Rhys |
| YG Aberaeron | Mynach |
| Llangwyryfon | Comins Coch |
| Llanfihangel y C | Myfenydd |
| Penrhyncoch | Bro Pedr |
| Penllwyn | Llanarth |
| YG Aberteifi | Dihewyd |
| Penparc | Ciliau Parc |
| Aberporth | Dyffryn Cledlyn |
| Felinfach | |

Noder: Cafwyd 23 perfformiad Cymraeg, a 4 perfformiad Saesneg.

Clybiau ôl ysgol cofrestredig

| | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg gydag elfennau o Gymraeg | Saesneg | Cyfanswm lleoliadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer lleoliadau ôl ysgol cofrestredig | 9 | 6 | 0 | 3 | 18 |

Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion

Mae gan yr Urdd, Clwb Ffermwyr Ifanc, Ieuenctid Tysul, Sgowtiaid Ceredigion, Girlguiding Cymru a Ray Ceredigion gytundeb lefel gwasanaeth gyda Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion. Maent yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11-25 oed. Mae gan y Cytundebau hyn y targedau canlynol i'w cwrdd er mwyn hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg:

• Gweithio tuag at y nifer o Achrediadau Cenedlaethol a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg (mae'n rhaid i'r CLG ddarparu o leiaf 20 i gwrdd â'u targedau)

• Y nifer o sesiynau sydd wedi eu darparu i ddatblygu ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc o werth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yr iaith Gymraeg (mae'n rhaid i'r CLG ddarparu o leiaf 10 i gwrdd â'u targedau)

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 (Ysgol Penweddig yn ystod Tymor yr Hydref 2020)
30 Tachwedd (blwyddyn 7) - 50 yn bresennol (dros 2 sesiwn)
1 Rhagfyr (blwyddyn 7) - 50 yn bresennol (dros 2 sesiwn)
7 Rhagfyr (blwyddyn 8) - 50 yn bresennol (dros 2 sesiwn)
10 Rhagfyr -(blwyddyn 8) - 75 yn bresennol (dros 3 sesiwn)

Data Siarter Iaith
Llwyn yr Eos – tuag at yr Efydd, Padarn Sant – Efydd, Comins Coch – Arian, Cei Newydd – Arian, Plascrug – Arian.
*(Cymraeg Campus)*

Efydd: Llanarth, Felinfach, Pontrhydfendigaid, Llangwyryfon, Cenarth, Bro Sion Cwilt, Ciliau Parc, Dihewyd, Y Dderi, Aberporth, Dyffryn Cledlyn, Craig yr Wylfa, Llanfarian, Penparc

Tuag at ar yr arian: Aberaeron, Talybont, Rhydypennau, Rhos Helyg, Myfenydd, Mynach, Llanfihangel y Creuddyn, Bro Teifi, Ysgol Gymraeg Aberystwyth, Henry Richard

Arian*:* Llanilar, Talgarreg, Syr John Rhys, Bro Pedr, Llanon, Llechryd, T Llew Jones

Ysgolion Gydol Oed - Ysgol Bro Teifi (CS a CA2: tuag at yr Arian, CA3 a CA4: Efydd)
Ysgol Henry Richard (CS a CA2: tuag at yr Arian, CA3 a CA4: Efydd)
Ysgol Bro Pedr ((CS a CA2: tuag at yr Arian, CA3 a CA4: Efydd)

Uwchradd: Penweddig – Efydd, Penglais, Aberaeron, Aberteifi – tuag at yr Efydd

**Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

- Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg Mewn Addysg (benodwyd i'w swydd ym mis Medi 2020) i arwain ar waith y Siarter Iaith (cynradd ac uwchradd) ac i gydweithio gydag amrywiaeth o ran-ddeiliaid gyda'r nod penodol o annog defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ymysg disgyblion Ceredigion.
- **YMGYRCH HYDER (**Medi 2022 ymlaen) - Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg i gydweithio gyda'n ysgolion uwchradd yn benodol, Ceredigion Actif, Y Gwasanaeth Ieuenctid, Cered, Theatr Felinfach, Gwasanaeth Athrawon Cefnogi'r Gymraeg (hyfforddiant gloywi, datblygu medrau llafar uchel a soffistigedig yn null School21, targedu disgyblion Blwyddyn 7,8 a 9 ayyb ayyb). Y nod yw cael siaradwyr hyderus sy'n fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol mewn gwahanol gyd-destunau (yn enwedig os ydynt o gartrefi di-Gymraeg ac yn ddisgyblion sydd wedi ennyn ymdeimlad o berthyn ac integreiddio i'w cymunedau. Defnyddio tystiolaeth ymchwil o brosiect hyder ardal Bangor a Mentrau Iaith Cymru i gynyddu defnydd y Gymraeg ymysg siaradwyr di-hyder e.e. defnyddio technegau seicoleg iaith i ddarganfod a goresgyn rhwystrau'r unigolyn a llunio cynllun hyder unigol a rhoi cymorth iddynt i weithredu'n gadarnhaol.
- Llunio holiadur fel gwaelodlin i'r uchod i'w gwblhau gan ddisgyblion ysgolion uwchradd y sir o ran hyder a chanfyddiad wrth ddefnyddio'r Gymraeg.
- Cydweithio o fis Medi 2022 ymlaen gydag Ysgol Henry Richard (yn benodol) gan ddefnyddio a rhannu tystiolaeth o brosiect ymchwil 'Astudiaeth o allfudo

DRAFT

a dyheadau pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg' i ddatblygu ymhellach ar agweddau cadarnhaol wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

- Llunio a dadansoddi holiadur y Gymraeg mewn addysg bob dwy flynedd er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth am anghenion ysgolion, tueddiadau ieithyddol, rhwystrau, manylion y siarter ayyb. Bydd yr holiadur yn cynnig targedau gweithredu ymarferol dros gyfnod.
- Sefydlu, o'r newydd, fforwm ar gyfer monitro gweithredu'r CySGA gyda sylw penodol i'r elfen o ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg.
- Cydweithio gyda darparwyr cyfrwng Cymraeg er mwyn ehangu darpariaeth lle gall disgyblion cael mynediad i weithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg e.e. Urdd Gobaith Cymru, CFFI, Theatr Felinfach (sydd wedi datblygu platfform digidol creadigol yn ystod cyfod COVID), Cered (hefyd wedi datblygu elfen ddigidol yn ystod COVID sef 'Cica Corona'), Mudiad Meithrin, Cwmni Theatr Arad Goch, Gwasanaeth Ieuenctid, Ceredigion Actif.
- Llunio 'Cynllun Chwaraeon' fydd yn weithredol o fis Medi 2021. Sefydlu fforwm i hyrwyddo'r Gymraeg ym maes Chwaraeon – i gynnwys cynrychiolaeth o wasanaethau hamdden Ceredigion, 1 Pennaeth Uwchradd, 2 Athro Chwaraeon Uwchradd, 2 o dîm datblygu'r Gymraeg, Cered, Urdd a chlybiau lleol. Nod y cynllun fydd magu hyder staff a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac i glywed y Gymraeg fel iaith fyw. Mae gan hyfforddwyr / athrawon chwaraeon rôl flaenllaw ym mywydau plant a phobl ifanc a gallent ennyn diddordeb a dylanwadu. Trwy gydweithio'n draws adrannol mae modd ymledu'r neges am bwysigrwydd y Gymraeg a chyfleoedd i'n disgyblion i'w defnyddio o fewn gwersi nofio, dosbarthiadau ffitrwydd, clybiau cymunedol ayyb. Byddwn yn creu Ap y Gymraeg ym myd chwaraeon fydd ar gael i'w lawrlwytho er budd hyfforddwyr, disgyblion a staff. Bydd yn hyrwyddo'r defnydd o dermau a geirfa chwaraeon Cymraeg/ dwyieithog bydd o fudd wrth hyfforddi. Bydd hefyd yn  cynorthwyo gyda'r geirfa allweddol ar gyfer disgyblion sy'n astudio TGAU/cymhwyster Addysg Gorfforol, yn cynnig templedi ar gyfer cyflwyno datganiadau i'r wasg yn Gymraeg, cymorth i gyhoeddi sylwebaeth/canlyniadau gemau ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg ayyb.
- O fewn 5 mlynedd, ein dymuniad yw gweld bod mwy o ddisgyblion yn astudio Addysg Gorfforol trwy gyfrwng y Gymraeg a bod holl staff. Gwasanaethau Hamdden y Sir â hyder i ddysgu/hyfforddi yn ddwyieithog.
- Parhau gyda chyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer arweinyddion y Siarter Iaith  i rannu syniadau, rhannu rhwystredigaethau ac arfer dda, i gydweithio ac i gynllunio ar y cyd ayyb (cyfarfod cyntaf 10fed o Ragfyr 2020).
- Darparu gweithgareddau ar gyfer diwrnodau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg megis Diwrnod Shwmae, Dydd Miwsig Cymru, Gŵyl Ddewi ayyb.
- Cardi-Iaith (@Cardiiaith): sefydlu tudalen 'Facebook' i rannu gwybodaeth, cyflwyno sgiliau iaith, patrymau iaith, ymglymiad a chefnogaeth i rieni, hyrwyddo cyfleoedd Cymraeg o fewn y sir o fewn addysg a rhannu gweithgareddau sefydliadau/mudiadau Cymraeg eraill.
- Prosiect Cerddoriaeth – Selar bach, gigs, hyrwyddo'r sîn roc Gymraeg drwy ledaenu gwybodaeth am a cherddoriaeth bandiau/artistiaid cyfoes, Jambori, a chynllun i gydweithio â Gwasanaeth Cerdd y Sir er sicrhau elfen gynyddol Gymreig yn y ddarpariaeth.

DRAFT

- Darparu hyfforddiant ar lein fydd yn hyrwyddo elfennau o’r Gymraeg yn ddigidol e.e. Podlediadau, darparu adnoddau ayyb.
- Cydweithio gyda phartneriaid y Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol i weld yr hyn sy’n bosibl o ran y defnydd o gemau cyfrifiadurol, dylanwadau a dylanwadwyr (‘influencers’) y cyfryngau cymdeithasol ayyb drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Law yn llaw gyda phartneriaid allweddol byddwn yn parhau i ddiwygio’n map darpariaeth yn flynyddol fel cofnod o’r hyn sydd ar gael i blant oed ysgol er mwyn iddynt ddefnyddio’u medrau Cymraeg yn gymunedol a chymdeithasol.

**Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Dros deng mlynedd y cynllun, drwy’r gweithgareddau uchod, law yn llaw gyda datblygiad Cwricwlwm i Gymru ac elfennau o’r pedwar diben (h.y. ***Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd****: yn gallu cyfathrebu’n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy’r Gymraeg a’r Saesneg yn ogystal â* ***Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd****: yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a’r byd yn awr ac yn y gorffennol)* rydym am weld hyder a balchder cynyddol ymysg disgyblion yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a’r Saesneg ac mewn amlieithrwydd cyffredinol. Bydd sicrhau bod y Gymraeg yn berthnasol, yn fywiog, cyfoes a chynhwysol yn egwyddorion holl bwysig i lwyddiant y gweithredoedd hyn dros gyfnod y CySGA.

Bydd holl ysgolion uwchradd Ceredigion wedi ymgysylltu’n llawn gyda nodau’r Siarter Iaith ac yn gynyddol ymateb i’r gofynion datblygol sydd yn yr amrywiol gamau.

Bydd arlwy o weithgareddau allgyrsiol cymdeithasol wedi ei lunio ar y cyd gyda’n rhan-ddeiliaid er mwyn datblygu ymhellach y cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion o bob oed i ddefnyddio’u Cymraeg.

DRAFT

## Deilliant 6

**Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)**

### Ble rydym ni nawr?

- Rydym yn gallu darparu'r rhan fwyaf o gefnogaeth ADY yn ddwyieithog. Yr unig fylchau, erbyn hyn, yw cefnogaeth ar gyfer dysgwyr gyda nam ar y clyw neu gydag amhariad aml-synhwyraidd. Mae'r awdurdod yn talu am wasanaeth athrawes arbenigol amhariad aml-synhwyraidd ar lefel ranbarthol ond does dim gwasanaeth ar gael trwy'r Gymraeg. Mae'r awdurdod yn cyflogi aelod staff sydd ag achrediad arbenigol nam ar y golwg sy'n gallu gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngheredigion.
- Dros y tair blynedd ddiwethaf, rydym wedi cynllunio i benodi a hyfforddi athrawes ymgynghorol i allu darparu cefnogaeth ar gyfer dysgwyr gyda nam ar y golwg trwy'r iaith Gymraeg.
- Mae pob aelod o'r tîm AAA canolog yn siarad Cymraeg oni bai am un athrawes ymgynghorol ar gyfer nam ar y clyw. Mae ein cydlynydd trawsnewid ADY wedi bod yn dysgu Cymraeg ers iddi gael ei phenodi.
- Mae cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal trwy'r iaith Gymraeg.
- Mae'r holl hyfforddiant wyneb yn wyneb rydym yn ei gynnig i staff ysgolion yn gallu cael ei gyflwyno trwy'r Gymraeg.
- Mae'r holl hyfforddiant digidol rydym wedi ei greu ar gyfer staff ysgolion ers y cyfnod clo ar gael yn ddwyieithog.
- Mae pob ymyrraeth rydym yn ei gefnogi o fewn ein hysgolion yn gallu cael ei ddarparu yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Iaith y dosbarth sydd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer rhaglenni ymyrraeth llythrennedd, rhifedd, sgiliau cyd-lynedd corfforol a chymdeithasol. Yr unig eithriad yw rhaglenni iaith a lleferydd sydd yn blaenoriaethu iaith y cartref gan mai polisi'r gwasanaeth iechyd yw targedu hyn fel datblygu sgil bywyd yn hytrach na sgil addysg.
- Mae pob cydlynydd AAA yn gallu siarad Cymraeg heblaw am ddwy. Mae hyn yn golygu bod rhwydweithiau CAAA yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog.
- Prif iaith gweithredu ein canolfannau arbenigol (SRC) yw Saesneg ond maent i gyd yn addysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Pan fo disgybl sydd angen y ddarpariaeth arbenigol trwy'r Gymraeg yn cael ei leoli yn un o'r SRC, rydym yn darparu hyn trwy sicrhau cefnogaeth agos cymhorthydd dysgu (CD) sydd yn siarad Cymraeg.
- Mae nifer o'n gwarchodwyr plant yn cynnig darpariaeth trwy'r Saesneg. Gall hyn fod yn anhawster wrth i blant drosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei gofnodi fel sgil hanfodol yn y broses recriwtio ar gyfer pob swydd newydd o fewn y tîm AAA/ADY. Pan fo' lefel yr arbenigedd yn golygu nad oes ymgeiswyr yn meddu ar y sgiliau iaith (Cymraeg) angenrheidiol, mae cynnig y swydd yn ddibynnol ar gytundeb i ddatblygu'r rhain o fewn dwy flynedd.

DRAFT

- Mae pob ysgol yn sicrhau bod rhieni'n deall bod unrhyw ddarpariaeth ac ymyrraeth ar gael yn y Gymraeg a bod datblygu iaith y dosbarth yn flaenoriaeth dros ddatblygu iaith y cartref gyda'r ymyraethau ieithyddol (heblaw am raglenni iaith a lleferydd).
- Mae rhieni'n derbyn y wybodaeth o ran opsiynau darpariaeth ieithyddol wrth ddewis ysgol a lleoliad arbenigol.
- Mae'r holl adnoddau rydym yn eu creu er mwyn cefnogi ysgolion ar gael yn ddwyieithog. Mae'r rhain yn cael eu rhannu ar 'Teams'. Pan mae'r adnoddau'n cyd-fynd gydag ymyrraeth sydd yn hybu datblygiad sgiliau iaith penodol, sicrheir cydraddoldeb ieithyddol o ran nifer ac ansawdd yr adnoddau.
- Nid oes digon o asesiadau safonol ar gael trwy'r Gymraeg ond mae'r tîm seicolegwyr addysg yn gallu cyflwyno asesiadau safonol Saesneg trwy'r Gymraeg ar lafar. Y gwendid gyda hyn yw nad yw'r canlyniadau'n gallu cael eu cofnodi fel rhai safonol wedyn. Mae unrhyw ddatblygiad yn y maes yma yn fater cenedlaethol.
- Rydym wedi cynnal awdit o'r adnoddau a'r asesiadau sydd ar gael yn Gymraeg ac wedi cyfieithu rhai Saesneg ble roedd yna fwlch. Mae bwlch mawr yn parhau o ran asesiadau seicometrig, ond mae defnyddio'r iaith Gymraeg wrth eu gweinyddu yn ddigon ymarferol – ond nid yw'n ddigonol. Mater cenedlaethol yw datblygu'r maes yma.
- Gan mai dim ond un asesiad sillafu Cymraeg safonol sydd ar gael, a dydy hwnnw ddim yn ddigon addas ar gyfer cael ei ddefnyddio ar draws y cyfnodau allweddol, rydym wedi cydweithio er mwyn datblygu asesiad sillafu o fewn Ceredigion. Er nad yw'n asesiad safonol, mae'n cael ei ddefnyddio fel rhan o gynllun er mwyn adnabod a chryfhau gwendidau sillafu penodol. Mae unrhyw ddatblygiad yn y maes yma yn fater cenedlaethol.
- Rydym yn edrych ar ail ysgrifennu 'Strategaeth a Pholisi AAA Ceredigion' i gyd-fynd gyda'r Ddeddf a'r Cod ADY newydd. Bydd y gwaith yma'n cael ei orffen pan fydd y Cod ADY yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2021. Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddogfennaeth, gan gynnwys y meini prawf, yn ddwyieithog.
- Rydym wedi rhannu adnoddau hyfforddiant ADY dwyieithog o ansawdd uchel gydag ALI o fewn y rhanbarth.
- Rydym hefyd wedi cydweithio gyda'r rhanbarth wrth ddatblygu adnoddau hyfforddiant ADY dwyieithog o ansawdd uchel.
- Rydym wedi cyfieithu rhaglen asesu sgiliau iaith a lleferydd (Wellcomm) er mwyn iddo fod yn addas ar gyfer ei ddefnyddio o fewn Ceredigion.
- Rydym wedi addasu a chyfieithu rhestrau chwarae hyfforddiant a oedd wedi cael eu rhannu gan Sir Abertawe.
- Mae'r cyfarfodydd 'Cynllun Cyfeirio' aml-asiantaethol yn cael eu cynnal trwy'r Gymraeg.
- Pan rydym yn trefnu cynhadledd aml-asiantaethol, rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

**Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol o ran sicrhau darpariaeth Cymraeg o fewn ein hysgolion ac adnoddau priodol i gefnogi hyn.
- Datblygu'r sefyllfa o ran hyfforddiant gan greu cyflwyniadau digidol/rhithwir mwy arbenigol yn y ddwy iaith fel bod staff ysgolion yn gallu dewis yr iaith maent am ei defnyddio ar sail unigol.
- Rhoi darpariaeth trwy'r Gymraeg yn ei le ym mhob achos gan gynnwys mewnbwn gan yr athrawes ymgynghorol ar gyfer amhariad clyw trwy wneud addasiadau rhesymol e.e. sicrhau partneriaeth gyda Chymhorthydd Dysgu Cymraeg fel cyfieithydd a defnyddio therapydd iaith a lleferydd ble fo angen arwyddo.
- Datblygu'r ddarpariaeth Cymraeg ar gyfer anghenion synhwyraidd trwy gynllunio i hyfforddi athrawes ymgynghorol fel athrawes arbenigol ar gyfer nam clyw. Mae'r ddarpariaeth arbenigol ar gyfer amhariad aml-synhwyraidd yn gyfrifoldeb rhanbarthol gan fod ALl y rhanbarth yn rhannu'r arbenigedd yma.
- Sicrhau fod unrhyw staff newydd sydd yn cael eu penodi yn gallu siarad Cymraeg a darparu mewnbwn trwy'r iaith Gymraeg. Ble nad yw hyn yn bosibl oherwydd arbenigedd y sgiliau proffesiynol, bod y staff yn ymrwymo i ddysgu Cymraeg o fewn dwy flynedd o gael eu hapwyntio.
- Codi ymwybyddiaeth a disgwyliadau'r gweithlu blynyddoedd cynnar o ran datblygu sgiliau iaith Cymraeg a chyfeirio nhw at ddatblygiad proffesiynol sydd ar gael am ddim. Cynnwys y wybodaeth yma yn y gynhadledd flynyddol.
- Datblygu ein systemau er mwyn gweithredu ar ofynion a goblygiadau'r Ddeddf a'r Cod ADY o fewn ein hysgolion yn ogystal â'n darpariaeth canolog.
- Parhau i gydweithio a rhannu arfer dda gydag ALl eraill yn y rhanbarth er na fyddwn, fel sir, yn parhau i fod yn aelod o ERW.
- Cydweithio gyda'r DECLO ac asiantaethau eraill o ran pwysigrwydd sgiliau iaith Cymraeg y gweithlu a'r ddarpariaeth.
- Cydweithio ar draws rhanbarth Hywel Dda ar effaith gadarnhaol y strategaeth blynyddoedd cynnar a'r system integreiddio ar ddatblygiad sgiliau'r Gymraeg.

**Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

- Cynllunio er mwyn sicrhau bod y tîm ADY canolog yn parhau i gynnwys ystod eang o sgiliau arbenigol yn ogystal â'r gallu i weithio a darparu gwasanaeth trwy'r Gymraeg wrth i nifer o aelodau'r tîm presennol gyrraedd oed ymddeol.
- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol o ran sicrhau darpariaeth Cymraeg o fewn ein hysgolion ac adnoddau a hyfforddiant priodol i gefnogi hyn.
- Cynnal awdit o anghenion dysgwyr yng Ngheredigion yn ogystal ag awdit o'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau ein bod yn cynllunio ymlaen yn effeithiol.
- Cydweithio yn amlasiantaethol yn y Gymraeg ble fo'n bosib ac yn briodol.
- Sicrhau bod LIC yn arwain ar ddatblygu mwy o adnoddau arbenigol, gan gynnwys cynllun sillafu Cymraeg strwythuredig ac asesiadau safonol, gan gynnwys prawf/profion sillafu Cymraeg safonol er mwyn cefnogi ALl ac ysgolion.

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

# Deilliant 7

## Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?


**Data diweddaraf am y gweithlu addysg yng Ngheredigion (Ionawr 2021)**

**Grwpiau Oedran (11/01/2021)**

| Cyfrif y Grŵp Oedran | Labeli'r Colofn | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Labeli'r Rhes** | **16-25** | **26-35** | **36-45** | **46-55** | **56-65** | **65+** | **N/A** | **Cyfanswm** |
| Pennaeth Cynorthwyol | | 3 | 13 | 13 | | | 6 | 35 |
| Athro Dosbarth Prif Raddfa Cyflog | 41 | 126 | 36 | 24 | 10 | 3 | 118 | 358 |
| Athro Dosbarth Uwch Raddfa Cyflog | | 86 | 176 | 138 | 48 | 18 | 5 | 471 |
| Dirprwy Bennaeth | | 3 | 12 | 5 | 1 | | 3 | 24 |
| Pennaeth | | 3 | 10 | 22 | 2 | | 5 | 42 |
| Staff Cynorthwyol | 115 | 187 | 228 | 358 | 281 | 58 | 273 | 1500 |
| Pennaeth nad adnabyddir | | 1 | 2 | 2 | | | 1 | 6 |
| Athro heb gymhwyso | 3 | 4 | 4 | 2 | 3 | 1 | 1 | 18 |

**Athrawon: Grwpiau Oedran fesul Sector (11/01/2021)**

| Grŵp Oedran | Labeli'r Golofn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Labeli'r Rh | Ysgol Gydol Oed | Ysgol Gynradd | Ysgol Uwchradd | Athrawon Llanw | Cyfanswm |
| 16-25 | 26 | 89 | 56 | 9 | 180 |
| 26-35 | 88 | 208 | 107 | 38 | 441 |
| 36-45 | 128 | 264 | 115 | 54 | 561 |
| 46-55 | 151 | 294 | 168 | 43 | 656 |
| 56-65 | 68 | 178 | 111 | 32 | 389 |
| 65+ | 12 | 93 | 35 | 18 | 158 |
| N/A | 88 | 278 | 124 | 2 | 492 |
| **Cyfanswm** | **561** | **1404** | **716** | **196** | **2877** |




**Staff Cynorthwyol fesul Sector (11/01/2021)**

| Grŵp Oedran | Labeli'r Golo | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Labeli'r Rhes** | **16-25** | **26-35** | **36-45** | **46-55** | **56-65** | **65+** | **N/A** | **Cyfanswm** |
| **⊟ Staff Cymorthwyol** | **115** | **187** | **228** | **358** | **281** | **58** | **273** | **1500** |
| **⊞ Ysgol Gydol Oed** | **15** | **49** | **65** | **99** | **56** | **8** | **54** | **346** |
| **⊞ Ysgol Gynradd** | **56** | **96** | **106** | **165** | **134** | **23** | **153** | **733** |
| **⊞ Ysgol Uwchradd** | **44** | **42** | **57** | **94** | **91** | **27** | **66** | **421** |
| **Cyfanswm** | **115** | **187** | **228** | **358** | **281** | **58** | **273** | **1500** |

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

**Gweithlu addysg Ysgolion Uwchradd Ceredigion**

Nifer o athrawon yn ôl eu gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

| Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Gydol Oed (o ddechrau CA3 ymlaen) | Addysgu/Gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | Yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud | Ddim yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | Yn addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn unig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | 229 | 31 | 90 | 4 | 354 |

**Nifer yr athrawon yn ôl eu gallu yn y Gymraeg**

| Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Gydol Oed (o ddechrau CA3 ymlaen) | Dim sgiliau | Lefel Mynediad | Lefel Sylfaen | Lefel Ganolradd | Lefel Uwch | Lefel Hyfedr | Ni chafwyd gwybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 21 | 31 | 22 | 21 | 46 | 198 | 15 | 354 |

**Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

- Sicrhau llwybr gyrfa a chefnogaeth i'r athrawon/dirprwy brifathrawon/uwch athrawon hynny sy'n dymuno datblygu'n benaethiaid o fewn yr awdurdod ac sy'n arweinwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg drwy e.e. gymhwyster CPCP.
- Bydd adran Adnoddau Dynol yr awdurdod yn diwygio'i threfniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu addysg dros y cyfnod nesaf er mwyn sicrhau gweithlu digonol i ddiwallu'r galw yn y sector Gymraeg/dwyieithog.
- Cydweithio gydag Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol Cymru er mwyn denu penaethiaid posibl i Geredigion pan bydd rhai o'r rhai presennol yn ymddeol.
- Adnabod a sicrhau cefnogaeth lawn i'r gweithlu perthnasol fydd angen eu uwch-sgilio drwy'r Cynllun Sabothol (yn enwedig yn ysgolion cylch Aberystwyth) dros gyfnod y cynllun.
- Llunio rhaglen dreigl er mwyn cefnogi staff addysgu a chynorthwyol y sector uwchradd i ddysgu'r Gymraeg neu i ennyn hyder pellach ynddi (drwy'r Cynllun Sabothol). Adnabod o leiaf 3 – 4 o ymarferwyr yn flynyddol ar gyfer hyn.
- Llunio 'Polisi Iaith' enghreifftiol at ddefnydd pob ysgol yn fewnol gan gynnwys e.e. y disgwyliad pan yn recriwtio o safbwynt y Gymraeg, disgwyliad o ran defnydd o'r Gymraeg, ymddygiad proffesiynol a'r Gymraeg ayyb.



DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

- Cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn hyrwyddo manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc ac ennill cymhwyster ar bob lefel ynddi e.e. defnyddio deunyddiau hyrwyddo yn nosweithiau agored a nosweithiau opsiynau'r ysgolion uwchradd, hyfforddi arweinwyr ysgol ar bob lefel am yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc.
- Cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Sefydliadau Hyfforddi Athrawon er mwyn annog disgyblion i ystyried a dilyn gyrfa yn y byd addysg (er mwyn addysgu yn y sector dwyieithog ac i addysgu'r Gymraeg fel pwnc).
- Targedu, cysgodi a mentora disgyblion blwyddyn 10-13 er mwyn eu denu i weld addysgu yn y sector dwyieithog fel gyrfa ddeniadol.
- Mynychu ffeiriau addysg sefydliadau hyfforddi athrawon er mwyn ceisio denu unigolion i addysgu yn Ngheredigion (Bangor, Aberystwyth a Caerfyrddin yn bennaf).
- Cydweithio gyda cholegau addysg bellach er mwyn annog myfyrwyr yno i fanteisio a gwella'u sgiliau iaith er mwyn ennill cyflogaeth yn ysgolion Ceredigion fel cymorthyddion dysgu.
- Sicrhau hyfforddiant lefel uchel i athrawon ar 'Maes Dysgu a Phrofiad - Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' yn ogystal â'r Gymraeg ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad eraill.
- Llunio cynllun o hyfforddiant blynyddol ar fethodoleg dysgu dwyieithog llwyddiannus.

**Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

- Bod gweithlu addysg ALI Ceredigion yn gynyddol ei allu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i addysgu'r Gymraeg fel pwnc.
- Bod cyflenwad o athrawon i allu addysgu'r pynciau presennol sy'n anodd i recriwtio ar eu cyfer e.e. Cymraeg, Gwyddoniaeth(-au), Mathemateg, Ieithoedd Modern, Dylunio a Thechnoleg.
- Bod y gweithlu hwnnw yn ymwybodol o'i rôl wrth gynnig hyder i ddisgyblion i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn academaidd (llafar, darllen ac ysgrifennu) ond hefyd yn gymdeithasol (yn siaradwyr hyderus sy'n teimlo'n rhan/wedi eu hintegreiddio i'w bröydd).
- Bod y gweithlu cyfan yn ysgolion Ceredigion yn gweld y rôl bwysig sydd ganddynt wrth greu disgyblion sy'n siaradwyr hyderus ac sy'n gweld y Gymraeg fel iaith gynhwysol a pherthnasol mewn byd o ieithoedd pwysig eraill.

DRAFT

Cofiwch ddileu y ***testun glas***
cyn cyflwyno eich Cynllun

## Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

Bydd y Fforwm yn cyfarfod i gynnig eu barn wrth gynllunio cychwynnol y ddogfen a hynny'n gyntaf ym mis Mai 2021. Unwaith y bydd y ddogfen yn cael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru bydd y fforwm yn cyfarfod unwaith bob tymor (ysgol) er mwyn goruchwylio ei gweithredu a'i gwerthuso.

Bydd oddeutu 10 aelod i'r fforwm gan gynnwys rhan-ddeiliaid y sectorau addysg perthnasol – un pennaeth cynradd ac uwchradd, aelodau o'r tîm addysg sirol, Swyddog Polisi'r Gymraeg a Chydraddoldeb, Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg a chynrychiolwyr o fudiad Rhieni dros Addysg Gymraeg, y Mudiad Meithrin, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Hyfforddiant Ceredigion, Coleg Ceredigion ac Adran Addysg Prifysgol Aberystwyth.

DRAFFT

Mae'r **Asesiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

**1. MANYLION Y CYNNIG:** (Polisi / Newid amcan / Arbed arian)

| | |
|---|---|
| Teitl y cynnig | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Ceredigion 2022-2032 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Maes gwasanaeth | Ysgolion a Diwylliant | Pennaeth y Gwasanaeth | Meinir Ebbsworth | Cyfarwyddwr Strategol | Barry Rees |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI | Silyn Roberts | E-bost | silyn.roberts@ceredigion.gov.uk | Ffôn | 07890540487 |

Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Ceir hefyd sail statudol i'r system ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Cyhoeddwyd Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 ym mis Medi 2016, a'i nod yw llywio gwelliannau i economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru er mwyn creu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sydd wedi'i huno a'i chysylltu. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu blaenoriaethu'r Llywodraeth ar gyfer cyflawni'r gwelliannau hyn. Maent yn fesurau uchelgeisiol a fydd yn cael effaith ar bawb ar bob cam o'u bywyd.

Mae hefyd yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y bobl sy'n ei siarad, yn ogystal â'i hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i barhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Cyhoeddwyd strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2017. Am y tro cyntaf, gosodwyd gweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae ei hiaith yn ffynnu. Un o nodau allweddol y strategaeth yw creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr hyderus. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rhaid i ni gynyddu nifer y disgyblion ysgol sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, a hynny'n sylweddol. Dyma'r sbardun ar gyfer dymuniad Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r ffordd y caiff y Gymraeg a darpariaeth Cymraeg eu cynllunio yn ein system addysg statudol yng Nghymru.

Cymraeg 2050 yw'r prif bolisi sy'n llywio'r newidiadau i'r broses statudol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl strategaeth Cymraeg 2050, addysg ymdrochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae data ysgolion yn dweud wrthym faint o blant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, Maent yn ddangosydd allweddol o ran y twf sy'n ofynnol ac yn dangos pwysigrwydd sicrhau ymrwymiad y system addysg i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Maent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg ymdrochi, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd angen cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n dysgu Cymraeg yn llwyddiannus drwy ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod statudol hyd 7 oed. Bydd y Gymraeg hefyd yn rhan annatod o'r cwricwlwm newydd a fydd yn cynnwys un continwwm ar gyfer ei dysgu. Drwy gyflwyno'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022 ymlaen, y nod yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o'r system addysg statudol a sicrhau bod pob dysgwr, yn y dyfodol, yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl iddo adael yr ysgol.

Bydd y cynnig yn sicrhau bod Sir Ceredigion yn gallu cyflawni ei dyletswyddau statudol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg drwy ei Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Y cynllun hwn yw'r adnodd cynllunio iaith hirdymor ar gyfer awdurdodau lleol ac mae'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn galluogi awdurdod lleol Ceredigion i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn ei hardaloedd mewn ffordd sy'n cyflawni nodau Cymraeg 2050.

Bydd targedau lleol mewn Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn seiliedig ar y targed hirdymor cyffredinol i sicrhau miliwn o siaradwyr. Mae Cymraeg 2050 yn amlinellu'r ymrwymiad i gynyddu cyfran y disgyblion ym mhob blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22% i 30% erbyn 2032, a bydd y cynnydd cenedlaethol hwn o 8% yn sail i dargedau pob awdurdod lleol yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Bydd y cynnig hefyd yn cyfrannu at wireddu tri nod strategol 'Strategaeth Iaith Ceredigion' sef:

- Cynyddu sgiliau iaith trigolion Ceredigion
- Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion
- Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu bydd hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn tuag at nodau llesiant

| Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuenctid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw). |
|---|
| Bydd y cynnig yn cael effaith ar ddisgyblion o fewn oedran statudol addysg yn ysgolion Ceredigion.<br><br>Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yng Ngheredigion drwy gynnig dewisiadau ychwanegol o ran addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a mwy o gyfleoedd a chymorth i bawb fanteisio arni. Yn ei dro, bydd hyn yn cynnig sgiliau Cymraeg i blant a phobl ifanc y gallant eu defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd ac, yn enwedig, pan fyddant yn gadael yr ysgol ac yn dechrau gweithio. Bydd hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wella eu sgiliau Cymraeg.<br><br>Bydd y cynnig hwn hefyd yn galluogi awdurdod lleol Ceredigion i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir, a'i gwella, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ledled y sir, heb ystyried y gymdeithas y maent yn byw, eu cefndir nac iaith y teulu, gan sicrhau bod mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn meithrin sgiliau Cymraeg y gallant eu defnyddio mewn bywyd bob dydd.<br><br>Disgwyliwn i unrhyw effeithiau fod yn rhai cadarnhaol, a hynny oherwydd y canlynol:<br><br>Bydd plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ni waeth ym mha gymuned y maent yn byw.<br><br>Bydd nodau'r cynnig hwn yn cefnogi Cyngor Sir Ceredigion i gyflawni ei ymrwymiadau o ran y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau sy'n siarad Cymraeg.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o athrawon a chymorthyddion ysgolion cynradd Ceredigion yn gallu siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg. Bydd cefnogaeth lawn yn cael ei gynnig i aelodau staff ysgolion wrth weld y cynnydd yn y ddarpariaeth o safbwynt y Gymraeg. |

| **RHEOLI'R DDOGFEN:** Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb, lle bynnag y bo modd. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Awdur | Cam yn y broses benderfynu | Rhif y fersiwn | Dyddiad trafod | Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod |
| *Bydd hyn yn dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy ym mhob cam o'r broses o ddatblygu'r cynnig. Ydych chi wedi ystyried yr egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r nodau llesiant, a'u rhoi ar waith?* | | | | |
| Silyn Roberts | Gweithdy Rhanddeiliaid Allweddol | 1 | 27.02.2020 | |
| Silyn Roberts | Cyfarfod:<br>Grŵp Gorchwyl a Gorffen i drafod drafft cyntaf CySGA 2022 - 2032 | 2 | 08.02.2021 | |
| Silyn Roberts | Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Iaith: i dderbyn sylwadau | 3 | 17.05.2021 | |
| Silyn Roberts | Pwyllgor Craffu: er cymeradwyo'r drafft terfynol o'r ddogfen | 4 | 27.05.2021 | |
| Silyn Roberts | Cabinet: er trafod a chymeradwyo'r ddogfen a chaniatâd i ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol/statudol | 5 | 15.06.2021 | |
| Silyn Roberts | Cyfnod Ymgynghori Statudol yn dechrau | 5 | Medi 2021 (8 wythnos) | |
| Silyn Roberts | Pwyllgor Iaith: i dderbyn sylwadau am unrhyw newidiadau i gynnwys y ddogfen yn sgil yr ymgynghoriad | 6 | Rhagfyr 2021 | |
| Silyn Roberts | Cyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru | 7 | 31.01.2022 | |
| Silyn Roberts | Cyflwyno ffurf derfynol y CySGA i'r Pwyllgor Craffu/Cabinet/Cyngor cyn ei gyhoeddi yn swyddogol ym mis Medi 2022 | 8 | Gwanwyn a Haf 2022 | |

| **AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR**: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut? | |
|---|---|
| Hybu'r Economi | **Bydd Ceredigion yn awdurdod lleol bywiog gyda gweithlu hyblyg ac aml-fedrus**. *Bydd y cynnig yn cyfrannu at aml-fedrusrwydd drwy sicrhau medrau iaith ac amlieithrwydd ymysg disgyblion a gweithlu'r dyfodol. Bydd y cynnig hefyd yn cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth ehangach i nifer gynyddol o drigolion Ceredigion yn y dyfodol.* |
| Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl | **Bydd Ceredigion yn parhau i fod yn gartref bywiog ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.** *Bydd dysgwyr y Gymraeg yn y pendraw yn ennill y setiau sgiliau y mae eu hangen arnynt er mwyn bod yn weithwyr hyblyg, dwyieithog a gallu addasu i ofynion unrhyw ddarpar gyflogwr.* |
| Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd | **Bydd gan ddinasyddion o bob oed well ansawdd bywyd.** *Bydd y cynnig yn cyfrannu at well ansawdd bywyd drwy ehangu ar gyfleoedd a chynyddu'r gallu i gyfrannu at gymuned a chymdeithas ddwyieithog.* |
| Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol. | **Bydd cymunedau Ceredigion yn dangos gwell cydnerthedd wrth ddelio â heriau amgylcheddol a chymdeithasol.** *Bydd y cynnig yn cyfrannu tuag at feithrin ymdeimlad cynyddol o falchder yn ein cymunedau lle mae rhwydweithiau yn cydweithio i gefnogi ei gilydd a lle mae gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg a'r amgylchedd naturiol yn cael eu gwneud law yn llaw â'i gilydd a gyda'r un arddeliad.* |



**SYLWCH:** Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol – data sy'n darparu tystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e dadansoddiad o gŵynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (megis Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*
- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, dogfen 'A yw Cymru'n Decach'*
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

| **2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY:** Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig? | | | |
|---|---|---|---|
| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
| **Hirdymor**<br>Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol | Bydd CySGA 2022-32 Sir Ceredigion yn ddogfen fydd yn nodi'r camau i gyflawni'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2031 o fewn y sir. Bydd targedau byr a hir dymor a chamau gweithredu pendant yn y byr a'r hir dymor wedi eu nodi dros y cyfnod o 10 mlynedd. | Drwy adeiladu ar CySGA 2014-17 a CySGA 2017-20 bydd y CySGA 10 mlynedd hwn yn gosod amserlen bendant fydd yn gweithredol, ymarferol a chynaliadwy i gyflawni'r nod. | Ni ragwelwn y bydd effeithiau negyddol i'r camau y byddwn yn eu cymryd. Bydd ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'n holl bartneriaid a rhanddeiliaid, ar hyd y cyfnod, yn hynod bwysig wrth i ni weld y datblygiadau yn cael eu gweithredu. |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau | Bydd cydweithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid yn greiddiol i'r cynllun. Y cydweithio pennaf fydd rhwng swyddogion yr awdurdod a'r ysgolion a'u cyrff llywodraethol yn ogystal â rhieni. | Dyma hanfod y cynllun - bydd yr enghreifftiau o gydweithio wedi eu nodi drwyddo. | I sicrhau cydweithio cadarnhaol, cyson a pharhaus drwy'r gweithredoedd fydd wedi eu nodi yn y cynllun. |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn | Bydd rhanddeiliaid a phartneriaid yn cael eu cynnwys ar hyd y cyfnod cynllunio ac ymgynghori. Cynhelir gweithdy i'r rheiny sydd â diddordeb yn gynnar yn y broses (26 Chwefror 2020)er mwyn casglu barnau ac unrhyw faterion perthnasol. Bydd y wybodaeth a gesglir bryd hynny yn cael ei ddosbarthu i'r mynychwyr yn y pendraw, er sylwadau pellach. Bydd y broses ymgynghori (Hydref 2021) ei hun yn ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy'r ymgynghoriad chyhoeddus statudol. Bydd cyfle i unrhyw aelod o'r cyhoedd i fynegi barn am y cynnig bryd hynny. Bydd prif randdeiliaid yn derbyn | Bydd amserlen y cynnig a'r angen i ymateb i'r broses ddemocrataidd ar ei hyd yn sicrhau cynnwys barn partneriaid a rhanddeiliaid. | Sicrhau bod y broses gynllunio ac ymateb yn dilyn 'Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu gyda'r Cyhoedd yng Nghymru'. |

Tudalen 46

| | | | |
|---|---|---|---|
| | adroddiadau parhaus ar y cynllun ar hyd y cyfnod cynllunio (gweler yr amserlen), a hynny hefyd yn sgil unrhyw newidiadau posibl. Bydd y cynnig terfynol, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 31 Ionawr 2022 wedi cynnwys barnau a syniadau rhanddeiliaid yn sgil cyflwyno copïau drafft o'r cynnig ac yn sgil yr yngynghoriad cyhoeddus. | | |
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu | Bydd y dulliau gweithredu fydd yn atal unrhyw broblemau allai godi neu waethygu drwy gyfnod y cynllun, wedi eu nodi ynddo. | Nodir yr adnoddau fydd eu hangen i atal problemau rhag codi yn glir yn y gweithredoedd drwy'r cynllun. | Ymateb i unrhyw bryderon a ddaw drwy ymgysylltu'n barhaus ac yn eglur gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar hyd y cyfnod cynllunio ac ymgynghori. |
| **Integreiddio**<br>Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill | Yn ei hanfod mae'r cynnig am gefnogi dyhead Cyngor Sir Ceredgion i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg drwy ei Strategaeth Iaith. Mae'r cynnig hefyd yn cefnogi Amcanion Strategol y Cyngor a Strategaeth Miliwn Siaradwyr 2050 Llywodraeth Cymru. | Mae'r Gymraeg yn greiddiol i weithrediad Cyngor Sir Ceredigion ac yn ei amcanion strategol. | Ni ragwelir y bydd yna effeithiau negyddol i'r cynnig. |



| **3. NODAU LLESIANT:** Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall. | | | |
|---|---|---|---|
| Nod llesiant | Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
| **3.1. Cymru lewyrchus**<br>Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi | Nod hir dymor y cynnig yw cyfrannu at yr egwyddor o ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar | Mae digon o dystiolaeth i ddangos manteision economaidd y Gymraeg, boed hynny ar lefel bersonol neu ar lefel fusnes a hyrwyddo. | Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda'r cynnig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | waith addas. Mae’r Gymraeg yn hanfodol i’r egwyddor yma. | | |
| **3.2. Cymru gydnerth** Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy’n ategu cydnerthedd ac sy’n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd) | Ni fydd y cynnig hwn yn integreiddio bioamrywiaeth yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mewn ffordd anuniongyrchol, bydd yn gwella'r modd y mae Cyngor Sir Ceredigion, drwy'r system addysg statudol, yn adlewyrchu ein cymunedau ac yn sicrhau bod y system yn cynrychioli blaenoriaethau a phrofiadau amrywiol pob cymuned. Gall y cynnig hwn helpu i ymdrin ag addysg mewn modd sy’n seiliedig ar leoedd. Darpariaeth gymunedol yw rhywfaint o'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y cyfeirir ati yn y cynnig hwn, er enghraifft canolfannau trochi Cymraeg. Defnyddir dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd fel bod y plant sy'n mynychu'r ganolfan yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg er mwyn iddynt allu integreiddio i mewn i system addysg yr awdurdod lleol yn ogystal ag i mewn i'r cymunedau sy'n siarad Cymraeg y maent yn rhan ohonynt. | Bydd gweithredoedd y CySGA yn nodi hyn. | Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda’r cynnig. |
| **3.3. Cymru iachach** Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy’n effeithio ar iechyd | Nid oes effeithiau uniongyrchol a fydd yn effeithio ar iechyd yn y cynnig. Fodd bynnag, y mae’r gallu i fod yn rhan o gymuned, o ymdeimlad o berthyn a theimlo’r gallu i gyfrannu i’r gymuned honno yn bwysig o ran iechyd meddwl yr unigolyn. Mae’r cynnig yn nodi pwysigrwydd y Gymraeg yn hyn o beth. Mae cryn dystiolaeth bod amlieithrwydd yn ymestyn ar alluoedd ymenyddol yr unigolyn. | Ymchwil rhyngwladol o’r hyn sy’n sicrhau llesiant meddyliol yr unigolyn. | Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda’r cynnig. |
| **3.4. Cymru o gymunedau cydlynus** | Bydd y cynnig yn galluogi plant i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau. Bydd y cynnig yn | Bydd ehangu darpariaeth y Gymraeg yn sicrhau y bydd mwy o blant yn caffael ar | Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda’r cynnig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da | sicrhau bod bob plentyn yn cael mynediad llawn i ddysgu'r Gymraeg gan ehangu felly ar ei ddewis ac i'w rymuso ar lefel bersonol ac ar lefel economaidd yn y dyfodol. Bydd y cynnig yn sicrhau cydlynedd cymunedol drwy ehangu'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau ymglymiad cymuned ehangach iddi fel iaith leiafrifol. | fedrau fydd yn eu galluogi, yn y dyfodol i fod yn aelodau llawn o'r gymuned maent yn byw ac yn gweithio ynddi. Bydd rhoi'r cynnig hwn ar waith yn galluogi Cyngor Sir Ceredigion i newid y ffordd y caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg ei chynllunio a'i chyflwyno, a fydd yn cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n meithrin sgiliau Cymraeg ac yn rhoi'r dewis iddynt fanteisio ar gyfleoedd diwylliannol cyfrwng Cymraeg. | |
| **3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol | Drwy gryfhau sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion a Chymru mi fydd yna gyfraniad cadarnhaol at fywyd diwylliannol a ieithyddol fyd-eang/rhyngwladol. Mae hyrwyddo defnydd o iaith leiafrifol fel y Gymraeg yn cael ei weld gan y Cenhedloedd Unedig fel nod holl bwysig. Mae amddiffyn iaith leiafrifol yn ddyletswydd o dan hawliau dynol ac yn ran greiddiol o lywodraethiant da. Mae'n fodd o greu cymdeithas sy'n gymdeithasol ac yn wleidyddol fwy cyfartal. | Mae ieithoedd lleiafrifol, gan gynnwys y Gymraeg wedi eu gwarchod dan ddeddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol e.e. y CU a'r Undeb Ewropeaidd. | Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda'r cynnig. |



| **3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|

| Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.<br>*Ydych chi wedi ystyried sut allai’r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y’u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae’r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.*<br><br>***Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd:***<br>Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb | *Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o’r grwpiau gwarchodedig. Bydd angen i chi ystyried a yw’r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchodedig? Nid yw’n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i’r amlwg.* | *Mae’n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy’n defnyddio’r gwasanaeth neu bwy sy’n debygol o’i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio data nac yn ymgysylltu os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â’r blwch **cynnwys** yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.* | *Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i’r sefydliad drin unigolion yn unol â’u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny’n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â’r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae’n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu’r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.* |
|---|---|---|---|
| **Oedran**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓) | Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.<br><br>Nododd Comisiynydd Plant Cymru fod y Gymraeg a darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn fater o hawliau, ac yn berthnasol i nifer o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Hefyd, nododd y Comisiynydd fod cyswllt clir rhwng iaith a hunaniaeth, ac nad yw'n bosibl gwahanu unrhyw un o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn oddi wrth ystyriaethau ieithyddol. | Ymgynhorir gyda chynghorau ysgol (cynradd ac uwchradd) yn ystod datblygiad y cynnig. Bydd y cyhoedd yn gyffredinol yn cael eu gwahodd i fynegi barn yn ystod y cyfnod ymgynghori yn yr Hydref 2021.<br>Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol ar hawliau plant na'u gallu i gymryd rhan ac arfer eu hawliau. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn agored i bawb, ac mae dyletswydd ar awdurdodau lleo, fel un Ceredigion, i hyrwyddo mynediad i bawb, yn ogystal â chynnig cymorth a chyfleoedd anffurfiol i'r rhai hynny sy'n dymuno manteisio arni. | Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda’r cynnig. |

| | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim |
|---|---|---|---|
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | ✓ | | |
| Pobl 18-50 | | | ✓ |
| Pobl hŷn 50+ | | | ✓ |

<table>
<tr><td colspan="4">Anabledd<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓)</td><td rowspan="15">Bydd y cynnig hwn yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a meithrin sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg.<br><br>Un o'r deilliannau yn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yw gwella'r ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, gan alluogi mwy o'r rhai hynny y mae angen y cymorth penodol hwnnw arnynt i fanteisio arno drwy gyfrwng y Gymraeg.</td><td rowspan="15">Nodir y gweithredoedd fydd yn sicrhau cydraddoldeb i blant gydag ADY o dan un deilliant penodol yn y cynnig.</td><td rowspan="15">Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda’r cynnig.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Nam ar y clyw</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Nam corfforol</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Nam ar y golwg</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Anabledd dysgu</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Salwch hirdymor</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Iechyd meddwl</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Arall</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
</table>

| **Trawsrywiol**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓) | | | | Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol. | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |

| **Priodas neu bartneriaeth sifil**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓) | | | | Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.<br><br>Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol. | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priodas | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Partneriaeth sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |

<table>
<tr><td colspan="4">Beichiogrwydd neu famolaeth<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓)</td><td rowspan="5">Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.<br><br>Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol.</td><td rowspan="5"></td><td rowspan="5"></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Beichiogrwydd</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>✓</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Mamolaeth</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>✓</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="4">Hil<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? ( Ticiwch ✓)</td><td rowspan="11">Bydd y cynnig hwn yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a meithrin sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg.<br>Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sicrhau bod darpariaeth drochi ar gael i newydd-ddyfodiaid a hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg.<br>Bydd y ddarpariaeth hon yn golygu bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg, ac y bydd y cymorth angenrheidiol ar gael iddo os bydd yn dewis gwneud hynny.<br>Bydd y ffocws cynyddol ar greu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn rhoi mwy o ddewisiadau i bobl o bob hil o ran addysg eu plant, yn ogystal â'r opsiwn i integreiddio i mewn</td><td rowspan="11">Mae canolfannau iaith/trochi Cyngor Sir Ceredigion eisoes yn darparu'r gefnogaeth yma.</td><td rowspan="11">Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda'r cynnig.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Gwyn</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Asiaidd / Asiaidd Prydeinig</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Grwpiau ethnig eraill</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
</table>

Tudalen 53

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | i gymunedau sy'n siarad Cymraeg. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crefydd neu ddim cred**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓) | | | | Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.<br><br>Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol. | | |
| Cristnogion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Bwdhyddion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Hindŵiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Dyneiddwyr | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Iddewon | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Mwslimiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Sikhiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Pobl heb gred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Eraill | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ✓ | | | |

| **Rhyw**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion a/neu fenywod? (Ticiwch ✓) | | | | Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.<br><br>Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol. | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dynion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Menywod | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |

| **Cyfeiriadedd rhywiol**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓) | | | | Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.<br><br>Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol. | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl ddeurywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Dynion hoyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Menywod hoyw / lesbiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |
| Pobl heterorywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | ✓ | | | |

| |
|---|
| **Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.** |
| **3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?**<br>*Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: ● Dileu neu leihau anfantais ● Diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol ● Annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran* |
| Bydd rhoi'r cynnig hwn ar waith drwy'r 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' yn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael mynediad cyfartal i addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion.Bydd yn cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n meithrin medrau Cymraeg ac yn rhoi'r dewis iddynt fanteisio ar gyfleoedd diwylliannol cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig yn annog Cyngor Sir Ceredigion i hybu'r Gymraeg drwy'r system addysg statudol, yn ogystal â helpu i feithrin sgiliau Cymraeg y gellir eu defnyddio yn y gweithle yn y dyfodol. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd y plant hynny'n gallu ymgeisio am swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, gan eu galluogi i fanteisio ar ran o'r farchnad lafur na fyddai fel arall wedi bod yn agored iddynt.Yn ei dro, bydd hyn yn cyfrannu at yr agenda trechu tlodi. Hefyd, bydd y cynnig hwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a'r cyfleoedd diwylliannol sy'n gysylltiedig â hi, ac yn annog pob plentyn a pherson ifanc i fanteisio arnynt. |
| **3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?**<br>*Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos: ● Y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol ● Y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol ● Bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny* |
| Bydd y cynnig yn sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ni waeth beth fo'u cefndir, yn unol â'r nod llesiant o sicrhau Cymru fwy cyfartal. Bydd y cynnig hefyd yn sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle i fwynhau'r iaith a'r cyfleoedd diwylliannol amrywiol y mae'r iaith yn eu cynnig yng Nghymru, a fydd hefyd yn cyfrannu at un o nodau Bil Cenedlaethau'r Dyfodol o weld pobl yng Nghymru yn cymryd rhan yn ein diwylliant a rennir lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae hyn hefyd yn gyson â'r nod llesiant o feithrin iaith, diwylliant a chymunedau gwydn. |
| **3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**<br>*Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn : ● Mynd i'r afael â rhagfarn ● Hybu dealltwriaeth* |
| Drwy gynyddu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, ochr yn ochr â gweithio i gynyddu lle'r Gymraeg yn ein cymunedau, gallai'r cynnig helpu i sicrhau cydlyniant cymunedol rhwng pobl o gefndiroedd ethnig, crefyddau a hiliau gwahanol. |

| **3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu**<br>Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a’r Gymraeg yn cael eu hybu a’u gwarchod.<br>*Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw’r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy’n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na’r cyfleoedd sydd ar gael i’r rheini sy’n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.* | | | | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu’r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu’n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Cyflwynir y ddogfen (CySGA) a’r holl papurau perthnasol yn y Gymraeg a’r Saesneg drwy’r cyfnod cynllunio a’r ymgynghori. | Bydd gofynion y broses yn arwain hyn. | Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn hyn o beth. |
| A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Nod y cynnig fydd cynyddu defnydd o’r Gymraeg ar draws y sector addysg a hynny yn y pendraw yn cael effaith gadarnhaol ar ei defnydd yn gymdeithasol ac yn gymunedol. Bydd yr holl ddeilliannau, sy’n greiddiol i’r cynllun, yn cyfrannu at y nod hwn. | Mae'r system addysg yn allweddol i gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg a nodir yn Strategaeth Cymraeg 2050, ac mae'n hollbwysig ein bod yn creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae'r cynnig hwn, sy'n ceisio atgyfnerthu'r broses statudol gyfredol a ddefnyddir gan awdurdod lleol Ceredigion i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, yn rhan hollbwysig o'r broses hon, a bydd yn parhau felly drwy gydol y cyfnod hyd at 2050. | Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn hyn o beth. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg? | Cadarn haol<br>✓ | Negydd ol | Dim/Fawr ddim | Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.<br><br>Effaith gadarnhaol fydd ar y Gymraeg gan fod y cynnig yn rhan bwysig o strategaeth Miliwn Siaradwyr 2050 Llywodraeth Cymru.<br><br>Bydd Deilliant 6 y cynnig yn benodol yn cynllunio ar gyfer gwed cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018) | Bydd y cynnig yn nodi'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hefyd yn nodi'r gweithredoedd angenrheidiol fydd eu hangen i gryfhau unrhyw un o'r gwasanaethau fel bod modd eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol. |
| Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? | Cadarn haol<br>✓ | Negydd ol | Dim/Fawr ddim | Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.<br><br>Holl bwrpas y cynnig yw i gynyddu defnydd y Gymraeg yn ysgolion Ceredigion. | Bydd y cynnig yn nodi drwy'r gweithredoedd yn y saith deilliant a nodir sut y bydd y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i chryfhau. | Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol. |
| A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi | Cadarn haol<br>✓ | Negydd ol | Dim/Fawr ddim | Mae'r cynnig yn rhan o weledigaeth Llywodraeth Cymru a nodir yn | Bydd y cynnig yn nodi drwy'r gweithredoedd yn y saith deilliant a nodir sut y bydd y Gymraeg yn cael ei | Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| diwylliant a threftadaeth lleol? | | | | strategaeth Cymraeg 2020. Mae'r weledigaeth yn dymuno gweld Cymru lle mae ei hiaith yn ffynnu. Un o nodau allweddol y strategaeth yw creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr hyderus. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rhaid i ni gynyddu nifer y disgyblion ysgol sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, a hynny'n sylweddol. Mae'r cynnig yn annog awdurdod lleol Ceredigion i hybu'r Gymraeg drwy'r system addysg statudol, yn ogystal â helpu i feithrin sgiliau Cymraeg y gellir eu defnyddio yn y gweithle yn y dyfodol. Bydd y cynnig hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg a'r cyfleoedd diwylliannol sy'n gysylltiedig â hi, ac yn annog pob plentyn a pherson ifanc i fanteisio arnynt. | gwarchod, ei chryfhau a'i hybu. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG:** Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3? | | | |
| **4.1 Camau** | | | |
| Beth fyddwch chi'n ei wneud? | Pryd fyddwch chi'n ei wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Cynnydd |
| Amherthnasol | | | |
| | | | |
| | | | |
| **4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhowch gyfiawnhad.**<br>*(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)* | | | |
| Gwelwn mai ychwanegu at y ddarpariaeth y bydd y cynnig hwn yn hytrach na chael unrhyw effaith negyddol. | | | |
| **4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu**<br>*Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?* | | | |
| Byddwn yn monitro'r ymgynghori a'r ymgysylltu am unrhyw effeithiau annisgwyl.<br><br>Byddwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid e.e. Fforwm y CySGA, Pwyllgor Iaith, trafodaethau oddi mewn i'r adran addysg (gan gynnwys penaethiaid cynradd ac uwchradd) ayyb.<br><br>Cyflwynir adroddiad cynnydd blynyddol i Lywodraeth Cymru. | | | |



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **5. RISG:** Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn? | | | | | |
| Meini prawf asesu effaith | 1 – Isel iawn | 2 – Isel | 3 – Canolig | 4 – Uchel | 5 – Uchel iawn |
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | 1 – Annhebygol o ddigwydd | 2 – Llai tebygol o ddigwydd | 3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd | 4 – Mwy tebygol o ddigwydd | 5 – Tebygol o ddigwydd |

| Disgrifiad o'r risg | Effaith (difrifoldeb) | Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni) | Sgôr risg |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd angen sicrhau cyllid a chapasiti staffio digonol er mwyn gwireddu'r cynllun yn llawn | 4 | 3 | 12 |
| | | | |
| Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall? | | | |
| Na | | | |

| 6. CYMERADWYO | | | |
|---|---|---|---|
| Swydd | Enw | Llofnod | Dyddiad |
| Rheolwr y Gwasanaeth | Meinir Ebbsworth | | |
| Pennaeth y Gwasanaeth | Meinir Ebbsworth | | |
| Y Cyfarwyddwr Strategol | Barry Rees | | |
| Deiliad y Portffolio | Y Cynghorydd Catrin Miles | | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 6

# Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Y Pwyllgor Iaith |
| **DYDDIAD:** | 17 Mai 2021 |
| **LLEOLIAD:** | O bell trwy fideo-gynhedledda |
| **TEITL:** | Data am ail gartrefi a llety gwyliau Ceredigion |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Iaith am y data diweddaraf am lety gwyliau ac ail gartrefi ledled y sir |

**Cefndir**

Mae effaith ail gartrefi ar awdurdodau arfordirol yn fater sydd wedi cael ei drafod yn helaeth ar y cyfryngau'n ddiweddar, ac mae pobl wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cyfyngiadau ar y niferoedd, neu newid y fframwaith cynllunio i wneud mwy i ddiogelu ardaloedd lle ceir niferoedd sylweddol o ail gartrefi ac unedau llety gwyliau. Mae'r papur hwn yn ymchwilio i'r sefyllfa yng Ngheredigion, gan gymharu'r sir â gweddill y rhanbarth, ac mae'n tynnu sylw at ardaloedd lle gall y cyfraddau fod wedi cyrraedd lefelau anghynaliadwy yn y sir.

Cyflwynwyd yr Adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 03.03.2021. Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo'r Cynnig a gynigiwyd i'r Cyngor:

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar Lywodraeth Cymru i:
1. ychwanegu cymal newydd i'r Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol i wneud cais cynllunio cyn cael hawl i drosi tŷ annedd yn dŷ haf neu uned gwyliau
2. addasu'r fframwaith bolisi i ganiatáu gosod trothwyon o ran uchafswm niferoedd y tai haf mewn unrhyw ardal.
3. ei gwneud yn orfodol i berchennog ail gartref ofyn am ganiatâd cynllunio cyn trosi ail gartref yn fusnes gwyliau neu AirBnB.

Hefyd cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i gymeradwyo i'r Cyngor bod cynnydd o 100% yn cael ei osod ar dreth gyngor tai gwyliau yn y sir.

**Argymhelliad(au)**

Cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Iaith er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Enw cyswllt:** | Russell Hughes-Pickering |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol, yr Economi ac Adfywio |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 10.05.2021 |

## Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus** |
| **DYDDIAD:** | **3 Mawrth 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Cyfarfod rhithwir** |
| **TEITL:** | **Data am ail gartrefi a llety gwyliau Ceredigion** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu am y data diweddaraf am lety gwyliau ac ail gartrefi ledled y sir.** |
| **RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | **Cael trafodaeth ddilynol am y cynnig a gyflwynwyd gerbron y Cyngor ac ymchwilio ymhellach i nifer yr ail gartrefi yng Ngheredigion, eu gwasgariad a'u heffaith.** |

**CEFNDIR:**

Mae effaith ail gartrefi ar awdurdodau arfordirol yn fater sydd wedi cael ei drafod yn helaeth ar y cyfryngau'n ddiweddar, ac mae pobl wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cyfyngiadau ar y niferoedd, neu newid y fframwaith cynllunio i wneud mwy i ddiogelu ardaloedd lle ceir niferoedd sylweddol o ail gartrefi ac unedau llety gwyliau. Mae'r papur hwn yn ymchwilio i'r sefyllfa yng Ngheredigion, gan gymharu'r sir â gweddill y rhanbarth, ac mae'n tynnu sylw at ardaloedd lle gall y cyfraddau fod wedi cyrraedd lefelau anghynaliadwy yn y sir.

**Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

**Hyd a lled ail gartrefi yng Ngheredigion**

Oherwydd nad oes fawr ddim mesurau ar waith i reoleiddio'r farchnad llety gwyliau / ail gartrefi, ni cheir un ffynhonnell ddata sy'n rhoi union niferoedd yr anheddau sy'n ail gartrefi neu sy'n cael eu rhentu'n barhaol neu dros dro fel llety gwyliau. Felly, mae sawl ffordd o bennu hyd a lled eiddo o'r fath yng Ngheredigion. Gall hyn gynnwys yr arolwg o'r stoc gwelyau a gwblhawyd ddiwethaf yn 2019, data'r dreth gyngor, ac astudiaethau sy'n ymchwilio i nifer yr unedau llety gwyliau ar wefannau fel AirBnB. Bydd y papur hwn yn trin a thrafod pob un o'r ffynonellau data hyn. Fodd bynnag, er mwyn gwneud cymariaethau cenedlaethol, gwybodaeth am y dreth gyngor yw'r ffynhonnell ddata fwyaf dibynadwy, gan rybuddio bod hyn yn dibynnu ar i berchnogion gofrestru eu heiddo'n gywir ac nad yw hyn bob amser yn debygol o ddigwydd.

O ran y dreth gyngor, mae 1,726 eiddo lle mae'r dreth gyngor yn daladwy wedi'u rhestru fel cartrefi gwyliau/ail gartrefi yng Ngheredigion ar hyn o bryd (Tachwedd 2020).

Isod, dangosir niferoedd yr anheddau sydd wedi trosglwyddo o dalu'r dreth gyngor i dalu ardrethi annomestig – hunanarlwyo ers 2017:

2017/18: 167

2018/19: 76

2019/20: 67

2020/21: 89

Cyfanswm 399

Felly, cyfanswm yr anheddau sydd wedi'u rhestru fel ail gartrefi neu lety gwyliau (yn ôl y dreth gyngor) yw 2125.

Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o 35,574 eiddo domestig sy'n talu'r dreth gyngor.

Felly, mae 6% (wedi'i dalgrynnu) o'r holl anheddau sy'n talu'r dreth gyngor wedi'u cofrestru fel ail gartrefi / llety gwyliau.

Mae wedi bod yn anodd ymchwilio ymhellach i'r rhestr hon i bennu'r mathau o anheddau dan sylw oherwydd nad yw cofnodion y dreth gyngor yn gwahaniaethu rhwng carafán, caban gwyliau a thŷ traddodiadol. Ym mis Ionawr 2021, cynhaliwyd ymarfer pen bwrdd gan ddefnyddio chwiliadau cod post i bennu'r mathau o eiddo ac, er nad oes modd cadarnhau'r canlyniadau'n fanwl gywir, maent yn rhoi darlun o'r mathau o eiddo yn y sampl.

Yn eu plith mae

- 65 carafán;
- 63 caban gwyliau.

Felly, yn ôl rhestr y dreth gyngor, mae carafannau'n cyfrif am 3.8% o'r holl gartrefi gwyliau/ail gartrefi ac mae cabanau gwyliau'n cyfrif am 3.7% ohonynt. Gyda'i gilydd, mae carafannau a chabanau gwyliau'n cyfrif am 7.5% o'r holl gartrefi gwyliau/ail gartrefi.

Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf o stoc gwelyau Ceredigion yn 2019 ac fe ddangosodd fod 633 o unedau llety gwyliau hunanarlwyo ar gael yng Ngheredigion yn ystod cyfnod yr astudiaeth. Yn olaf, dangosodd astudiaeth ddiweddar i lwyfannau cymar wrth gymar, fel AirBnB, a gynhaliwyd gan GTS (UK) Ltd gyda 12 awdurdod peilot, gan gynnwys Ceredigion, fod gosodiadau o'r fath wedi cynyddu'n genedlaethol rhwng 2016 a 2019 a bod ychydig dros 1000 o unedau yng Ngheredigion ym mis Awst 2019 (lle'r oedd yr eiddo cyfan yn cael ei osod).




Chart 3: Source, Peer to peer accommodation in Wales: an interim review (GTS)

**Sut y mae sefyllfa Ceredigion yn cymharu â'r sefyllfa genedlaethol?**


I gymharu sefyllfa Ceredigion â'r sefyllfa genedlaethol, defnyddir data'r dreth gyngor gan fod y data hyn ar gael ar gyfer pob awdurdod yng Nghymru ac oherwydd mai hon yw'r ffynhonnell ddata fwyaf dibynadwy.

Mae llawer o awdurdodau gwledig Cymru'n lleoedd deniadol ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau. Mae hyn wedi bod yn wir ers sawl blwyddyn ac mae wedi bod yn broblem i awdurdodau gwledig arfordirol yn draddodiadol, a hynny'n bennaf oherwydd y fasnach dwristiaeth a'r prisiau tai is o'u cymharu â rhai ardaloedd trefol. I gymharu sefyllfa Ceredigion â gweddill y rhanbarth, mae'r siartiau a ganlyn yn darlunio'r sefyllfa genedlaethol o ran cyfran yr unedau llety gwyliau / ail gartrefi ar sail data'r dreth gyngor fesul awdurdod.

Mae’r siart a’r map a ganlyn yn darlunio’r sefyllfa bresennol o ran cartrefi gwyliau yng Nghymru:-




Chart 1: Information source - Council Tax, summer 2020




Map 1: Holiday home provision in Wales

Fel y mae'r map a'r tabl uchod yn ei ddangos, mae cyfraddau perchnogaeth ail gartrefi a llety gwyliau Ceredigion (5.91%) yn is na'n hawdurdodau arfordirol cyfagos, sef Gwynedd (10.77%) a Sir Benfro (9.15%), ond mae ein cyfraddau ni'n dal i fod yn uwch nag awdurdodau nad ydynt wedi'u lleoli ar yr arfordir. O blith holl awdurdodau lleol Cymru, yng Ngheredigion y mae'r gyfradd uchaf ond tair o ran perchnogaeth llety

gwyliau ac ail gartrefi. Mae pellter Ceredigion oddi wrth y prif lwybrau trafnidiaeth a natur gymharol ynysig y sir yn rhesymau a allai egluro pam fod ein cyfradd ni'n dal i fod yn is na 6%. Mae'r siartiau a ganlyn yn dangos y newid yn niferoedd yr ail gartrefi a'r unedau llety gwyliau ers 1991 ac maent yn dangos bod y farchnad yn gymharol sefydlog yng Ngheredigion.

Mae'r siart a ganlyn yn rhoi trosolwg ar y ffordd y mae niferoedd yr unedau llety gwyliau wedi newid dros y 30 mlynedd diwethaf ym mhob awdurdod lleol. Mae'r siart yn dangos gostyngiad cyffredinol ledled y wlad rhwng 1991 a 2001, a chynnydd graddol rhwng 2001 a 2020, gyda niferoedd 2020 yn uwch na niferoedd 1991:-






Chart 5: 'Second and Holiday Homes and the Land Use Planning System' and Local Authority Council Tax

**Lleoliad ail gartrefi yng Ngheredigion**

Drwy ddefnyddio data'r dreth gyngor, mae'n bosibl mapio lleoliad y rhan fwyaf o'r ail gartrefi yng Ngheredigion fesul ward. Mae hyn wedi dangos eu bod yn dueddol o fod yn y wardiau y byddem yn eu disgwyl, sef Cei Newydd, y Borth, Penbryn, Aberporth, a'r ardal ehangach o amgylch Aberystwyth (yn enwedig ward Melindwr sy'n cynnwys Capel Bangor a Phontarfynach).

Mae llety gwyliau ac ail gartrefi'n rhan o'r farchnad llety heb wasanaeth sydd wedi cyfrif, bob blwyddyn rhwng 2007 a 2018, am rhwng 70% a 73% o effaith twristiaeth ar economi Ceredigion (£238.83 miliwn/72.2% STEAM 2018). Mae'n debygol bod yr economi leol yn elwa mwy ar yr unedau hynny sy'n cael eu gosod am gyfnodau byrion, ond bydd i ail gartrefi a ddefnyddir gan un teulu hefyd fuddion economaidd o ran yr economi sylfaen a gwariant y meddianwyr ar dwristiaeth a hamdden.

Fel y mae'r map a'r data isod yn ei awgrymu, o gymharu'r sefyllfa â chyfanswm y stoc anheddau fesul ward, dim ond mewn un ardal y mae nifer yr ail gartrefi'n cyfrif am fwy nag 20% o'r stoc anheddau. Cei Newydd yw'r ward hwnnw, ac mae 26% o'r stoc anheddau yno yn ail gartrefi. Dangosir y data yn y tablau isod:




| Ward | Nifer yr ail gartrefi | Stoc anheddau (fel yr oedd yn 2018) | % ail gartrefi |
|---|---|---|---|
| Aberaeron | 56 | 845 | 7 |
| Aberporth | 109 | 1278 | 9 |
| Aberteifi – Mwldan | 11 | 945 | 1 |
| Aberteifi – Rhyd-y-fuwch | 12 | 704 | 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberteifi – Teifi** | **19** | **718** | **3** |
| **Aberystwyth – Bronglais** | **24** | **711** | **3** |
| **Aberystwyth – Canol** | **53** | **1136** | **5** |
| **Aberystwyth – Gogledd** | **55** | **1403** | **4** |
| **Aberystwyth – Penparcau** | **10** | **1353** | **1** |
| **Aberystwyth – Rheidol** | **55** | **1372** | **4** |
| **Beulah** | **27** | **850** | **3** |
| **Capel Dewi** | **24** | **639** | **4** |
| **Cei Newydd** | **206** | **806** | **26** |
| **Ceulanamaesmawr** | **37** | **921** | **4** |
| **Ciliau Aeron** | **29** | **954** | **3** |
| **Faenor** | **11** | **2091** | **1** |
| **Llangeitho** | **39** | **736** | **5** |
| **Llangybi** | **18** | **732** | **2** |
| **Llanarth** | **68** | **902** | **8** |
| **Llanbadarn Fawr – Padarn** | **5** | **464** | **1** |
| **Llanbadarn Fawr – Sulien** | **2** | **648** | **0** |
| **Llanbedr Pont Steffan** | **34** | **1238** | **3** |
| **Llandyfrïog** | **19** | **915** | **2** |
| **Llandysiliogogo** | **58** | **1021** | **6** |
| **Llanfarian** | **17** | **725** | **2** |
| **Llanfihangel Ystrad** | **37** | **1018** | **4** |
| **Llanrhystud** | **19** | **731** | **3** |
| **Llansantffraid** | **39** | **1220** | **3** |
| **Llanwenog** | **19** | **853** | **2** |
| **Lledrod** | **43** | **1107** | **4** |
| **Melindwr** | **94** | **1011** | **9** |
| **Pen-parc** | **52** | **1243** | **4** |
| **Penbryn** | **138** | **1163** | **12** |
| **Tirymynach** | **26** | **1032** | **3** |
| **Tref Llandysul** | **15** | **731** | **2** |
| **Trefeurig** | **14** | **841** | **2** |
| **Tregaron** | **20** | **634** | **3** |
| **Troedyraur** | **21** | **669** | **3** |
| **Y Borth** | **122** | **1159** | **11** |
| **Ystwyth** | **31** | **951** | **3** |

**Pa bryd y mae ail gartrefi'n dod yn broblem?**

Yn anffodus, ni cheir tystiolaeth bendant sy'n pennu'r trothwy pan fydd ail gartrefi'n dod yn broblem benodol, gan fod y rhan fwyaf o'r ail gartrefi wedi'u lleoli mewn ardaloedd y mae eu heconomïau'n dibynnu'n draddodiadol ar dwristiaeth lle mae gwerthoedd tai yn naturiol uwch oherwydd eu bod yn lleoliadau arfordirol/gwledig dymunol. Fodd bynnag, rydym yn gwybod eu bod yn gallu achosi problemau, gan gynnwys:

- Prinder tai i ateb y galw lleol
- Effaith ar wasanaethau lleol, amwynderau preswylwyr lleol a'r gymuned
- Diffyg poblogaeth barhaol i gynnal ac i gefnogi cyfleusterau cymunedol
- Cyfleoedd gwaith tymhorol yn unig
- Effaith ar y farchnad dai leol (prisiau'n codi)
- Effaith ar gyfraddau'r Gymraeg


Pan fu i Barc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd bennu trothwyon addas ar gyfer ei fframwaith datblygu lleol, bu iddo ddefnyddio'r egwyddor na ddylai nifer yr unedau llety gwyliau gyfrif am fwy nag 20% o'r stoc dai oherwydd ei bod yn ymddangos bod hynny'n effeithio ar gynaliadwyedd pentref. Yn Strategaeth Dai Cumbria 2006-2011, defnyddiwyd dangosyddion cytbwys i bennu trothwy o 10%. Mae'r Parc Cenedlaethol yn defnyddio'r wybodaeth hon fel canllaw i archwilio effaith ail gartrefi ar gynaliadwyedd cymunedau yn y Parc. Fodd bynnag, ni cheir unrhyw ganllawiau cenedlaethol o ran hyn. O gymharu sefyllfa Ceredigion â sefyllfa Gwynedd lle mae'r cyfraddau perchnogaeth ail gartrefi ar eu huchaf, mae ail gartrefi'n cyfrif am dros 45% o'r stoc dai yn rhai o'r mannau mwyaf trafferthus yno, tra mae'r gyfradd ar ei huchaf yn y sir hon yng Nghei Newydd, lle mae ail gartrefi'n cyfrif am 26% o'r stoc dai.


Er ein bod yn gwybod bod ail gartrefi ac unedau llety gwyliau'n effeithio ar fforddiadwyedd tai lleol, nid oes data ar gael ar lefel ward i ddangos a yw hyn yn effeithio ar wardiau penodol ledled Ceredigion. Fodd bynnag, gallwn ystyried fforddiadwyedd ar lefel sirol, ac fe ddangosir y canlyniadau isod:

Yn ôl ffigurau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2019, yng Ngheredigion y mae'r gymhareb fforddiadwyedd uchaf yng Nghymru, ac eithrio Sir Fynwy a Bro Morgannwg. Rhwng 2004 a 2010, cymhareb fforddiadwyedd Ceredigion oedd yr uchaf yn genedlaethol. Dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae cymhareb Ceredigion bob amser wedi bod ymhlith y pum awdurdod lleol uchaf yn genedlaethol. Ers yr uchafbwynt yn 2007, mae'r duedd dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod ar i lawr, ond fe gafwyd cynnydd bach yn y ffigurau diweddaraf ar gyfer 2019.

**Housing Affordability Ratio Summary**

*Source: Office for National Statistics*




Er bod hyn yn dangos bod problem amlwg o ran fforddiadwyedd ledled Ceredigion, nid oes o reidrwydd berthynas uniongyrchol rhyngddi a nifer yr ail gartrefi ac unedau llety gwyliau. Byddem yn disgwyl i'r problemau fforddiadwyedd fod yn uwch yn yr

awdurdodau â'r lefelau uchaf o eiddo o'r fath (Gwynedd, Sir Benfro, Ynys Môn), ond nid yw'r gydberthynas hon i'w gweld ar draws y set ddata hon. Mae hyn yn awgrymu bod ffactorau amrywiol yn effeithio ar fforddiadwyedd ac nad yw'n ymwneud yn benodol â'r cymarebau ail gartrefi a llety gwyliau.

**Fframwaith deddfwriaethol**

Ar hyn o bryd, yn achos y rhan fwyaf o'r eiddo, ni cheir dull o reoli ail gartrefi a llety gwyliau gan fod yr holl anheddau domestig yn cael eu rhoi yn nosbarth 'C3 defnydd preswyl'. Mae hyn yn caniatáu i ddefnydd eiddo gael ei newid o annedd breswyl i ail gartref/cartref gwyliau, ac yn ôl, heb fod angen caniatâd o dan ddeddfwriaeth genedlaethol, sef Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 fel y'i diwygiwyd a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 fel y'i diwygiwyd.

Ceir eithriadau pan fydd amod wedi'i osod ar ganiatâd cynllunio i bennu bod annedd yn llety gwyliau, er enghraifft, yn achos cais i arallgyfeirio fferm drwy addasu adeiladau fferm traddodiadol. Mewn achos o'r fath, pennir amod bod rhaid defnyddio'r annedd fel llety gwyliau, a rhaid cael caniatâd cynllunio i'w throi'n annedd breswyl barhaol.

**Nifer yr unedau llety gwyliau a ganiatawyd drwy'r drefn gynllunio**

Rhwng 2000 a 2020, cwblhawyd 426 o unedau gwyliau yng Ngheredigion. I roi'r ffigur hwn yn ei gyd-destun, cwblhawyd 4,545 o unedau preswyl yn ystod yr un cyfnod.

| Blwyddyn | Nifer yr unedau gwyliau a gwblhawyd | Blwyddyn | Nifer yr unedau gwyliau a gwblhawyd |
|---|---|---|---|
| 2000 | 1 | 2010 | 32 |
| 2001 | 1 | 2011 | 29 |
| 2002 | 4 | 2012 | 33 |
| 2003 | 6 | 2013 | 26 |
| 2004 | 11 | 2014 | 25 |
| 2005 | 9 | 2015 | 26 |
| 2006 | 24 | 2016 | 18 |
| 2007 | 19 | 2017 | 20 |
| 2008 | 43 | 2018 | 17 |
| 2009 | 50 | 2019 | 30 |
| | | 2020 | 2 |
| **Cyfanswm** | **426** | | |

Ceir 243 o ganiatadau eraill ar gyfer unedau gwyliau nad ydynt wedi'u cwblhau. Cyfanswm yr ymrwymiadau ar gyfer unedau gwyliau ers dechrau monitro'r sefyllfa (yn 2000) yw 669.

Mae mwyafrif yr unedau a gwblhawyd (388) a'r caniatadau nad ydynt wedi'u cwblhau (233) wedi'u lleoli mewn 'lleoliadau eraill' gwledig. Ceir rhai unedau gwyliau a gwblhawyd a/neu nad ydynt wedi'u cwblhau hyd yma yn y canolfannau gwasanaeth a ganlyn hefyd: Aberaeron, Aberteifi, Aberystwyth, Adpar, Llandysul, Tregaron, Aberporth / Parcllyn, Cei Newydd, Llanarth, Pontarfynach, Pontrhydfendigaid, Tal-y-bont, y Borth.

Mae polisi LU16 y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyfan yn cefnogi addasu mathau eraill o adeiladau yn llety gwyliau, ac mae'n datgan bod rhaid gosod amod i beri iddi fod yn ofynnol gwneud datganiad statudol blynyddol a darparu'r rhestr feddiannaeth fel modd o sicrhau bod uned yn cael ei defnyddio fel llety gwyliau mewn gwirionedd. Nid yw'n glir pa mor llym y mae'r polisi hwn yn cael ei orfodi, ac mae goblygiadau gorfodi anochel o ran adolygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r gofyniad i wneud datganiad statudol blynyddol.

**Y drafodaeth genedlaethol am ail gartrefi**

Mae'r problemau sy'n gysylltiedig ag ail gartrefi yn bod ers tro, ac mae llawer wedi galw am i'r ddeddfwriaeth gyfredol gael ei newid. Yn ddiweddar (23/09/2020), galwodd grŵp Plaid Cymru yn y Senedd ar Lywodraeth Cymru i ymgymryd ag astudiaeth gynhwysfawr o hyd a lled y broblem, ei goblygiadau ehangach ac unrhyw ddatrysiadau posibl. Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau a fydd yn ymgymryd â'r astudiaeth hon, ond mae datganiadau diweddar yn y wasg yn awgrymu bod y mater yn cael ei gymryd o ddifrif ar lefel ddeddfwriaethol ehangach.

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Caerdydd wedi ymgymryd ag astudiaeth o nifer yr unedau llety gwyliau a'r ail gartrefi yn eu hawdurdodau ac yn genedlaethol, ynghyd ag effaith eiddo o'r fath. Maent yn bwriadu cyflwyno'r astudiaeth hon i Lywodraeth Cymru, ac mae'r dogfennau i'w gweld drwy'r ddolen a ganlyn:

Astudiaeth Cyngor Gwynedd a Chyngor Caerdydd o ail gartrefi

Mae'r papur yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer anheddau o'r fath, gan beri iddi fod yn ofynnol gwneud cais cynllunio i'w haddasu. Mae hefyd yn galw am i awdurdodau lleol allu rheoleiddio'r diwydiant a chreu parthau rheoli lleol fel y gellir ei wneud ar hyn o bryd i reoli tai amlfeddiannaeth.

Yn dilyn y gwaith a wnaed gan Gyngor Gwynedd ac Ynys Môn a'r papur a gynhyrchwyd ganddynt, mae Dr Simon Brooks o Brifysgol Abertawe, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, wedi ymgymryd â dadansoddiad eilaidd o ail gartrefi ledled Cymru ac wedi cynhyrchu rhestr o argymhellion.

ail-gartrefi-datblygu-polisïau-newydd-yng-nghymru_0.pdf (llyw.cymru)

Mae'r papur hwn yn cydnabod hyd a lled y mater hwn yn genedlaethol, yn lleol ac yn lleol iawn ac yn amlinellu'r dulliau a fabwysiadwyd mewn llefydd eraill a beth oedd llwyddiannau a gwendidau dulliau o'r fath. Mae'r argymhellion yn awgrymu bod angen ystyried y mater hwn mewn dull holistaidd ac yn gosod camau gweithredu i Lywodraeth Cymru, yr Awdurdodau Lleol a chymunedau unigol. Ymhlith yr argymhellion arfaethedig ar lefel genedlaethol, mae diffinio ail gartref, cynnal treial gan gyflwyno dosbarth 'defnydd newydd' fel bod yn rhaid cael caniatâd cynllunio er mwyn trosi tŷ annedd yn llety gwyliau neu'n ail gartref, yn ogystal ag eithrio ail gartrefi rhag bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi. Ar lefel leol, dylai Awdurdodau Lleol sy'n canfod bod ail gartrefi yn broblem, ystyried defnyddio eu grymoedd i godi premiwm y dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi i 100% ac ystyried defnyddio'r 'Tai Marchnad Lleol' i ddatblygu ystod o opsiynau tai ar gyfer y sawl sy'n methu cystadlu ar y farchnad agored oherwydd prisiau tai.

**Dulliau lleol o fynd i'r afael ag ail gartrefi**

Er na chaiff Cyngor Sir Ceredigion wahardd mwy o anheddau rhag cael eu haddasu'n ail gartrefi neu'n llety gwyliau, polisi S05 ar dai fforddiadwy yw'r prif ddull lleol o sicrhau nad yw anheddau newydd yn cael eu troi'n eiddo o'r fath. Mae'r amodau a bennir ar eiddo o'r fath (drwy gytundebau cyfreithiol adran 106) yn sicrhau mai'r eiddo yw prif breswylfa'r unigolyn a bod meini prawf lleol ar waith.

Mae fframweithiau polisi eraill ar gael, fel pennu amod bod rhaid i unrhyw eiddo newydd fod yn brif breswylfa, neu greu 'marchnad dai leol' i sicrhau bod tai'n cael eu meddiannu gan bobl leol. Fodd bynnag, mae peryglon ynghlwm wrth wneud hyn, gan gynnwys yr anhawster o ran cael morgais ar gyfer eiddo lle ceir meini prawf meddiannaeth, rhywbeth sydd wedi bod yn broblem o ran ein tai fforddiadwy presennol, ynghyd â'r her o bennu ardaloedd yn y sir lle y gellir dangos bod nifer yr ail gartrefi'n effeithio'n andwyol ar gymunedau lleol a chyfiawnhau gwneud hynny mewn termau cynllunio.

Ateb arall fyddai creu cyfarwyddyd erthygl 4 mewn ardaloedd penodedig i ddileu hawliau datblygu a ganiateir perchnogion/meddianwyr i droi anheddau'n ail gartrefi/llety gwyliau. Byddai angen cyfiawnhau gwneud hyn hefyd mewn termau cynllunio drwy ddangos bod nifer uchel yr ail gartrefi eisoes yn effeithio'n negyddol o safbwynt cynllunio ar y gymuned ehangach a'i bod yn hanfodol cymryd y cam hwn i reoli twf ail gartrefi mewn ardaloedd penodol. Hyd yma, nid oes gennym ddigon o dystiolaeth sy'n awgrymu bod ail gartrefi'n effeithio i raddau helaeth ar unrhyw ran benodol o'r sir, ac eithrio Cei Newydd, ond mae'n debygol y byddai'n cael sgileffeithiau economaidd ar y farchnad dwristiaeth, ac mae angen taro cydbwysedd gofalus o ran yr ystyriaethau hyn.

Y dull mwyaf priodol o reoli ail gartrefi a llety gwyliau fyddai galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried y mater yn genedlaethol drwy ddiwygio'r gorchymyn dosbarthiadau defnydd, fel y gwnaeth ar gyfer tai amlfeddiannaeth, ac yna caniatáu i awdurdodau gyflwyno mesurau diogelu yn eu polisïau lle bo modd cyfiawnhau atal datblygu pellach, fel yr ydym wedi'i wneud o ran tai amlfeddiannaeth yn Aberystwyth.

| | |
|---|---|
| | **A gyflawnwyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, rhowch reswm**<br>***Crynodeb:*** Ni chafodd Asesiad Effaith Integredig ei baratoi ar gyfer y papur hwn oherwydd ei fod wedi'i lunio at ddibenion ymchwil ac nid at ddibenion llunio polisi, adolygu polisi sy'n bodoli eisoes, neu gynnig lleihau neu gau gwasanaeth. |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** |

**Argymhelliad:**

**Bod y Pwyllgor Craffu'n ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd a'i fod yn ei thrafod yng ngoleuni'r cynnig (ceir copi ohono isod).**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar Lywodraeth Cymru i:
1. ychwanegu cymal newydd i'r Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol i wneud cais cynllunio cyn cael hawl i drosi tŷ annedd yn dŷ haf neu uned gwyliau
2. addasu'r fframwaith polisi i ganiatáu gosod trothwyon o ran uchafswm niferoedd o dai haf mewn unrhyw ardal
3. ei gwneud yn orfodol i berchennog ail gartref ofyn am ganiatâd cynllunio cyn trosi ail gartref yn fusnes gwyliau neu AirBnB

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

Er mwyn ystyried y cynnig ymhellach.

| | |
|---|---|
| **Enw cyswllt:** | Russell Hughes-Pickering |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 11 Chwefror 2021 |
| **Acronymau:** | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 7

**Cyngor Sir Ceredigion**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Iaith** |
| **DYDDIAD:** | **17 Mai 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **O bell trwy fideo-gynhadledd** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020-21** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cyflwyno at sylw aelodau Pwyllgor Iaith Gymraeg, Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 2020-21, sy'n amlinellu cynnydd wrth weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg. Yn unol a Safon 158 mae'n ofynnol cyhoeddi'r adroddiad erbyn 30 Mehefin 2021.** |

**Cefndir**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith gyfreithiol i osod dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol at sylw Comisiynydd y Gymraeg yn amlinellu cynnydd, mae'r adroddiad amgaeedig yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021.

Mae 5 Prif Safon gyda chyfanswm o **167** is-safonau wedi'u gosod ar Gyngor Sir Ceredigion, gyda'r dyddiad gweithredu cyntaf 30 Fawrth 2016. Mae rhestr lawn y Safonau mae gofyn i Gyngor Sir Ceredigion gydymffurfio â nhw ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor, ac ar Cardinet ar gyfer aelodau staff.

Mae'r adroddiad yn nodi y camau gweithredu sydd wedi'u cymryd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion y Safonau, ac wedi'i drefnu o dan y 5 maes gweithredu canlynol:

- **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**
- **Safonau Llunio Polisi**
- **Safonau Gweithredu Mewnol**
- **Safonau Hybu**
- **Safonau Cadw cofnodion.**

**1. Prif Gyflawniadau**

Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad Blynyddol, ond dyma rhai o'r Prif Gyflwyniadau yn ystod 2020-21:

- Aroesi, gan addasu'r gyflym i argyfwng y Coronafeirws, trwy ddatblygiadau technolegol gan greu dulliau cyfathrebu dwy-ieithog effeithiol
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg trwy Clic gan greu canllawiau Safonau'r Gymraeg, a chynhyrchu posteri digidol sy'n procio'r cof o ran gofynion y Safonau
- Paratoi adroddiad 'Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg yn Ystod y Cyfnod Clo' trwy gydweithrediad y Fforwm Dyfodol Dwyieithog
- Cyhoeddi dogfen 'Terminoleg Cofid'

- Nifer fawr o ddatganiadau i'r wasg, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, baneri, posteri ayb dwy-ieithog yn hysbysu'r cyhoedd ynghylch y pandemig
- Gweithgareddau rhithiol gan gynnwys Diwrnod Shwmae, Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Hawliau'r Gymraeg
- Dathlu llwyddiant yng Ngwobrau Cymraeg Gwaith y Ganolfan Genedlaethol

## 2. Dangosyddion Perfformiad

Yn rhan o'r Adroddiad Monitro, mae Comisiynydd y Gymraeg yn disgwyl bod y Cyngor yn medru darparu tystiolaeth gyferbyn a'r dangosydd perfformiad fel a ganlyn:

| |
|---|
| **Sgiliau Iaith Staff**<br>Nifer y staff sydd a sgiliau yn y Gymraeg, fesul lefel ALTE, yn ystod y flwyddyn dan sylw.<br>Mae gallu Swyddogion y Cyngor i siarad y Gymraeg ar lafar fel a ganlyn:<br>• Mae 33% (668) o staff y Cyngor yn medru siarad Cymraeg yn rhugl (ALTE Lefel 5); fodd bynnag mae eu gallu i ysgrifennu Cymraeg yn rhugl yn disgyn i 25% (509).<br>• Mae 62% o staff y Cyngor gyda'r gallu i sgwrsio ar lafar yn Gymraeg, sef staff sydd wedi hunanasesu eu sgiliau iaith rhwng lefelau 3 a 5<br>• Mae 4**%** o'r gweithle heb sgiliau iaith Gymraeg o gwbl |
| **Recriwtio i Swyddi Gwag**<br>Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gyda'g lefelau ALTE:<br>• Hysbysebwyd 286 o swyddi newydd neu wag yn ystod y flwyddyn.<br>• Mae 50% o'r swyddi yn cael eu hysbysebu yn ALTE 3, nid o reidrwydd gyda sgiliau rhugl ond yn medru cynnal sgwrs o ddydd i ddydd yn Gymraeg.<br>• Mae oddeutu 15% o'r swyddi sy'n cael eu hysbysebu ar lefel 5, sef gofyniad rhuglder yn y Gymraeg.<br>• Yn ychwanegol eleni, fe fesurwyd nifer yr ymgeiswyr sy'n gofyn am gael cyfweliad trwy gyfrwng y Gymraeg, ac fe nodwyd fod y ffigwr hwn oddeutu 18%. |
| **Hyfforddiant Dysgu neu Wella Sgiliau Iaith**<br>Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg:<br>• Mae 70 o aelodau staff yn mynychu cyrsiau dysgu Cymraeg rhithiol ar hyn o bryd: sef 12 yn mynychu Cwrs Mynediad i'r Gymraeg, 31 yn mynychu Cwrs Sylfaen, 12 yn mynychu Cwrs Canolradd a 15 yn mynychu Cwrs Uwch<br>• Mae 9 aelod o staff wedi mynychu cwrs Gwella Sgiliau Cyfathrebu Ysgrifenedig Cymraeg<br>• Mae 11 aelod o staff wedi mynychu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith a Safonau'r Gymraeg<br>• Mae cyfanswm o 1896 o staff y Cyngor wedi cwblhau rhaglen e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith ers ei lansiad, gyda 476 o'r rhaid wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis diwethaf<br>• Mae 143 aelod o staff wedi cwblhau Rhaglen Anwytho'r Cyngor sy'n cynnwys elfen o ymwybyddiaeth iaith. |
| **Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg**<br>Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gan y Cyngor yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.<br>• 109 wedi mynychu Hyfforddiant Gweithdrefau Diogelu cyfrwng Cymraeg |

| |
|---|
| • 31 wedi mynychu Hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant lefel 2 cyfrwng Cymraeg<br>• 7 wedi mynychu Hyfforddiant Cyflwyniad i Microsoft Teams cyfrwng Cymraeg.<br>Gohiriwyd nifer o sesiynau hyfforddiant oherwydd y pandemig, gan gynnwys sesiynau wyneb i wyneb a gaiff ei adlewyrchu yn y ffigyrau uchod, fodd bynnag mae nifer sylweddol o staff wedi cwblhau hyfforddiant e-ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn. |
| **Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd**<br>Nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n Gysylltiedig â'r Iaith Gymraeg<br>Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniwyd unrhyw gwyn yn uniongyrchol, fodd bynnag derbyniwyd 1 cwyn trwy sylw Comisiynydd y Gymraeg yn ymwneud a gohebiaeth awtomatig uniaith Saesneg i wasanaeth ar-lein, a gofynnwyd i'r Cyngor weithredu ymhellach er mwyn sicrhau cydymffurfiad. |

## 3. Blaenoriaethau ar gyfer 2020/21

Dyma restru rhai o'r blaenoriaethau:

- Datblygu cynllun ar gyfer adnewyddu tudalennau 'Iaith ar Waith' ar fewnrwyd y Cyngor, a datblygu deunydd cymorth i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Cyflwyno cynllun sy'n argymell gwelliannau i gyflawni gofynion y Safonau Gweithredu - defnyddio'r Gymraeg yn fewnol â hyrwyddo'r cysyniad o weithle dwyieithog
- Cydlynu a chefnogi gweithredoedd Strategaeth Iaith Ceredigion, a datblygu cynllun i asesu effaith gweithredu'r Strategaeth ar sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion
- Cydlynu grŵp prosiect i ddatblygu 'Pecyn Croeso' mewn ymgais i geisio cymhathu mewnfudwyr gwaith yn deillio o Fforwm Dyfodol Dwyieithog
- Prosiect hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliant a Chymreictod mewn cartrefi preswyl
- Adolygu gofynion Safonau Polisi, er mwyn sicrhau bod defnydd y Gymraeg yn rhan o gynlluniau gweithredu holl wasanaethau'r Cyngor, ynghyd ag adnabod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw benderfyniadau polisi

## Argymhellion

- Derbyn Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion (2020-21)
- Cymeradwyo bod yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar gyfer ei gymeradwyo a chyhoeddi ar wefan corfforaethol y Cyngor.

**Enw Cyswllt:** Carys Lewis Morgan (gyda chefnogaeth Nia Jones)

**Swydd:** Swyddog Polisi Iaith Gymraeg

**Dyddiad yr Adroddiad**: 10.05.2021

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

DRAFT

# Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg

## Ebrill 2020 – Mawrth 2021

Cymraeg

Awdur: Carys Lewis Morgan, Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad Cyhoeddi:

Pwyllgor Iaith: 17/05/2021

Cymeradwywyd gan y Cabinet: 15/06/2021

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â'r Swyddog Polisi Iaith fel y nodir isod os gwelwch yn dda:

Carys Lewis Morgan
Swyddog Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy Officer

Cyngor Sir Ceredigion County Council
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

E bost: carys.morgan@ceredigion.gov.uk

DRAFT

**Mynegai**


Adran 1: Cyd-destun yr adroddiad

Adran 2 Crynodeb Gweithredol

Adran 3: Trefniadau ar gyfer Cydymffurfio

- Safonau Darparu Gwasanaeth
- Safonau Llunio Polisi
- Safonau Gweithredu
- Safonau Hybu

Adran 4: Asesiad o Gydymffurfio

- Safonau Cadw Cofnodion

Adran 5: Casgliadau

Atodiadau


DRAFT

## ADRAN 1: Cyd-destun

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith gyfreithiol i osod dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion, ymhlith sefydliadau eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg. Pwrpas y Safonau yw:

- Rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr Iaith Gymraeg
- Rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- Sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Mae dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion sy'n deillio o ofynion Safonau'r Gymraeg, sy'n golygu:

- na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- bod angen i'r Cyngor hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn eu bywyd bod dydd.

Mae 5 Prif Safon gyda chyfanswm o **167** is-safonau wedi'u gosod ar Gyngor Sir Ceredigion drwy Hysbysiad Cydymffurfio, gyda'r dyddiad gweithredu cyntaf 30 Fawrth 2016. Mae rhestr lawn y Safonau mae gofyn i Gyngor Sir Ceredigion gydymffurfio â nhw ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor; dyma'r ddolen ar ein gwefan:

http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/iaith-gymraeg/

Cydnabyddir bod y broses o weithredu'r Safonau yn un parhaus, gyda'r nod o sicrhau bod y gofynion yn cael eu prif llifo'n naturiol i waith y Cyngor, a bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn ddiofyn. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i gyflawni gwelliannau, ac i weithredu er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd gofynion Safonau'r Gymraeg yn llawn.

**Pwrpas yr Adroddiad**

Dyma'r bumed blwyddyn lawn o roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n ofynnol bod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn 30 Mehefin, yn unol â Safonau 158 a 164. Mae'r Adroddiad yn nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r dosbarth o Safonau fel a ganlyn:

- Safonau Darparu Gwasanaethau
- Safonau Llunio Polisi
- Safonau Gweithredu Mewnol
- Safonau Hybu
- Safonau Cadw Cofnodion.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion perfformiad gofynnol, hynny yw:

| |
|---|
| **Sgiliau Iaith Staff :** Nifer y staff sydd a sgiliau yn y Gymraeg, fesul lefel ALTE, yn ystod y flwyddyn dan sylw |
| **Recriwtio i Swyddi Gwag:** Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gyda'g lefelau ALTE |
| **Hyfforddiant Dysgu neu Wella Sgiliau Iaith:** Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg |
| **Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg:** Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gan y Cyngor yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn. |
| **Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd:** Nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n Gysylltiedig â'r Iaith Gymraeg |



DRAFT

**Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth**

Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Cyngor yn ei gynnal ar ei Wasanaethau.

Mae cyfrifoldeb strategol am yr Iaith Gymraeg gyda'r Gwasanaeth Democrataidd. Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw Lowri Edwards, a'r Aelod Arweiniol Gwleidyddol yw Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn. Mae'r gwaith o ymdrin yn weithredol â materion y Gymraeg o ddydd i ddydd yn gyfrifoldeb y Swyddog Polisi Iaith Gymraeg, Carys Lewis Morgan. Caiff Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg ei graffu gan Aelodau'r Pwyllgor Iaith, a fydd yn argymell cynigion i Gabinet y Cyngor. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar Wefan y Cyngor, at hyn bydd yr adroddiad yn cael ei gynnwys fel rhan o Agenda'r Grŵp Arweiniol.

**Pwyllgor Iaith:**
Mae'r pwyllgor yn darparu cyfeiriad gwleidyddol ar gyfer hybu a hwyluso'r Iaith Gymraeg yng Ngheredigion, ac i gefnogi ei ymdrechion i wella defnydd o'r Gymraeg drwy'r sefydliad. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 6 Aelod Etholedig sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol, ac mae'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor yn gyfrifol am gadeirio'r Pwyllgor. Gall y Pwyllgor fynnu bod unrhyw aelod neu swyddog o'r Cyngor yn bresennol i ateb cwestiynau a gall hefyd wahodd personau eraill i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'r pwyllgor yn cwrdd yn chwarterol. Yn ogystal â chydymffurfiaeth gyda'r Safonau, mae'r pwyllgor yn derbyn adroddiadau ar y Fframwaith Strategol Mwy Na Geiriau, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gweithredoedd Cered a Theatr Felin-fach wrth hybu a hwyluso'r Gymraeg. Mae'r Pwyllgor hwn, yn argymell cynigion i Gabinet y Cyngor.

**Fforwm Dyfodol Dwyieithog:**
Mae Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion wedi'i sefydlu er mwyn cefnogi'r gwaith i gyflawni Strategaeth Iaith Ceredigion. Mae Strategaeth Iaith Ceredigion yn amlinellu sut bydd gwasanaethau'r Cyngor ynghyd â sefydliadau partner yn cyd-weithio er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach ar draws y Sir. Mae'r fforwm hefyd yn caniatáu trafodaeth gynhwysol am fuddiannau'r Gymraeg, yn fforwm sy'n hwyluso camau i rannu gwybodaeth ac arfer da, ac sy'n meithrin cydweithredu er budd y Gymraeg. Mae'r aelodaeth yn cynnwys sefydliadau partner Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn ogystal ag ystod o sefydliadau ar draws y Sir, sydd wedi ymrwymo i'r weledigaeth ar gyfer Ceredigion gwirioneddol ddwyieithog. Caiff y Fforwm ei gadeirio gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor. Yn y cyfnod gweithredu nesaf, mae'n fwriad sefydlu ffrydiau gwaith, hyn er mwyn trefnu grwpiau llai sy'n medru mynd i'r afael gyda'r 3 Nod Strategol sydd wedi'u hadnabod yn Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23.

**Hunanreoleiddio**
Yn ei Adroddiad Sicrwydd 'Cau'r Bwlch' mae Comisiynydd y Gymraeg yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i hunanreoleiddio ei berfformiad yn erbyn gofyniad Safonau'r Gymraeg. Unwaith yn rhagor, yn dilyn cydsyniad gan y Grŵp Arweiniol, fe wnaethom gynnal adolygiad ynghylch detholiad o Safonau sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth, yn ogystal â rhai o'r Safonau Gweithredu sy'n ymwneud â gweinyddiaeth fewnol. Gofynnwyd i bob Swyddog Arweiniol Corfforaethol sgorio eu gwasanaethau gyferbyn ag agweddau o'r Safonau Iaith, er mwyn ceisio mesur cydymffurfiaeth gyfredol. Y prif ganfyddiad oedd, bod y Cyngor yn perfformio yn eithaf da gyferbyn gofynion y Safonau hynny sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau sylfaenol, hynny yw gall defnyddwyr fod yn hyderus o gael gwasanaethau dros y ffôn, gwasanaethau ysgrifenedig, a gwasanaethau y gellir eu cynllunio ar eu cyfer yn Gymraeg.



DRAFT

Mae defnyddiwr yn llai tebygol o allu cael gwasanaethau mwy personol neu wasanaeth wyneb yn wyneb yn y Gymraeg. Mae'r canfyddiad hwn yn unol â chanfyddiadau cenedlaethol sydd wedi'i gasglu gan Gomisiynydd y Gymraeg: Adroddiad Sicrwydd 'Cau'r Bwlch'.

Yn dilyn yr ymarfer mesur perfformiad, bu'n gyfle da i gynnal adolygiad trylwyr ynghylch ein sefyllfa gyfredol gyferbyn gofynion Safonau'r Gymraeg. Ers i'r Cyngor dderbyn yr Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg yn 2016, mae swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi nifer fawr o ganllawiau ynghyd â Chod Ymarfer, sy'n dehongli rhai o'r safonau, yn darparu rhagor o fanylder a chynghorion parthed cyflawni gofynion y Safonau. Rydym wedi mynd ati i lunio papur trafod ynghyd â chynllun gweithredu drafft, er mwyn pennu cyfeiriad strategol y Cyngor yn y blynyddoedd sydd i ddod, wrth weithredu ymhellach gofynion Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn cynnal trafodaethau yn fewnol ar y cynllun gweithredu yn y cyfnod nesaf. Bydd y gwaith hwn hefyd yn plethu gyda'r saith nod strategol mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo iddo drwy ei Ddatganiad Polisi Iaith Gymraeg, a gafodd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017. Mae dolen at y Datganiad Polisi hwnnw isod:

http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/iaith-gymraeg/datganiad-polisi-a-hawliau-defnyddior-gymraeg/

DRAFT

## Adran 2: Crynodeb Gweithredol

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn flwyddyn o ymateb i ddigwydiadau, wrth i argyfwng digynsail y Coronofeirws, Cofid 19 effeithio ar ein holl weithgaredd. Ond mae hefyd wedi bod yn flwyddyn o arloesedd, wrth i'r Cyngor orfod addasu yn gyflym, a thrwy hynny achub ar nifer o gyfleoedd newydd. Erbyn 23ain o Fawrth 2020 roedd y sefydliad i gyd yn gweithio o gartref; roedd uwch dîm rheoli wedi ei sefydlu, a hynny i wneud penderfyniadau amser real ynghyd â sicrhau bod gan y Cyngor ddulliau cyfathrebu effeithiol. Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau syfrdanol gan ddefnyddio technoleg at bwrpas darparu gwasanaethau; at hyn mae MS Teams wedi ei gyflwyno ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau bod cyfathrebu mewnol effeithlon yn parhau. Drwy ddarganfod dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau mae'r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni mwyafrif ei weithgareddau hanfodol i gwsmeriaid, yn ddiogel, yn y ffordd newydd hon o weithio.

Yn ystod yr argyfwng mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod na fu erioed adeg mor bwysig i siaradwyr Cymraeg gael derbyn gwasanaethau yn eu mamiaith; wrth ystyried yr ymbellhau cymdeithasol, y diffyg cyswllt wyneb yn wyneb a'r effaith a gaiff hynny ar iechyd a llesiant personau. Mewn sefyllfa o'r fath mae medru cyfathrebu yn eich iaith naturiol yn ysgogi teimladau cyfarwydd o berthyn ac yn eich cynnal ar adegau tywyll. Felly, yn ystod y cyfnod clo, mae Gwasanaeth Gofal Cwsmer Clic wedi gweithredu fel un pwynt mynediad i wasanaethau'r Cyngor, naill ai dros y ffôn neu'n ddigidol; ac fe gaiff ddefnyddwyr gwasanaeth y dewis i gysylltu gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu'r Saesneg. At hyn rydym wedi bod yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg mae'r Cyngor yn eu cynnig a rhoi gwybod i drigolion am eu hawliau i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fodd bynnag, mae'n ofid bod yr encilio cyhoeddus, a'r diffyg cymdeithasu diwylliannol yn cael effaith ar ein defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws y Sir. Mae'n bosib iawn na fydd nifer fawr o bersonau yn gweld, clywed nac yn siarad Cymraeg am gyfnodau hir, ac fe all hyn gael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg. Rydym yn bryderus y gallai'r pandemig arafu ein cynlluniau, ac ar ein gallu i gyrraedd nod Strategaeth Iaith Ceredigion. Mae hyn yn ategu'r pryder yn genedlaethol, dywedodd Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg "Mae'r argyfwng wedi cael effaith pellgyrhaeddol ar yr iaith. .. Dwi'n poeni y gallai'r pandemig gael effaith ar y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050"

## Hybu a Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg

Rydym wedi cymryd nifer o gamau gweithredol i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, amlinellir isod:


**Canllaw Safonau'r Gymraeg: Yr hyn sydd angen i mi ei wneud:**




Er mwyn sicrhau fod y staff i gyd yn ymwybodol o'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, rydym wedi bod yn dosbarthu canllaw sy'n rhoi arweiniad sut i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae dyletswydd ar bob Swyddog Arweinol Corfforaethol a Rheolwr Corfforaethol i sicrhau fod eu gwasanaethau yn cydymffurfio gyda'r gofynion. I gyd-fynd â'r lansiad fe wnaethom greu fideo, ac mae'r fideo hwn bellach yn cael ei ddefnyddio mewn sesiynau anwytho i roi gwybod am ofyniad gweithredu Safonau'r Gymraeg.

**Posteri: Safonau'r Gymraeg Canllaw Cyflym ar gyfer Swyddogion y Cyngor**

DRAFT




Mae posteri wedi'u cynhyrchu ac ar gael ar CeriNet (y fewnrwyd) ar gyfer eu lawr lwytho. Mae'r posteri yn arf defnyddiol i brocio'r cof o ran gofynion Safonau'r Gymraeg. Gan fod pawb bellach yn gweithio o gartref, mae'n ddull syml o atgoffa staff o'u dyletswyddau i wneud defnydd o'r Gymraeg.

**Adroddiad: Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg yn Ystod y Cyfnod Clo**

Yn dilyn pryder aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog ynghylch effaith yr argyfwng ar ein defnydd o'r iaith Gymraeg, aethpwyd ati i gasglu tystiolaeth ynghylch sut mae sefydliadau a chymdeithasau wedi mynd ati i ailfeddwl yn sylweddol am y ffyrdd y maent yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau a digwyddiadau yn Gymraeg ar gyfer ein trigolion.
Mae'r adroddiad hwn yn gyfle euraidd i rannu ychydig o'r cyfleoedd newydd sydd wedi codi yn sgil y pandemig, gan geisio codi ymwybyddiaeth o'r pwysigrwydd i roi lle canolog i'r Gymraeg.




**Dogfen Terminoleg Covid**. Ar gais sawl gwasanaeth o fewn y Cyngor ynghyd â sefydliadau unigol, aethpwyd ati i gasglu ynghyd rhai o'r termau newydd sydd wedi'u bathu yn ystod cyfnod Coronafeirws, a'u dwyn ynghyd mewn un dogfen. Mae cyfnod y pandemig wedi bod yn gyfnod o newid arferion, ac yn anochel wrth gyfathrebu negeseuon a chyfarwyddyd allweddol, mae geiriau newydd wedi cael eu bathu a'u safoni yn rhan o iaith bob dydd, ac mae'r geiriau hyn yr un mor bwysig yn y Gymraeg wrth gyfathrebu negeseuon allweddol. Cafodd y ddogfen gryn dipyn o sylw ar y cyfryngau gan hyd yn oed gyrraedd y wasg yn Lloegr. Y nod yw bod y ddogfen ar gael yn gyhoeddus oddi ar wefan y Cyngor, fel bod Swyddogion y Cyngor ac swyddogion o sefydliadau eraill, gan gynnwys trigolion y Sir yn medru gwneud defnydd o'r ddofen, gan sicrhau fod y geirfa newydd yr un mor hwylus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Gellir chwilio o'r Gymraeg i'r Saesneg, neu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Mae dolen at y ddogfen isod:




[http://www.ceredigion.gov.uk/media/7295/terminoleg-covid-19-cymraeg-saesneg.pdf](http://www.ceredigion.gov.uk/media/7295/terminoleg-covid-19-cymraeg-saesneg.pdf)

**Gwasanaeth Y Wasg**




Mae **160** o ddatganiadau i'r wasg dwyieithog yn ymwneud â'r pandemig corornafeirws wedi eu rhannu o fewn y flwyddyn.

At hyn mae oddeutu 10 o faneri gwahanol wedi cael eu creu'n ddwyieithog ar gyfer eu gosod mewn trefi ar draws y Sir, sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd ynghylch y rheolau. Mae nifer helaeth o bosteri dwyieithog wedi'u creu ar gyfer busnesau er mwyn eu cynorthwyo i ddelio gyda'r argyfwng.

Rydym wedi bod yn defnyddio digwyddiadau nodedig yn ystod y flwyddyn i godi ymwybydiaeth.

**Diwrnod Shwmae 2020**

Yn ogystal â rhoi gwybod am y dulliau eang sydd ar gael ar gyfer dysgu Cymraeg ac annog eu defnydd; fe wnaethom gynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth, yn gofyn i aelodau staff a'r cyhoedd greu y gair Shwmae allan unrhyw ddeunydd o'u dewis, gan ddanfon llun o'r campwaith at ein sylw. Cafwyd nifer o geisiadau creadigol dros ben, ac oherwydd hyn fe wnaeth gwasanaeth Cardi Iaith greu fideo er mwyn arddangos ceisiadau'r buddugwyr.

DRAFT

**Dydd Gŵyl Dewi 2021** 




Ar ddydd Gŵyl Dewi fe wnaethom lansio fideo sy'n rhoi gwybod pam bod trigolion Ceredigion yn dymuno siarad Cymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor. At hyn fe wnaethom lansio sialens i godi hwyliau trigolion Ceredigion; sef  annog cymaint o bobl â phosibl i wneud fideo ohonynt eu hunain i'w roi ar y cyfryngau cymdeithasol yn taflu cenhinen, ei  thaflu yn bell, yn uchel, yn gyflym neu mewn unrhyw ffordd ddigri.

**Ymgyrch 'Mae gen i hawl'**

Ar y 7fed o Ragfyr 2020, bu sefydliadau cyhoeddus ar draws Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gynnal 'Diwrnod Hawliau'r Gymraeg'. Diwrnod yw hwn i ddathlu'r gwasanaethau Cymraeg mae sefydliadau'n eu cynnig, a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda nhw. Roedd yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ac i geisio cynyddu'r nifer sy'n dewis eu defnyddio. Dewiswyd y dyddiad er mwyn nodi'r dyddiad y cafodd y ddeddfwriaeth iaith ei phasio gan y Cynulliad yn 2010. Y nod yw gwneud hon yn ymgyrch flynyddol.  Fe wnaethom greu fideo byr oedd yn nodi'r hawliau, gan bostio ar ein cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â rhannu negeseuon mewnol gyda'n staff i nodi'r gwahanol hawliau sydd ganddynt hwythau.

**Llwyddiant yng Ngwobrau Cymraeg Gwaith y Ganolfan Genedlaethol**

Mae'r Cyngor yn falch iawn o lwyddiant ein darpariaeth dysgu Cymraeg i staff, ac wedi cael cydnabyddiaeth o hynny ar lefel cenedlaethol drwy ennill 3 gwobr fel a ganlyn:

1af Dysgwr sydd wedi gwneud y cynnydd gorau ar lefelau Sylfaen+
2il Dysgwr lefel Sylfaen+ sy'n gwneud y Defnydd Gorau o'r Gymraeg at bwrpas Gwaith
2il Tiwtor Cymraeg Gwaith y Flwyddyn.

DRAFT

## ADRAN 3: Trefniadau Cydymffurfio

**<u>Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1-87)</u>**

Mae'r set o safonau hyn nodi sut mae'n ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd, fel bod modd i siaradwyr Cymraeg gael mynediad di-rwystr at wasanaethau Cymraeg.; er enghraifft wrth anfon gohebiaeth, delio a galwadau ffôn, darparu gwasanaethau ar-lein neu wyneb yn wyneb.

Er mwyn cydymffurfio gyda'r dosbarth o Safonau yn ymwneud â darparu gwasanaethau, mae'r Cyngor wedi cymryd y camau gweithredu canlynol:

| **Rhif Safon** | **Gofyniad y Safon a Throsolwg o'r camau a gymerwyd i gydymffurfio** |
|---|---|
| 7,64,67,68 | Darparu'r Cynnig Rhagweithiol |
| | • Mae bathodynnau iaith gwaith ar gael i holl staff sy'n medru'r Gymraeg neu'n dysgu Cymraeg, er mwyn rhoi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth bod modd defnyddio eu Cymraeg.<br>• Mae'r cyfeirlyfr ffôn electronig yn arddangos bathodynnau iaith gwaith gyferbyn â pob Swyddog sy'n medru cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Mae papur pennawd corfforaethol yn ogystal ag e-byst allanol y Cyngor yn cynnwys datganiad sy'n croesawu defnyddio'r Gymraeg<br>• Pan fydd derbynfeydd ar agor. Mae posteri Iaith Gwaith yn cael eu harddangos ymhob ardal derbynfa, ac mae gweithwyr sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr Cymraeg yn gwisgo'r cordyn gwddf a/neu fathodyn Iaith Gwaith. |
| 1-7<br>8-22<br>37+38<br>40-49<br>50-51<br>69-70 | Darparu Gwasanaeth wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu'n ysgrifenedig. |
| | • Mae gwasanaeth gofal cwsmer Clic yn rhoi'r dewis iaith o'r cyswllt cyntaf, ac mae pob aelod o'r Tîm wedi derbyn cyfarwyddiadau ynghylch darparu gwasanaeth yn Gymraeg.<br>• Mae gwasanaeth Clic yn cofnodi dewis iaith, ond bydd angen ysytyried yn y cyfnod nesaf sut mae gwasanaethau eraill y Cyngor yn cofnodi dewis iaith.<br>• Mae Canllaw a chyfarwyddiadau i staff ynghylch cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg wedi'u cyhoeddi a'u rhannu<br>• Darparwyd sesiynau hyfforddiant i staff ynghylch ymwybyddiaeth iaith a gofynion Safonau'r Gymraeg<br>• Mae tudalen wedi'i neilltuo ar fewnrwyd y Cyngor, sef 'Iaith ar Waith' sy'n darparu cymorth i staff i ddefnyddio'r Gymraeg, fodd bynnag bydd hwn yn cael ei ddiweddaru a'i wella yn y cyfnod adrodd nesaf. |
| 24-29<br>30-38<br>87 | Cynnal cyfarfodydd a threfnu digwyddiadau cyhoeddus |
| | • Arfer sefydlog y Cyngor yw cynnal cyfarfodydd Democrataidd y Cyngor yn Gymraeg (80% o gyfarfodydd Democrataidd y Cyngor yn cael eu **Caderio** drwy gyfrwng y Gymraeg). Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ymhob cyfarfod Democrataidd y Cyngor er mwyn hwyluso defnydd iaith.<br>• Ar wahân i'r cyfarfodydd Democrataidd mae'r Cyngor yn trefnu nifer o gyfarfodydd gydag unigolion, aelodau'r cyhoedd a swyddogion o sefydliadau eraill, mae canllaw cynnal cyfarfodydd sy'n amlinellu gofynion Safonau'r Gymraeg wedi ei gyhoeddi a'i rannu.<br>• Bydd angen mireinio canllawiau yn y cyfnod nesaf, ynghylch cyfarfodydd sy'n cael eu trefnu ag unigolion, yn arbennig cyfarfodydd sy'n ymwneud â llesiant person.. |

| | |
|---|---|
| 38, 40,<br>47-51 | Agendâu, Cofnodion a Dogfennau Cyhoeddus eraill<br>• Mae llunio agendâu, cofnodion a phapurau atodol ar gyfer Cabinet a Phwyllgorau Craffu yn Gymraeg a Saesneg yn arfer sefydlog, ac mae'r rhain oll ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor.<br>• Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor, nad oes modd cyhoeddi dogfen at ddefnydd cyhoeddus oni bai bod fersiwn gorffenedig Saesneg a Cymraeg ar gael i'w gyhoeddi ar yr un pryd.<br>• Os oes angen llunio dogfen Cymraeg a Saesneg ar wahân, mae'n ofynnol gosod ymwadiad 'Mae'r ddogfen/ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.' |
| 52<br>55-56<br>58-59 | Gwefannau, apiau a gwasanaethau ar-lein, ynghyd â'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Rheolir cynnwys y wefan gan y Gwasanaeth TG er mwyn monitro ansawdd, ac ni chaiff unrhyw wybodaeth ei gyhoeddi hyd nes bod fersiwn Cymraeg a Saesneg cyflawn ar gael.<br>• Rheolir y prif gyfrif cyfryngau cymdeithasol y Cyngor gan Dîm y Wasg, gyda chyfrif Saesneg a chyfrif Cymraeg ar wahân.<br>• Mae 'Polisi Golygyddol a Gweinyddol ar gyfer Cyfryngau Cymdeithasol' wedi ei rannu'n eang, sydd hefyd yn egluro'r sut i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.<br>• Er mwyn ceisio codi ymwybyddiaeth ac annog defnyddwyr yn Gymraeg mae'r canlynol wedi'i gyflawni:<br>o Ar neges proffil trydar a facebook mae dolen i'r ffrwd Gymraeg, oddi ar y dudalen Saesneg.<br>o Yn chwarterol danfonir neges ar dudalennau facebook Saesneg y Cyngor yn rhoi gwybod bod y ffrwd ar gael yn Gymraeg<br>**Cyfrif Facebook:**<br>1,868 o ddilynwyr cyfrif Cymraeg; 13% o'r holl ddilynwyr; 650 yn fwy o ddilynwyr oddi ar Fawrth 2020.<br>**Cyfrif Twitter:**<br>2,458 o ddilynwyr cyfrif Cymraeg; 29% o'r holl ddilynwyr; 126 yn fwy o ddilynwyr oddi ar Fawrth 2020.<br>**Cyfrif Instagram** ddwyieithog: 1,074 o ddilynwyr |
| 61-63,70 | Arwyddion a Hysbysiadau<br>• Mae pob arwydd y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg yn cael ei osod mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf<br>• Mae pob hysbyseb wedi'i gyhoeddi yn ddwyeithiog yn ystod y pandemig, gan gynnwys ar y radio, yn y papur, mewn papur hysbysebion misol, sgrîns digidol, baneri a thudalennau gwe.<br>• Mae **160** o ddatganiadau i'r wasg dwyieithog yn ymwneud â'r pandemig corornafeirws wedi eu rhannu o fewn y flwyddyn. |
| 71-75<br>94 | Dyfarnu Grantiau<br>• Mae'r polisi ar ddyfarnu grantiau cymunedol wedi'i ddiwygio er mwyn cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg, ac wedi ei gyhoeddi ar y wefan gorfforaethol.<br>• Mae'r meini prawf ynghlwm wrth unrhyw gais am grantiau cymunedol, yn holi am dystiolaeth ynghylch cyfleoedd defnyddio'r Gymraeg |
| 76-80 | Dyfarnu Contractau<br>Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r gwasanaeth caffael i sicrhau bod gofynion Safonau'r Gymraeg wedi'i ymgorffori wrth gontractio neu gomisiynu gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn medru cynghori swyddogion o'r math o gymalau y mae angen iddynt eu cynnwys wrth gomisiynu neu gontractio gwaith er mwyn sicrhau cydymffurfiad. |

| | |
|---|---|
| 84 a 86 | Cyrsiau Addysg sy'n agored i'r cyhoedd |
| | • Mae canllaw 9 **Cam** wedi'i rannu gyda'r Gwasanaeth Dysgu Bro (Gwasanaeth Addysg Oedolion yn y Gymuned) a'r Gwasanaeth Hamdden, er mwyn helpu'r gwasanaeth i asesu lefel y galw am y cwrs yn Gymraeg.<br>• Gofynnir i ddefnyddwyr gwasanaeth a ydynt yn dymuno derbyn y cwrs yn Gymraeg adeg cofrestru. |
| 81 -82 | Codi Ymwybyddiaeth am y Gwasanaethau Cymraeg |
| | • Mae gwybodaeth am holl wasanaethau'r Cyngor ar wefan y Cyngor yn ddwyieithog.<br>• Ceir dogfen ar y wefan yn nodi'r Safonau y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy.<br>• Mae dogfen Datganiad Polisi Y Cyngor hefyd ar gael i'w lawr lwytho ar wefan y Cyngor, sy'n nodi ymrwymiad y Cyngor i gefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg, gan sicrhau bod ei wasanaethau a'i weithgareddau yn hyrwyddo ac yn hybu defnydd o'r Gymraeg ledled y Sir.<br>• Mae'r Cyngor wedi trefnu ymgyrchoedd er mwyn rhoi gwybod am y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael, gan ddefnyddio diwrnodau penodedig i wneud hynny ee: Diwrnod Shwmae , Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Hawliau. |

DRAFT

**<u>Cydymffurfio â Safonau Llunio Polisi (Safon 88-89)</u>**

**Safonau Llunio Polisi** - yn canolbwyntio ar gyflawni asesiad effaith o'r iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, a chymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo defnydd o'r iaith

Er mwyn cydymffurfio gyda'r dosbarth o Safonau yn ymwneud â llunio polisïau, mae'r Cyngor wedi cymryd y camau gweithredu canlynol:

| **Rhif Safon** | **Trosolwg o'r camau a gymerwyd i gydymffurfio** |
|---|---|
| 88-90<br>94 | **Llunio neu Adnewyddu Polisi:** |
| | • Rhaid asesu effaith unrhyw benderfyniad polisi, ar allu siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, ac er mwyn gwneud hyn, rydym wedi datblygu templed a chanllawiau Asesu Effaith Integredig. Mae'r templed asesu effaith yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf Cydraddoldeb ynghyd â Deddfwriaeth yr Iaith Gymraeg.<br>• Rhaid cyflwyno'r ddogfen Asesiad Effaith gydag unrhyw ddogfen bolisi sy'n cael ei hystyried gan Gabinet y Cyngor- mae hyn yn darparu gwarant bod ystyriaethau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi'u hystyried wrth lunio'r ddogfen; a bod mesurau lliniaru wedi eu nodi er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg. |
| 92-93 | **Cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus** |
| | Mae'n ofynnol bod Swyddogion yn (i) ystyried effaith y penderfyniad ymgynghorol, ar y defnydd o'r iaith Gymraeg, ac (ii) mae'n rhaid holi barn y cyhoedd ynghylch unrhyw effaith y penderfyniad arfaethedig ar yr iaith Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| | • Er mwyn cefnogi swyddogion i weithredu'r gofyniad, rydym wedi datblygu set o gwestiynau y gellid eu defnyddio wrth ymgymryd ag unrhyw ymgynghoriad.<br>• At hyn, rydym wedi gosod y drefn bod rhaid cysylltu fel y cam cyntaf mewn unrhyw brosiect ymgynghori, gyda'r Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb, er mwyn sicrhau rheolaeth gorfforaethol. |
| 95-97 | **Cynnal ymarferion ymchwil** |
| | Canllaw wedi ei gyhoeddi ar CeriNet ynghylch holi barn ar y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn unrhyw waith ymchwil |

**Cydymffurfiaeth â Safonau Gweithredu (99-144)**

Mae'r set o **Safonau Gweithredol (98-144), yn** ymdrin â'r ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, ac yn darparu hawliau i weithwyr yng nghyd-destun derbyn eu gwasanaeth adnoddau dynol yn eu dewis iaith. Mae'r set o Safonau yn gofyn i'r Cyngor edrych ar ddulliau i gynyddu a hwyluso defnydd y Gymraeg yn fewnol, er mwyn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru i weld mwy o bobl yn siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg o dydd i ddydd.

Er mwyn cydymffurfio gyda'r dosbarth o Safonau yn ymwneud â gweithredu mewnol, mae'r Cyngor wedi cymryd y camau gweithredu canlynol:

| Rhif Safon | Trosolwg o'r camau a gymerwyd i gydymffurfio |
|---|---|
| 98 | Polisi Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg yn Fewnol |
| | Mae'r Cyngor wedi llunio Polisi er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth fewnol, ac mae'r ddogfen hon wedi ei chyhoeddi ar Cardinet (mewnrwyd y Cyngor). At hyn mae rheolwyr a staff wedi cael gwybod am y Safonau Gweithredol a hawliau gweithwyr. |
| 99-104 | Darparu dogfennau cyflogaeth yn Gymraeg |
| | • Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn cynhyrchu contractau cyflogaeth yn ddwyieithog.<br>• Gofynnir i staff ym mha iaith yr hoffent dderbyn gohebiaeth bersonol yn ymwneud â chyflogaeth.<br>• Rhoddir dewis iaith i staff y Cyngor wrth geisio mynediad i system ddigidol adnoddau dynol; yn unol â hyn mae staff yn medru archebu gwyliau, cofnodi absenoldeb o'r gwaith a chofnodi oriau hyblyg yn y Gymraeg.<br>• Mae dogfennaeth arfarnu blynyddol ar gael yn Gymraeg, mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn gweithio i sicrhau bod y ffurflen yn gweithio'n ddigidol hefyd. |
| 105-111 | Darparu Polisïau Adnoddau Dynol yn Gymraeg |
| | Holl bolisïau adnoddau dynol yn cael ei darparu'n ddwyieithog i staff ar Cerinet (mewnrwyd y Cyngor) |
| 112-119 | Y drefn gwyno a disgyblu |
| | Mae'r polisi ynghylch y drefn gwyno a phroses disgyblu yn rhoi gwybod i staff bod ganddynt hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg |
| 120-126 | Y fewnrwyd ac adnoddau TGCh |
| | • Mae CeriNet, mewnrwyd y Cyngor yn gwbl ddwyieithog. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Mae Newyddion HR News yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg, ac mae staff yn medru dewis iaith ar gyfer derbyn yr ohebiaeth.<br>• Mae tudalen ddynodedig ar gael ar CeriNet i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru yn y cyfnod adrodd<br>• Mae meddalwedd Cysgliad, er mwyn gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg ar gael ar bob cyfrifiadur. |
| 127 | Asesu Sgiliau Iaith y Gweithlu |
| | Mae sgiliau iaith staff yn cael ei gofnodi yn ystod y broses recriwtio a'r gwerthusiad blynyddol. Cedwir cofnod o'r sgiliau iaith ar CeriNet. Ceir dadansoddiad o ganlyniad sgiliau iaith y gweithlu ar gyfer y flwyddyn adrodd yn Adran 4, a cheir adroddiad llawn sgiliau iaith yn Atodiad 1. |
| 128-133 | Safonau ynghylch meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu |
| | • Drwy bartneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol cyflogir Tiwtor Cymraeg Gwaith i ddarparu hyfforddiant ar ystod o wahanol lefelau i ddysgu Cymraeg<br>• Darperir hyfforddiant i ddatblygu a chodi hyder siaradwyr Cymraeg, er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.<br>• Mae'r hyfforddiant anwytho yn cyfeirio at y gofyniad i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg.<br>• Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ynghyd â gweithredu Safonau'r Gymraeg ar gael i staff<br>• Mae trefniadau yn eu lle fel bod staff yn gallu gwneud cais i dderbyn cyrsiau hyfforddi corfforaethol drwy gyfrwng y Gymraeg; byddwn yn gweithio i wella ar y ddarpariaeth yn y cyfnod adrodd nesaf.<br>Ceir dadansoddiad o ganlyniad hyfforddiant y gweithlu ar gyfer y flwyddyn adrodd yn Adran 4. |
| 134-135 | Geiriad a logo ar gyfer llofnod e-bost staff |
| | Dosbarthwyd cyfarwyddiadau ar sut i osod logo iaith gwaith ar lofnodion e-byst, sut i osod cyfeiriad dwyieithog ynghyd ag awgrymiadau ar osod negeseuon allan o'r swyddfa ddwyieithog i'r staff. |
| 136-137 | Recriwtio ac apwyntio |
| | • Mae'n ofynnol i Reolwyr Recriwtio asesu'r Lefel ALTE sydd ei hangen ar gyfer pob swydd, a darparu'r rhesymeg dros ganlyniad yr asesiad fel rhan o'r broses Caniatâd i Lenwi Swyddi Newydd<br>• Bydd y lefel sgil sydd ei hangen ar gyfer y 4 sgil (siarad, ysgrifennu a darllen) i'w gweld yn y swydd ddisgrifiad.<br>• Mae sgiliau cwrteisi sylfaenol yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob<br>• swydd newydd o fewn y Cyngor. Mae'n rhaid i ymgeisydd llwyddiannus ennill leiaf Lefel 1 o fewn 6 mis i'w benodiad, a chaiff gefnogaeth i wneud hynny.<br>• Mewn achosion lle na fu'n bosibl penodi swyddog sy'n bodloni'r gofynion iaith yn llawn, gosodir cymal yn y cytundeb cyflogaeth ynghylch yr ymrwymiad fydd ei angen i gyrraedd y lefel sgiliau Cymraeg disgwyliedig. |
| 137-140 | Ffurflenni Cais a Threfniadau Cyfweliad am Swydd |

| | |
|---|---|
| | • Mae ffurflenni cais ar gael yn ddwyieithog drwy'r system electronig e-recriwtio Ceri, ac mae ymgeisydd yn gallu gwneud cais am unrhyw swydd yn ei ddewis iaith.<br>• Mae llythyrau cynnig i gyfweliad yn rhoi lle i unigolion nodi os ydynt yn dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cyfweliad.<br>• Polisi y Cyngor yw ceisio sicrhau bod o leiaf un siaradwr Cymraeg ar y Panel Cyfweld, lle nad yw hyn yn bosib darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os yw'r ymgeisydd wedi nodi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad |
| 141-144 | Arwyddion a chyhoeddiadau a arddangosir yn y gweithle |
| | Polisi y Cyngor yw gosod pob pob arwydd (neu gyhoeddiad dros offer sain) yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg yn cael ei osod mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf. Mae hyn yn cynnwys arwyddion dros dro ac arwyddion sefydlog. |

<u>**Cydymffurfiaeth a'r Safonau Hybu (Safonau 145-146)**</u>

Camau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio gyda'r Safonau Hybu.

Yn 2018 cafodd Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23 newydd y Cyngor ar gyfer hybu'r Gymraeg ei gyhoeddi yn unol â'r gofyniad yn y Safonau. Mae'r Strategaeth yn esbonio sut bydd y Cyngor ar y cyd gyda sefydliadau partner eraill (Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion) yn mynd ati i hybu'r Gymraeg, ac i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal ac yn gosod targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r weledigaeth wedi'i osod erbyn Cyfrifiad 2021 i weld cynnydd yn y nifer sy'n siarad Cymraeg a bod y ganran yn codi o 47.3% i o leiaf 48.5% (sef oddeutu 1,500 yn fwy o siaradwyr Cymraeg).

Ar gyfer y strategaeth hon, cytunodd Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion i ganolbwyntio ar 3 nod strategol, fel a ganlyn:

**Nod Strategol 1:** Cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion
**Nod Strategol 2:** Cynnal a chynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion
**Nod Strategol 3**: Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion.
Gellir gweld copi o'r Cynllun Gweithredu yma:
http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/iaith-gymraeg/hyrwyddo-a-hwyluso-r-iaith-gymraeg/

Mae Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn gweithio er mwyn sicrhau cyflawniad y Strategaeth Iaith, ac mae'r aelodau yn cynnwys Swyddogion y Cyngor ynghyd â Swyddogion o sefydliadau partner sydd wedi ymrwymo i gyd-weithio er budd yr iaith Gymraeg ar draws y Sir. Oherwydd y sefyllfa gyda Cofid 19, mae'r Cyngor yn bryderus y gallai'r pandemig arafu ein cynlluniau, ac ar ein gallu i gyrraedd ein targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ynghyd â'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion, erbyn diwedd oes y Strategaeth gyfredol. Oherwydd hyn mae Aelodau'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog wedi cydsynio i drefnu is-grwpiau gwaith er mwyn mynd i'r afael gyda'r 3 Nod Strategol yn y Strategaeth Iaith, ac er mwyn edrych ar brosiectau penodol. At yn, yn dilyn pryder bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn lleihau yn ystod y cyfnod clo, fe aethpwyd ati i gasglu tystiolaeth a chyflwyno adroddiad yn seiliedig ar y pwyntiau canlynol:

- cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfnod clo

DRAFT

- yr heriau neu rwystrau
- cynllunio ar gyfer y cyfnod addasu, ynghyd â'r cyfnod adfer tymor hir.
- ystyried beth allwn ni ei wneud yn well  er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Daeth yr adroddiad i gasgliad taw'r her fwyaf yw sicrhau fod tlodi digidol yn cael sylw. Bod angen trefnu rhaglenni hyfforddiant er mwyn cyrraedd ein trigolion sy'n swil o ddefnyddio technoleg. Sicrhau bod ein gweithgareddau yn gynhwysol, a bod mwy o sylw yn cael ei roi ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer pobl hŷn ein cymdeithas; yn ogystal â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd cymdeithasol amgen yn ystod y cyfnod clo.

Prif gyflawniadau Strategaeth Iaith Ceredigion 2020-21 o dan amgylchiadau Covid-19.


**Nod Strategol 1: Cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion**

Mae'r cyfnod adrodd hwn yn cwmpasu cyfnod anferthol o heriol ar gyfer ein Gwasanaeth Addysg, wrth geisio dygymod gyda sefyllfa'r pandemig, ac addasu'n gyflym i weithdrefnau amgen. Lles staff a disgyblion fu'n flaenoriaeth bennaf ar ddechrau'r cyfnod clo, gyda'r awdurdod yn sefydlu canolfannau gofal i blant gweithwyr allweddol a'r plant mwyaf bregus mewn cymdeithas. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bu i nifer o swyddogion a gweithlu'r awdurdod gael eu hadleoli i reoli yn ogystal â staffio'r canolfannau hyn. Yn ystod y cyfnod clo bu'n rhaid ymateb yn barhaus i sefyllfa oedd yn newid yn gyflym gan gefnogi ysgolion i ddarparu adnoddau a mesurau amrywiol i'w disgyblion wrth iddynt eu haddysgu o bell.

Yn ystod y cyfnod hefyd, mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio'n ddiwyd i gyflawni'r addewidion yn  ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg; ac at hyn yn gweithio i baratoi Cynllun Strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2022-2033 sy'n adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes mewn lle.  Gweledigaeth y gwasanaeth yw bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i ddatblygu yn ddinasyddion dwyieithog hyderus sy'n ymfalchïo yn eu diwylliant Cymreig ac yn eu Cymreictod.

Yn unol â'r addewidion sydd wedi'i gosod yn Strategaeth Iaith Ceredigion mae'r gwasanaeth wedi bod yn rhoi'r pwyslais ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws ystod ei wasanaethau. Ers 1af o Fedi 2019 mae'r gwasanaeth wedi penodi Swyddog Datblygu'r Gymraeg mewn Addysg, sydd â chyfrifoldeb o arwain yn strategol ar Siarter Iaith Ysgolion. Nod y Siarter Iaith yw dylanwadu'n bositif ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg; mewn gair, cael y plant i siarad Cymraeg yn naturiol ymysg ei gilydd.  Mae cyfanswm o 39 o Ysgolion Cynradd o fewn y Sir, ac mae llwyddiannau cyrraedd y siarter iaith fel hyd yma fel a ganlyn:

<u>Ysgolion Cynradd Ail Iaith:</u>
Gweithio tuag at yr Efydd: 1 ysgol
Wedi cyrraedd lefel Efydd: 1 ysgol
Arian: 3
Wedi cyrraedd lefel Arian: 3 ysol
<u>Ysgolion Cymraeg</u>
Efydd: 3
Wedi cyrraedd lefel Efydd: 14 ysgol
Efydd: 1
Gweithio Tuag at Arian: 10 ysgol
Wedi cyrraedd Arian: 7 ysgol




<u>Ysgol Gydol Oes</u>
Gweithio tuag ar yr

<u>Ysgolion Uwchradd</u>
Gweithio tuag ar yr

Wedi cyrraedd yr

DRAFT


Prosiect allweddol arall yw lansio tudalen facebook Cardi Iaith, ar ddiwrnod Shwmae 15 hydref; gyda'r pwrpas o hyrwyddo'r Gymraeg yn gymdeithasol, dathlu llwyddiannau'r Siarter Iaith a chynnig cyfleoedd ac adnoddau i blant, pobl ifanc a rhieni dros y cyfnod clo. Mae gan y safle 958 o ddilynwyr a 913 o hoffwyr hyd yma. Wedi cynnal Eisteddfod Cardi Iaith, ac wedi dathlu diwrnodau cenedlaethol ee Dydd Miwsig Cymru ar y platform digidol, ymysg amryw o weithgareddau eraill er budd ennyn diddordeb i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn cynnal 3 canolfan iaith; Canolfan y Castell, Aberteifi a Chanolfan y Felin yn Felinfach yn darparu gwersi ar gyfer hwyrddyfodiaid cynradd. Bu'r ganolfan arall (a sefydlwyd dros dro yn Ysgol Bro Teifi) yn cynorthwyo'r disgyblion hynny oedd naill ai angen ymarfer sgiliau neu oedd yn arafach yn caffael yr iaith. Fodd bynnag oherwydd argyfwng y pandemig, gorfu newid cynlluniau'n gyflym i greu man canolog i gefnogi'r disgyblion a hynny drwy rhwydwaith MS Teams dros y cyfnod clo.Cefnogwyd 18 hwyddyfodwr cynradd a 29 o ddisgyblion Uwchradd trwy ddefnyddio'r system hon.

Wrth i'r sefyllfa barhau a gyda mwy o hwyrddyfodiaid yn cyrraedd ein hysgolion ym mis Medi, sylweddolwyd na fyddai'n bosibl rhedeg canolfan newydd wyneb yn wyneb, felly gan ddilyn yr un egwyddorion, sefydlwyd grwpiau bach o ddisgyblion trwy MS Teams. Roedd y grwpiau yma yn llai o lawer na'r grwpiau wyneb yn wyneb ond gallwyd grwpio'r disgyblion wrth eu hoedrannau a oedd yn fuddiol. Mae 44 o ddisgyblion yn elwa o'r cynllun. Dyfyniad gan Rieni:
"Ydy, mae wedi bod yn ffordd dda a hwyliog o ddysgu patrymau iaith."
"Mae fy mhlentyn wedi elwa'n fawr o'r gwersi ar -lein."
"Ydyn, yn fuddiol dros ben. Mae'r disgybl wedi magu hyder wrth siarad gyda chyfoedion a gwella ei dealltwriaeth ar lawr y dosbarth. Mae'n hapus iawn i ymateb yn y dosbarth yn y Gymraeg yn gyntaf yn awr. "

DRAFT

Noder mae'r gwasanaeth addysg o'r farn nad yw'r system hwn yn medru cymharu gyda'r system drochi wyneb yn wyneb. Nid yw'r datblygiad na chyflymder y datblygiad hwnnw cystal am fagu hyder a defnydd o batrymau addas mewn awyrgylch ddiogel lle mae pawb yn yr un man. Fodd bynnag, wrth ystyried y cyfyngiadau, mae'r cwrs hwyrddyfodiaid wedi caniatáu mynediad i ddisgyblion i'r Gymraeg ac wedi bod o gymorth i'r ysgolion i gefnogi'r disgyblion ar eu taith ieithyddol mewn cyfnod anodd iawn.




Mae'r gwasanaeth eisoes wedi cyhoeddi a rhannu'n eang canllaw 'Byw a Bod', sy'n darparu gwybodaeth ynghylch byw yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog yng Ngheredigion. Isod ceir linc ar gyfer fideo Byw a Bod sydd wedi bod yn arf llwyddiannus wrth annog rhieni a disgyblion i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac i leddfu ar unrhyw bryderon. Rhannwyd hwn ar ddechrau'r cwrs gyda'r disgyblion eu rhieni a'r ysgolion.

https://youtu.be/-5-YpvvL2vg

**Nod Strategol 2: Cynnal a chynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion**

Yn dilyn ail-strwythuro o fewn Cyngor Sir Ceredigion, sefydlwyd Gwasanaeth Diwylliant, er mwyn cydlynu gwaith cymunedol wrth hyrwyddo diwylliant ynghyd â'r iaith Gymraeg ar draws y Sir; mae Menter Iaith Cered, ynghyd â Theatr Feflinfach yn rhan o'r gwead newydd hwn ymysg mentrau diwylliannol eraill mae'r Cyngor yn eu cefnogi. Bu 2020-21 yn gyfnod heriol i'r Gwasanaeth Diwylliant ac fel pob Gwasanaeth arall fe'u gorfodwyd i adolygu ag ail asesu er mwyn canfod ffyrdd newydd i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd a pharhau i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig. Yn dilyn cau'r holl ganolfannau ddechrau mis Ebrill aethpwyd ati i gynllunio ar gyfer creu darpariaeth ddigidol gan geisio sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl o bob oed.

Un o'r datblygiadau pwysig i CERED oedd llunio tudalen Facebook ar y cyd gyda Menter Iaith Sir Benfro. Y bwriad oedd creu amserlen o weithgaredd bob wythnos gan gydweithio er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn rhannu arbenigedd. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae tudalen "Cica Corona" wedi cyhoeddi amserlen o weithgaredd lawn bob wythnos gydag amrywiaeth eang o weithgareddau i bob oed. Rhannwyd y gweithgareddau hynny ar dudalen Facebook CERED yn ogystal. Mae'r arlwy wedi cynnwys eitemau sy'n cynnig ffeithiau diddorol, cystadlaethau, gweithgareddau hwyl, gemau a phosau. Mae'r dudalen wedi parhau yn boblogaidd trwy gydol y flwyddyn.

Dros y flwyddyn mae tudalen Facebook Cica Corona wedi sicrhau cyrhaeddiad o 103,020 ac ymgysylltiadau o 1,305,662 a thudalen CERED wedi sicrhau cyrhaeddiad o 14,080 ac ymgysylltiadau o 293,756.

Yn ogystal bu tudalen Cica Corona yn sail i weithgareddau byw trwy gyfrwng Zoom gan gynnwys gweithgareddau i deuluoedd a phlant dan 4 oed megis Sesiynau Siani Sionc a Do Re Mi ac yna sesiynau i blant yn cynnwys Gwener Grwfi, Sesiynau Disgo a Chlwb Criw Creu yn cynnig amrywiaeth o weithgaredd byw cerddorol a chreadigol.

Yn yr un modd datblygwyd platfform digidol Dychmygus ar dudalennau cymdeithasol Theatr Felinfach yn bennaf ar gyfer plant a phobl ifanc ond gan gynnwys peth gweithgaredd ar gyfer oedolion a phobl hŷn hefyd. Cynigwyd gweithgareddau amrywiol fel Dramâu Meicro, Sesiynau Dawns a Choluro a sesiynau drama.

Sefydlwyd Gŵyl yr Enfys yn ystod 2020 gan y Theatr – gŵyl ddigidol gan dynnu dros 20 o bartneriaid amrywiol at ei gilydd i gyfrannu cynnwys ar themâu, Iechyd Da Ceredigion, Ceredigion Greadigol, Cymunedau Ceredigion a Dathlu Ceredigion. Cymraeg oedd prif iaith yr ŵyl, gyda rhai cyfraniadau dwyieithog a Saesneg. Cyrhaeddodd yr ŵyl dros 80,000 o bobl drwy ymweliadau i wefan gwylyrenfys.cymru ac i'n tudalennau cymdeithasol.

Ar gyfer y boblogaeth hŷn mae CERED hefyd wedi cynnig profiadau cyfranogol trwy gyfrwng Zoom er mwyn tynnu pobl at ei gilydd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r arlwy hynny wedi cynnwys :

- Prosiectau Theatr Soffa –cyfle i dynnu pobl at ei gilydd gyda'r nod o berfformio drama i gynulleidfaoedd trwy gyfrwng Zoom. Cafwyd dau berfformiad o Dan y Wenallt yn ystod misoedd yr haf ac yna perfformiad o dair gomedi Gymraeg "Bynji Jymping" ym mis Mawrth eleni.
- Sesiynau Sgyrsio trwy Zoom– sesiynau Dished am Ddau bob dydd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf gan roi cyfle i unrhyw rai ymuno mewn sgwrs dros baned. Yn yr un

modd cynhelir sesiwn sgyrsio i Siaradwyr Newydd mewn partneriaeth a Hwb Penparcau bob bore Llun ac mae'r sesiynau hynny yn parhau. .

- Iwcazoomadwli – mae cerddorfa Iwcadwli wedi cyfarfod trwy gyfrwng Zoom ar hyd y flwyddyn
- Cwmni 'Rôl Cinio – cyfweliadau bob dydd Iau gydag unigolion adnabyddus trwy gyfrwng Zoom yn cael eu cyhoeddi yn fyw ar Cica Corona. Gwesteion amrywiol gan gynnwys Mererid Hopwood, Adam yn yr Ardd, Eddie Ladd a Meleri Wyn James.

Mewn blwyddyn arferol un o uchafbwyntiau'r Theatr o ran darpariaeth Gymraeg yw y Pantomeim ac felly un o'r heriau mwyaf eleni oedd creu a darlledu pantomeim cymunedol, digidol wedi ei datblygu, ei sgriptio a'i pherfformio gan wirfoddolwyr o'r gymuned. Serch y sialens o greu fersiwn ddigidol o sioe fawr, fyw, bu'n brofiad gwerthfawr i'r cast a chriw a denwyd dros 2,600 o wylwyr/cynulleidfa.

Mae gwasanaeth Helo Blod wedi parhau i gynnig cyngor a chymorth i fusnesau ar ddefnydd o'r Gymraeg drwy gyfarfodydd ar lein a thrwy gynnal gwahanol weithgareddau ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol CERED. Derbyniodd 46 Busnes cymorth dwys gan y Swyddog Helo Blod lleol a chyfeiriwyd 159 busnes at wasanaeth cyfieithu y Llywodraeth.

Wrth edrych i'r dyfodol a chan obeithio y bydd modd dechrau cynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb unwaith eto mae'r Gwasanaeth yn cynllunio ar gyfer darpariaeth sydd yn adeiladu ar lwyddiannau 2020-21 ond yn cymryd i ystyriaeth y gwersi a ddysgwyd sef:

- Mae gwerth i ddarpariaeth ddigidol a chyfle i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd
- Mae modd creu darpariaeth ddigidol gyffrous ac arloesol
- Mae tlodi digidol yn gwadu cyfleoedd i rai
- Mae rhai elfennau o weithgaredd arferol y gwasanaeth yn anodd ei gynnig yn ddigidol
- Mae blinder digidol yn gallu effeithio defnyddwyr a darparwyr

Rhagwelir y bydd ein darpariaeth i'r dyfodol yn gyfuniad o weithgaredd wyneb i wyneb a gweithgaredd ddigidol, gan sicrhau ystod eang o gyfleoedd difyr a diddorol er mwyn gwarchod defnydd y Gymraeg ar draws cymunedau yng Ngheredigion.

DRAFT

**Nod Straegol 3. Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion**

**Rhoi Hwb i Economi Ceredigion Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35**
Dros gyfnod Rhagfyr 2020 ac Ionawr 2021 ymgynghorodd Cyngor Sir Ceredigion â thrigolion a busnesau ar Strategaeth Economaidd ddrafft ar gyfer y cyfnod 2020 i 2035. Mae'r Strategaeth Economaidd wedi adnabod pwysigrwydd iaith a diwylliant Cymraeg y Sir gan nodi y rôl y gall hyn chwarae yn natblygiadau economaidd y sir. Mae'r Strategaeth hon hefyd yn cefnogi ein hamcanion o ran gwarchod cymunedau, a sicrhau diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'r Strategaeth yn nodi camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â chryfhau sgiliau yn lleol, sicrhau gwaith o safon i bobl yn lleol, cynlluniau ar gyfer datblygu a chefnogi mentergarwch, ynghyd â chryfhau cysylltedd digidol. Yn ei hanfod, bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy sicrhau bod gan y rhai sy'n siarad Cymraeg yr hyder, y sgiliau a'r cyfleoedd i ddatblygu busnesau, i weithio mewn swyddi o werth uwch, ac i weld Ceredigion fel lle ffyniannus ac egnïol i fyw a gweithio ynddo.

**Cyngor Sir Ceredigion wedi gweinyddu Grant Cyfalaf Busnesau Bach (Ionawr i Fawrth 2021)**

Nod y Grant Cyfalaf Busnesau Bach oedd cynorthwyo busnesau newydd a busnesau bach presennol gyda'u cynlluniau twf a/neu adfer yn ystod pandemig Covid-19, drwy roi cyfraniadau ariannol tuag at wariant cyfalaf. Roedd y cynllun grant wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gyflenwi gan Gyngor Sir Ceredigion. Yn rhan o'r pecyn dyfarnu'r grantiau, penderfynodd y Cyngor holi ynghylch defnydd iaith; mae'r cam hwn wedi cael cydnabyddiaeth o arfer da gan Lywodraeth Cymru. Wrth wneud hyn, mae'n bosib cael braslun o'r modd mae cwmnïau'n gwneud defnydd o'r Gymraeg; ac os yw'r defnydd yn cael ei hystyried yn isel mae modd eu hatgyfeirio at gynllun Helo Blod yn ddiweddarach.

**Cynllun Cynnal y Cardi**

Mae Cynllun Cynnal y Cardi yn parhau i holi darpar ymgeiswyr ynghylch sut bydd eu cynlluniau arfaethedig yn cyfrannu at hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg. Dyma grynodeb o rai o'r prosiectau llwyddiannus:

- Mae 'Prosiect Fory' yn cael ei arwain gan Radio Beca; gyda'r bwriad i greu grwpiau Darlledu Cymdeithasol yng nghymdogaethau traddodiadol Gymraeg sir Benfro, sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae wedi galluogi datblyiad grwpiau trafod sydd wedi ysgogi trafodaeth o amgylch nifer o agweddau sy'n effeithio ar gymunedau gwledig Ceredigion.
- Creu adnoddau digidol ar-lein er mwyn medru parhau i ddarparu cefnogaeth i Ddefnyddwyr gwasanaeth (i) Peilota cyrsiau digidol yn ymwneud â coetir e.e. Rheoli Coetir Cynaliadwy, Gwaith Coedwigaeth. (ii) peilota seminarau digidol i weithwyr iechyd proffesiynol yn ymwneud â phresgripsiynau cymdeithasol gwyrdd er mwyn gwella cyfathrebu a dysgu am y pwnc, yn ogystal â chreu adnoddau ar-lein a fydd yn medru cael eu rhannu'n eang a'u defnyddio yn y dyfodol.
- Cydweithio gyda mentrau sy'n edrych i ddatblygu adeiladau cymunedol ar gyfer perchnogaeth gymunedol. Adeiladau y gall fod o dan fygythiad i gau, yn hyn o beth mae angen cefnogaeth er mwyn adnabod y posibiliadau ar gyfer datblygu menter cymunedol. Bydd hyn yn cyfrannu at gynaliadwyedd a hyfywedd ein cymunedau gwledig gydag iaith a diwylliant yn rhan ganolog o'r cynlluniau arfaethedig.
- Dysgu gan ardaloedd a rhannu arfer da yng nhyd destun iaith a diwylliant. Roedd bwriad yn 2020 i ymweld ag ardal Cernyw er mwyn dysgu a thrafod rhai themâu megis 'Tai, Iaith a Gwaith', a hynny mewn ardal sydd â thebygrwydd o ran polisi gwledig a thwristiaid. Yn anffodus oherwydd Covid bu raid gohirio, ond y bwriad yw i ail drefnu ar gyfer Hydref 2021.

  **"Cysylltu Ceredigion"**

  Cynllun a ariennir yn rhannol gan Cynnal y Cardi ac Ardal Twf a Menter i gyflogi Swyddog Datblygu Digidol ar gyfer Ceredigion, er mwyn gweithio gydag unigolion, cymunedau, sefydliadau a busnesau i wella mynediad a'u defnydd o dechnoleg ddigidol.

ARFOR
Creu Gwaith - Cefnogi'r Iaith

Cynllun dros ddwy flynedd i dreialu dulliau arloesol o hyrwyddo entrepreneuriaeth, twf busnes, cydnerthedd cymunedol a'r Gymraeg yn rhanbarth Arfor (siroedd Ceredigion, Caerfyrddin, Gwynedd ac Ynys Môn.) Ers dechrau'r cynllun mae Ceredigion wedi dyrannu gwerth

DRAFT

£475,000 o grantiau i 31 o fusnesau yng Ngheredigion. Mae'r cynllun Mentro Mewn Busnes, wedi helpu 17 o gwmnïau i sefydlu o'r newydd, at hyn mae 14 o gwmnïau wedi derbyn cymorth o dan y cynllun Mynd am Dwf. Mae'r sefydliadau oll wedi cael eu gwirio o ran eu defnydd o'r iaith Gymraeg, neu wedi eu cyfeirio at gynllun Cymraeg Busnes 'Helo Blod' er mwyn medru gosod cynlluniau arfaethedig i wneud defnydd o'r Gymraeg. O ran adborth mae'r busnesau a gafodd eu cymeradwyo cyn ac ar ddechrau'r cyfnod clo wedi nodi bod Cynllun Arfor wedi'u galluogi i ymateb yn rhagweithiol i'r pandemig, ac maent wedi llwyddo i addasu eu cynlluniau busnes yn gyflym iawn. Bydd rhaglen Arfor yn cael ei gwerthuso'n fanwl, ac fe gyflwynir adroddiad terfynol ar ddiwedd y cynllun ym mis Ebrill 2021

**Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg**

Bydd y Cyngor Sir yn hybu ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg trwy ddynodi Ceredigion, yn ei chyfanrwydd, yn sensitif yn ieithyddol. Darperir ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (trwy ddull priodol) o ddatblygu annisgwyl trwy bolisi DM01 a hybu ymdeimlad unigryw o le trwy bolisi arwyddion dwyieithog cryfach DM08.

Y diweddariad o ran datblygu cynllun newydd ar gyfer Ceredigion. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cymru'r Dyfodol y Cynllun Cenedlaethol 2040 fel canllawiau cynllunio cenedlaethol swyddogol; mae'r canllaw hwn yn newid y strwythur ar gyfer y prosesau llunio polisi cynllunio, ac yn cyflwyno dyfodol llunio cynlluniau ar sail ranbarthol. Mae hyn wedi arwain at ddadl dros statws cynlluniau datblygu lleol, cydamseru eu paratoad mewn perthynas â Chynllun Datblygu Strategol. Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn agosáu at ddiwedd ei gyfnod penodol fel y cynllun (2022). Oherwydd hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y bydd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn aros fel y cynllun datblygu mabwysiedig statudol nes bydd cynllun newydd yn cael ei fabwysiadu.

Er bod y prosesau swyddogol o lunio cynllun newydd wedi'u gohirio, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ailasesu methodoleg yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg sy'n briodol ar bob cam proses y cynllun datblygu. Roedd y Strategaeth a Ffefrir 2019 ac ataliwyd dros dro yn destun Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg mewn ymateb i baragraff 2.1.5 yn y TAN20 diweddaraf, dadansoddiad yn seiliedig ar fethodoleg 'Iaith Gymraeg - Y Ffordd Ymlaen' 2005 a ddefnyddiwyd yn helaeth ond na chafodd ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae tîm y CDLl yn cynnal adolygiad o fethodoleg amgen gan y Ganolfan Iaith sy'n darparu ar gyfer asesiad risg o effeithiau daroganol o ystyried mentrau polisi cyhoeddus a nodau ar gyfer yr iaith Gymraeg ac yn sicrhau perthynas agos rhwng asesiad o gydnerthedd y Gymraeg a phob elfen proses cynhyrchu CDLl, nid yn unig ar effaith dyraniadau tir. Mae tîm y CDLl hefyd yn paratoi tystiolaeth o gynaliadwyedd aneddiadau gwledig yng Ngheredigion, sy'n cynnwys asesiad o gydnerthedd yr iaith Gymraeg yn ein cymunedau, i'w hadolygu'n feirniadol. Felly mae agwedd ddwyochrog at y darn hwn o waith, sy'n canolbwyntio ar gymunedau ac ar broses y CDLl.

O ran Tai Fforddiadwy, mae ymchwil yn parhau trwy'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'i adolygiad a'i gasgliadau gyda chymhariaeth gyd-destunol â model Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Llywodraeth Cymru i'w gyflwyno yn ystod haf 2021, sydd wedi darparu gofynion Cymru'r Dyfodol, lle mae'r ffocws ar angen am dai fforddiadwy.

## ADRAN 3: Asesiad ar Berfformiad

### Cydymffurfiaeth â’r Safonau Cadw Cofnodion (147-154)

### BETH SYDD ANGEN ADRODD ARNO?

| |
|---|
| **Sgiliau Iaith Staff :** Nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg, fesul lefel ALTE, yn ystod y flwyddyn dan sylw |
| **Recriwtio i Swyddi Gwag:** Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy’n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gyda lefelau ALTE |
| **Hyfforddiant Dysgu neu Wella Sgiliau Iaith:**Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg |
| **Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg:**Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gan y Cyngor yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn. |
| **Cwynion gan Aelodau’r Cyhoedd:**Nifer y cwynion a dderbyniwyd sy’n Gysylltiedig â’r Iaith Gymraeg |

DRAFT

### Sgiliau Iaith Staff :

**Nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg, fesul lefel ALTE, yn ystod y flwyddyn dan sylw.**

Gwahoddwyd staff y Cyngor i hunanasesu eu sgiliau iaith gan ddefnyddio Fframwaith Lefelau Iaith ALTE mewn 3 sgil, sef siarad, ysgrifennu a darllen. Caiff sgiliau iaith eu cofnodi yn y broses recriwtio ac adolygu yn ystod y broses gwerthuso flynyddol. Mae cyfanswm o 2007 o staff wedi hunanasesu eu sgiliau iaith ac wedi cofnodi hynny ar system Ceri, hyn gan eithrio staff mewn ysgolion. Ar hyn o bryd mae’r Cyngor yn defnyddio datganiadau medru, sy’n deillio o’r fframwaith ALTE, The Association of Language Testers in Europe, set o safonau cyffredin i asesu gallu ieithyddol sydd wedi’i fabwysiadu ar draws gwledydd Ewrop. Gweler y datganiadau medru yn atodiad 2.

Ceir y canlyniadau wedi’u crynhoi yn y tabl 1 isod, ar gyfer y data fesul gwasanaeth, gweler Atodiad 1.

**Tabl 1: Canlyniad Archwiliad Sgiliau Iaith Gymraeg Trosolwg Staff 2020-21**

| Gwrando / Siarad | | |
|---|---|---|
| **Lefel** | **Nifer y Staff** | **%** |
| Dim sgiliau | 75 | 4% |
| Lefel 1 | 396 | 20% |
| Lefel 2 | 293 | 14% |
| Lefel 3 | 299 | 15% |
| Lefel 4 | 276 | 14% |
| Lefel 5 | 668 | 33% |
| CYFANSWM | 2007 | 100% |

| Ysgrifennu | | |
|---|---|---|
| **Lefel** | **Nifer y Staff** | **%** |
| Dim sgiliau | 185 | 9% |
| Lefel 1 | 440 | 22% |
| Lefel 2 | 331 | 17% |
| Lefel 3 | 259 | 13% |
| Lefel 4 | 283 | 14% |
| Lefel 5 | 509 | 25% |
| CYFANSWM | 2007 | 100% |

| Darllen | | |
|---|---|---|
| **Lefel** | **Nifer y Staff** | **%** |
| Dim sgiliau | 167 | 8% |
| Lefel 1 | 392 | 20% |
| Lefel 2 | 317 | 16% |
| Lefel 3 | 245 | 12% |
| Lefel 4 | 304 | 15% |
| Lefel 5 | 582 | 29% |
| CYFANSWM | 2007 | 100% |

**Y Prif Benawdau:**

- Mae 668 (33%) o staff sydd yn dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, ALTE Lefel 5, mae hyn yn gyson a phroffiliau blaenorol o sgiliau'r gweithle.
- Fodd bynnag, mae nifer y staff sydd wedi dweud nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg wedi cynyddu rhyw ychydig o gymharu â'r flwyddyn adrodd ddiwethaf; 4% o'r gweithlu wedi dweud nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg llafar. Er mwyn ceisio lleihau'r nifer o weithwyr sydd yn nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, bydd y Cyngor yn annog Swyddogion i gwblhau'r pecyn e-ddysgu 10 awr 'Croeso Cymraeg' swydd wedi ei ddatblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, hyn fel bod modd datblygu sgiliau cwrteisi iaith sylfaenol.
- Mae sgiliau llafar staff sydd wedi dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg yn llawer uwch na'u gallu i ysgrifennu yn Gymraeg. Sgiliau llafar Rhugl: 33%; Sgiliau Ysgrifennu Rhugl: 25%. Er mwyn gwella ar y canfyddiad hwn, bydd y Cyngor yn rhoi fwy o bwyslais ar y Cyrsiau Gloywi a Gwella Cymraeg Ysgrifenedig.
- Mae 4 Gwasanaeth o fewn y Cyngor gyda 40% neu fwy o'r staff sydd wedi dweud bod ganddynt sgiliau rhugl yn y Gymraeg sef ALTE lefel 5 (Y Gwasanaethau Democrataidd; Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth; Porth Cymorth Cynnar a Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant).
- Mae'r niferoedd sydd â sgiliau rhugl yn y Gymraeg o fewn y sector gofal yn parhau i fod yn destun pryder, mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r prinder sgiliau Cymraeg ar draws y sector yn genedlaethol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Cyngor yn ceisio datblygu ei weithlu cyfredol.

DRAFT

**<u>Recriwtio i Swyddi Gwag</u>:**

**Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gyda lefelau ALTE**

Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'i ddyletswydd i gynllunio'r gweithlu, er mwyn sicrhau bod y bobl iawn, sy'n meddu ar y sgiliau iawn, ar yr adeg iawn. I gyflawni hyn o safbwynt ieithyddol ac i sicrhau bod modd darparu gwasanaethau dwyieithog ar gyfer trigolion Ceredigion, mae'r Cyngor yn anelu at sicrhau bod ganddo ddigon o weithwyr sy'n gymwys o ran siarad ac ysgrifennu Cymraeg . Gwenir hyn drwy asesu pob swydd newydd neu wag ar gyfer y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen er mwyn medru cyflawni'r swydd.

Yn rhan o'r Polisi Hybu a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg yn Fewnol (Rhagfyr 2017) cafwyd penderfyniad bod angen i bob gweithiwr fodloni gofynion Lefel 1 'siarad a gwrando' sef cwrteisi iaith sylfaenol o leiaf pan fydd yn cael ei benodi, neu cyn pen chwe mis ar ôl hynny. Bydd y Cyngor yn annog Swyddogion i gwblhau'r pecyn e-ddysgu 10 awr 'Croeso Cymraeg' sydd wedi ei ddatblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, hyn fel bod modd iddynt ddatblygu sgiliau cwrteisi iaith sylfaenol. Yn dilyn y penderfyniad hwn, mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd, ac felly mae'n rhaid pennu'r lefel iaith sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r swydd honno drwy ddefnyddio'r fframwaith ALTE (y datganiadau medrau);a chofnodi hynny ar y ffurflen 'Caniatâd i Lenwi Swydd Newydd'. Mewn achosion penodol os yw'n amhosib recriwtio ar y lefel ALTE disgwyliedig, ceir cytundeb i osod amod hyfforddiant yn y contract cyflogaeth. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus gyrraedd y safon ALTE angenrheidiol o fewn 2 flynedd i'r apwyntiad. Disgwylir y bydd rheolwr llinell yn monitro hyn, ac yn cofnodi cynnydd drwy'r broses arfarnu flynyddol. Yn ystod y cyfnod, nodwyd amod i

ddysgu'r Gymraeg mewn 157 o gytundebau gwaith, ac rydym yn gallu adrodd bod 49 eisoes wedi'u cofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg.

Hysbysebwyd 286 o swyddi newydd rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 gyda'r gofyniad ALTE canlynol:

| Nifer o swyddi a gafodd eu hysbysebu rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 yn gofyn am: | |
|---|---|
| ALTE 1 | 51 |
| ALTE 2 | 13 |
| ALTE 3 | 143 |
| ALTE 4 | 37 |
| ALTE 5 | 42 |

Mae'r Cyngor yn parhau i hysbysebu am sgiliau iaith Gymraeg rhugl, ALTE 5 mewn nifer o swyddi (42%); yn gyfredol hysbysebir y nifer uchaf o swyddi drwy ofyn am lefel iaith ALTE 3 (143) . Mae ALTE lefel 3 yn gofyn bod person yn medru deall a chymryd rhan mewn sgyrsiau arferol o ddydd i ddydd yn y swyddfa, lle mae lefel 5 yn golygu rhugldер llwyr yn y Gymraeg. Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, mae'n fwriad creu canllaw sy'n esbonio'r lefelau iaith, ac i arwain swyddogion recriwtio i wneud penderfyniadau fwy gwybodus o ran anghenion sgiliau iaith.

Eleni, rydym wedi mynd ati i fesur nifer sy'n gofyn am gynnal eu cyfweliad penodiad i swydd yn Gymraeg:

| Ymgeisydd: Dewis Iaith Mewn Cyfweliad | | |
|---|---|---|
| Saesneg | 2868 | 82% |
| Cymraeg | 627 | 18% |
| Cyfanswm | 3495 | |

Nifer o staff CSC sydd wedi cofrestru i ddefnyddio'r System Hunanwasanaeth Ceri (Adnoddau Dynol) yn Gymraeg / neu nifer o 'hits' i system hunanwasanaeth Ceri yn y Gymraeg.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Defnyddwyr: | 3653 |
| Saesneg: | 2636 |
| Cymraeg: | 177 |
| Heb ei Nodi: | 840 |

Nifer o staff CSC sydd yn dewis derbyn Newyddion HR News (i) yn Gymraeg, (ii) yn Saesneg (iii) yn ddwyieithog

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Staff: | 4373 |
| Saesneg | 733 |
| Cymraeg | 93 |
| Dwyieithog | 318 |
| Heb Nodi | 3229 |

DRAFT

DRAFT

## Hyfforddiant Dysgu Cymraeg a Gwella Sgiliau Iaith

**Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg:**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn ariannu Tiwtor Cymraeg Gwaith. Mae medru cyflogi Tiwtor Dysgu Cymraeg yn y gweithle wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ddarpariaeth dysgu Cymraeg y Cyngor; eleni mae'r rhaglen wedi darparu addysg ar **5 lefel** i fyny o 4 lefel yn 2019/20, a 3 lefel yn 2018/19. Mae'r Cyngor yn hynod o falch bod **15 myfyriwr** wedi dilyn y cyrsiau lefelau **Uwch** eleni. Mae 13 o'r rhain, wedi cyrraedd y lefelau hyn drwy astudio ar gyrsiau'r rhaglen Cymraeg Gwaith yn y blynyddoedd cynt. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth Tiwtor Cymraeg Gwaith y Cyngor, addasu cynlluniau'n gyflym, a threfnu bod yr holl ddosbarthiadau yn cael eu cyflwyno'n rhithiol. Mae hyn yn cynnwys cynnal y Clwb Cinio yn rhithiol, gyda'r prif bwrpas o roi cyfle i'r dysgwyr gwrdd â sgwrsio yn anffurfiol mewn awyrgylch hamddenol y tu allan i'r dosbarth ffurfiol.

At hyn hefyd, mae Tiwtor Cymraeg gwaith wedi medru gweithio'n benodol gyda Rheolwyr Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, er mwyn cynllunio rhaglen hyfforddi wedi ei deilwra ar 3 lefel gwahanol; yn cwmpasu gofynion darparu'r cynnig rhagweithiol, ymgyfarwyddo a thermau ac ymadroddion perthnasol i'r MCA a DOLS a dod yn hyderus wrth eu defnyddio.

Nifer y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant dysgu Cymraeg ar wahanol lefelau:

| Teitl y Cwrs | Nifer mynychu | Adborth gan Ddysgwyr |
|---|---|---|
| Cwrs Mynediad | 12 | "I am now beginning to have introductory conversations in Welsh with my work colleagues. I am also using greetings in my emails" |
| Cwrs Sylfaen | 31 | "It's made me more confident that I can at least start a conversation in welsh and chat briefly. That is helpful with meetings especially online. I try and use welsh when speaking to colleagues where possible, and locally in shops." |
| Cwrs Canolradd | 12 | "This level has really helped me develop within my new role and communicating internally with staff and colleagues. I can comfortably respond to simpler emails in Welsh via email and understand better when listening. I have gained much more confidence this year. I'm not afraid to attempt Welsh with my colleagues and ask for their assistance. I now communicate as much as a can with my line manager in Welsh and responding to Welsh emails when dealing with Covid related staff referrals." |
| Cwrs Uwch | 15 | "Dw i wedi dod yn fwy hyderus i siarad Cymraeg gyda chwsmeriaid a chydweithwyr. Dw i'n fwy parod i ddechrau sgyrsiau yn y Gymraeg a dw i'n dal i siarad Cymraeg drws y sgwrs |
| Cyfanswm Dysgwyr | 70 | |

Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol iawn o'r angen ar gyfer cynnig cyrsiau i wella sgiliau Cymraeg, ac i godi hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle:

| Teitl y Cwrs | Nifer |
|---|---|
| Gwella sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig Cymraeg | Cyflwynwyd 1 cwrs yn rhithiol , mynychodd 9 aelod o staff |
| Cwrs Preswyl Tystysgrif Sgiliau Iaith<br>23 Mawrth 2020<br>Y Ganolfan Dysgu Cymraeg | 4 wedi cofrestru ond gorfu gohirio oherwydd Covid. |
| Cwrs Preswyl Defnyddio Cymraeg Gwaith.<br>27 Mawrth 2020<br>Y Ganolfan Dysgu Cymraeg | 4 wedi cofrestru ond gorfu gohirio oherwydd Covid. |

DRAFT

<u>Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith a Gofynion Safonau'r Gymraeg</u>

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith ac o Safonau'r Gymraeg | 3 sesiwn, gohiriwyd 1 oherwydd diffyg niferoedd. 11 wedi mynychu |
| Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith ar gyfer Porth Cymorth Cynnar | Cafodd y Gwasanaeth hwn ei sefydlu fel gwasanaeth newydd yn ystod y cyfnod adrodd, ac felly rhoddwyd sesiwn wedi ei deilwra yn arbennig ar ofynion Safonau'r Gymraeg ar gyfer Rheolwyr y Gwasanaeth. 20 wedi mynychu. |
| Rhaglen e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith | Mae hwn yn gwrs gorfodol ar gyfer y gweithle cyfan. Mae cyfanswm o 1896 staff wedi cwblhau'r rhaglen e-ddysgu ers ei lansiad, gyda 476 wedi cwblhau yn ystod y cyfnod adrodd : |
| Rhaglen Anwytho | Mae elfen o ymwybyddiaeth iaith ynghyd a gofynion Safonau'r Gymraeg yn rhan o'r cwrs yma. Yn y cyfnod adrodd mae 143 o staff wedi mynychu'r sesiwn. |

**<u>Darpariaeth Hyfforddiant Corfforaethol Cyfrwng Cymraeg:</u>**

Oherwydd effaith y pandemig, ym mis Mawrth 2020 cafodd yr holl hyfforddiant wyneb yn wyneb a drefnwyd ei ganslo, ac yn ei le addaswyd a rhoddwyd blaenoriaeth i ddatblygu rhaglenni e-ddysgu hanfodol i gynorthwyo staff sy'n cael eu hadleoli i wasanaethau rheng flaen ym maes gofal cymdeithasol. Gan fod staff yn gweithio o gartref bu'n fwy anodd cyflawni addasiadau ar gyfer rhai cyrsiau; ac at hyn roedd nifer o swyddogion hyfforddiant y Cyngor wedi gorfod mynd ati i ddatblygu cyrsiau amgen yn ymwneud â delio gyda'r argyfwng. Felly ni fu'n bosibl yn 20/21 i gynnig yr ystod o hyfforddiant yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y byddem yn ei wneud mewn amgylchiadau arferol.

Mae Safon 128 yn gofyn i'r cyngor i ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefn cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd ac (dd) iechyd a diogelwch. Oherwydd effaith yr argyfwng a'r newidiadau yn ein trefniadau, ni fu'n

bosib darparu unrhyw gyrsiau rheoli perfformiad ynghyd â chyrsiau cwyno a disgyblu. Yn ystod y cyfnod nesaf byddwn yn adolygu'r cynlluniau hyn, ac yn rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau bydd staff yn medru cyfranogi yn eu hiaith ddewisol.

| Math o hyfforddiant | Nifer a fynychodd fersiwn Cymraeg | Nifer a fynychodd fersiwn Saesneg | Canran a fynychodd Fersiwn Cymraeg |
|---|---|---|---|
| Sgiliau Recriwtio a Chyfweld | 0 | 19 | 0% |
| Rheoli Perfformiad | heb gyflwyno | heb gyflwyno | 0% |
| Gweithdrefn Gwyno a Disgyblu | gohiriwyd oherwydd Covid | gohiriwyd oherwydd Covid | 0% |
| Sesiynau Anwytho | 0 | 143 | 0% |
| Delio gyda'r Cyhoedd | 0 | 26 | 0% |
| Iechyd a Diogelwch | 0 | 40 | Siaradwyr Cymraeg yn cael cynnig defnyddio'u Cymraeg |

DRAFT

Mae Safon 152 yn gofyn i'r Cyngor adrodd (i) nifer y gweithwyr a fynychodd gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg a (ii) canran o gyfanswm y staff a fynychodd (y fersiwn Cymraeg).Yn ystod 2020-21 cofrestrodd 5,402 o fynychwyr ar gyrsiau hyfforddiant corfforaethol, ac fe wnaeth 156 o gyfranogwyr ddilyn eu cyrsiau hyfforddi lle cynigwyd y dysgu yn y Gymraeg. O'r holl staff sydd wedi dilyn cyrsiau hyfforddi, mae 3% o'r mynychwyr wedi derbyn eu hyfforddiant yn Gymraeg.

Caiff cyfleoedd a digwyddiadau hyfforddiant eu hysbysebu trwy Cerinet, system fewnrwyd y Cyngor. Rhoddir opsiwn i staff ddewis chwilio'r wefan yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gallant weld ac archebu eu lle ar gyrsiau hyfforddi neu gofrestru eu diddordeb trwy roi eu henw ar restr aros. Dangosir teitlau cyrsiau yn Gymraeg a Saesneg ac fe amlygir y rhai a gyflwynir trwy gyfrwng Cymraeg. Mae rhestrau aros yn cael eu monitro'n rheolaidd a phan bydd galw digonol am gwrs bydd y tîm Dysgu a Datblygu yn ceisio ei drefnu cyn gynted â phosibl. Mae'r Cyngor yn gweithio'n ddiwyd i geisio darparu fwy o gyrsiau ar gyfer staff yn yr iaith Gymraeg, ac yn nodi yn y Polisi Hybu a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg yn Fewnol: *"Bydd hyfforddiant arbenigol hefyd yn cael ei ddarparu yn Gymraeg mewn meysydd penodol sy'n berthnasol i waith y Cyngor. Gwneir hyn lle bynnag y mae hyfforddwyr Cymraeg addas ar gael, ac yn unol â'r Canllawiau Cenedlaethol ar Gaffael Hyfforddwyr ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddus"*

Mae'r tablau isod yn adrodd niferoedd cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u darparu ar gyfer staff y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. At hyn, mae unrhyw becyn e-ddysgu sy'n cael ei gynhyrchu gan y Cyngor ar gyfer staff, yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg, a chaiff y cyfranogwyr ddewis iaith eu hyfforddiant.

| Hyfforddiant Corfforaethol | Nifer | % o'r holl gyfranogwyr |
|---|---|---|
| Hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Newydd Modiwl 1 A & 1B | 2 sesiwn yn Gymraeg:<br>24 wedi mynychu sesiynau Cymraeg | 6.5% |
| Hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Modiwl 2 | 1 sesiwn yn Gymraeg:<br>28 wedi mynychu sesiynau Cymraeg | 10% |

| | | |
|---|---|---|
| Hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Modiwl 3 | 1 sesiwn yn Gymraeg:<br>28 wedi mynychu sesiwn Cymraeg | 11% |
| Hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Modiwl 4 | 1 sesiwn yn Gymraeg:<br>29 wedi mynychu sesiwn Cymraeg | 11% |
| Diogelu ac Amddiffyn Plant Lefel 2 | 5 sesiwn Cymraeg, cafodd 1 ei ganslo oherwydd niferoedd annigonol a 2 wedi'u canslo oherwydd Covid.<br>31 wedi mynychu sesiynau Cymraeg | 23% |
| Cyflwyniad i Microsoft Teams | 2 sesiwn Gymraeg, cafodd 1 ei ganslo oherwydd niferoedd annigonol<br>7 wedi mynychu sesiwn Cymraeg | 2% |

Mae gan y Cyngor hefyd nifer o raglenni e-ddysgu ac mae’r niferoedd a’r % sy’n defnyddio’r fersiynau Cymraeg fel a ganlyn:

DRAFT

| Programme Name | Cyfanswm nifer y staff a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn | cyfanswm a gwblhawyd yn Gymraeg | % o'r cyfanswm yn Gymraeg |
|---|---|---|---|
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (G) | 272 | 59 | 22% |
| Ymwybyddiaeth o Ofalwyr | 79 | 2 | 3% |
| Hylendid Bwyd | 166 | 17 | 10% |
| Mae'ch Presenoldeb yn Bwysig | 123 | 5 | 4% |
| Offer Arddangos Sgrin | 717 | 47 | 7% |
| Anawsterau iechyd meddwl mewn plant a phobl ifanc | 276 | 34 | 12% |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (g) | 469 | 91 | 19% |
| Chwythu’r Chwiban (g) | 357 | 77 | 22% |
| Diogelu Oedolion – Ymwybyddiaeth Sylfaenol | 385 | 58 | 15% |
| Amddiffyn Plant | 615 | 117 | 19% |
| Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg a’r Safonau (g) | 476 | 96 | 20% |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (g) | 416 | 66 | 16% |
| Diogelu Data (g) | 496 | 73 | 15% |
| Diogelwch Gwybodaeth (g) | 516 | 32 | 6% |
| Iechyd a Diogelwch (g) | 542 | 71 | 13% |
| Dychwelyd yn Ddiogel i'r Ysgol | 547 | 175 | 32% |
| Dychwelyd yn Ddiogel i'r Gwaith | 803 | 51 | 6% |
| Cyfanswm | 7255 | 1071 | 14.76% |

**<u>Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd:</u>**

**Nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n Gysylltiedig â'r Iaith Gymraeg**

Mae'r cyngor wedi cyhoeddi 'Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol' ynghyd â chanllaw 'Sut i Wneud Cwyn', sydd wedi ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol y Cyngor.

http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/sylwadau-canmoliaeth-a-chwynion/cwynion-corfforaethol/

Mae'r Polisi hwn yn cyfeirio at ddyletswydd y Cyngor sy'n ymwneud â derbyn a thrafod cwynion. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn medru cyflwyno eu pryderon drwy weithdrefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor, gellir gwneud hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unol â dewis iaith. Mae'r polisi hefyd yn nodi, os bydd yr achwynydd yn anfodlon â'r ymateb gan y Cyngor, gall yr achwynydd ofyn am gyngor pellach gan Gomisiynydd y Gymraeg.

At hyn mae dolen ar dudalen Safonau'r Gymraeg y Cyngor yn rhoi gwybod i aelodau'r cyhoedd sut gallant wneud cwyn ynghylch cydymffurfiaeth gyda'r Safonau neu fethiant i dderbyn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Gweler y testun isod:

Cwynion Iaith

Os hoffech wneud cwyn yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg neu fethiant ar ran y Cyngor i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, defnyddiwch weithdrefn gwyno'r Cyngor ar y tudalen Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion.

Mae gennych hefyd hawl i gyfeirio unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg at Gomisiynydd y Gymraeg: Gwefan Comisiynydd y Gymraeg

Dyma'r ddolen at y manylion oddi ar wefan y Cyngor:
http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/iaith-gymraeg/safonau-r-gymraeg/

Fel rhan o drefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor, caiff Swyddog Polisi Iaith Gymraeg wybod ynghylch pob cwyn sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg; a hynny er mwyn cynghori swyddogion ac ystyried camau gweithredu pellach.

Yn rhan o raglen *hyfforddiant cwynion corfforaethol* y Cyngor, rhoddir gwybod i swyddogion ynghylch y drefn i ddelio gyda chwynion ynghylch materion iaith Gymraeg. Er bod 6 sesiwn cyfrwng Cymraeg wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn adrodd, cafodd y rhain eu gohirio oherwydd argyfwng Covid.

**Cwynion a Dderbyniwyd**

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniwyd unrhyw gwyn yn uniongyrchol, fodd bynnag derbyniwyd 1 cwyn drwy sylw Comisiynydd y Gymraeg.

| Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol | |
|---|---|
| Dosbarth o safonau | Nifer |
| Safonau cyflenwi gwasanaethau | 1 |
| Safonau llunio polisi | 0 |
| Safonau gweithredu | 0 |

| Cwynion at sylw'r Cyngor drwy Gomisiynydd y Gymraeg | | |
|---|---|---|
| Cyf:<br>Dyddiad | Dosbarth o safonau | Natur Y Gŵyn |

DRAFT

| Gwasanaeth | | |
|---|---|---|
| CSG721<br>24/03/2020<br>Gwasanaeth Cyllid | Safonau cyflenwi gwasanaethau | Gohebiaeth awtomatig uniaith Saesneg gwasanaeth ar-lein:<br>• Registration Activation<br>• Cais am Ddebyd Uniongyrchol |
| Canlyniad: Sut cafodd y mater ei ddatrys | | |
| Yn dilyn ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg gorfodwyd camau pellach ar y Cyngor sef:<br>1. Dylai'r Cyngor gymryd camau i adnabod pob gohebiaeth ddwyieithog a gynhyrchir ganddo'n awtomatig er mwyn sicrhau nad ydynt yn debygol o gael eu heffeithio gan yr un broblem a effeithiodd y negeseuon e-bost dan sylw yn yr ymchwiliad hwn.<br>2. Rhaid i'r cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Oherwydd Argyfwng Covid, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cytuno i roi estyniad hyd 1af Gorffennaf 2021 i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig. | | |

**ADRAN 5: Casgliadau**

DRAFT

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cynnydd er mwyn cyflawni gofynion Safonau'r Gymraeg ynghyd â chyflwyno'r data penodol yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21. Rydym yn falch o'r cynnydd rydym wedi ei wneud ond yn cydnabod bod yna welliannau i'w gwneud o hyd, er mwyn gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg ein gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn anelu at ganolbwyntio ar y canlynol:

- Datblygu cynllun ar gyfer adnewyddu tudalennau 'Iaith ar Waith' ar fewnrwyd y Cyngor, cynnwys canllawiau cyfredol a datblygu deunydd cymorth atodol sydd ei angen i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Cyflwyno cynllun sy'n argymell gwelliannau i gyflawni gofynion y Safonau Gweithredu - defnyddio'r Gymraeg yn fewnol â hyrwyddo'r cysyniad o weithle dwyieithog
- Cydlynu a chefnogi gweithredoedd Strategaeth Iaith Ceredigion, a datblygu cynllun i asesu effaith gweithredu'r Strategaeth ar sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion erbyn diwedd Mawrth 2022. Paratoi ar gyfer datblygu Strategaeth newydd ar gyfer 2023-28 (Cyfrifiad 2021 – angen dadansoddi'r canlyniadau)
- Cydlynu grŵp prosiect i ddatblygu 'Pecyn Croeso' mewn ymgais i geisio cymhathu mewnfudwyr gwaith yn deillio o Fforwm Dyfodol Dwyieithog
- Prosiect hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliant a Chymreictod mewn cartrefi preswyl (dechrau 2019 ond gohirio oherwydd Covid-19). Asesu a fydd modd ail ddechrau'r prosiect.
- Adolygu gofynion Safonau Polisi, er mwyn sicrhau bod defnydd y Gymraeg yn rhan o gynlluniau gweithredu holl wasanaethau'r Cyngor, ynghyd ag adnabod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw benderfyniadau polisi (hy Adolygu Asesiad Effaith Integredig)

DRAFT

**Atodiad 1: Data Sgiliau Iaith 2020-21 fesul Gwasanaeth**

**Gwasanaeth Cyswllt Cwsmeriaid**: 136 o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 3 | 10 | 22 | 15 | 345 | 52 |
| | 3% | 7% | 16% | 11% | 25% | 38% |

**Gwasanaethau Democrataidd:** 116 o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 2 | 12 | 14 | 20 | 20 | 48 |
| | 2% | 10% | 12% | 17% | 17% | 42% |

**Gwasanaethau Economi a Menter:** 223 o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 13 | 72 | 35 | 35 | 23 | 45 |
| | 6% | 32% | 16% | 16% | 10% | 20% |

**Gwasanaethau Cyllid a Chaffael:** 100 o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 2 | 18 | 19 | 19 | 16 | 26 |
| | 2% | 18% | 19% | 19% | 16% | 26% |

**Gwasanaethau Priffyrdd a Gwasnaethau Amgylcheddol:** 255 o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 6 | 68 | 37 | 36 | 49 | 59 |
| | 2% | 27% | 15% | 14% | 19% | 23% |

**Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu:** 19 o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 2 | 1 | 2 | 6 | 4 | 4 |
| | 11% | 5% | 11% | 31% | 21% | 21% |

**Gwasanaethau Pobl a Threfniadaeth: 55** o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 1 | 2 | 9 | 9 | 9 | 25 |
| | 2% | 4% | 16% | 16% | 16% | 46% |

**Gwasanaethau Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd:** 115 o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 3 | 11 | 13 | 24 | 26 | 38 |
| | 3% | 10% | 11% | 21% | 22% | 33% |

**Gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar:** 226 o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 4 | 28 | 28 | 28 | 39 | 99 |
| | 2% | 12% | 12% | 12% | 18% | 44% |

**Gwasanaethau Porth Cynnal:** 128 o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 5 | 35 | 20 | 22 | 12 | 34 |
| | 4% | 27% | 16% | 17% | 9% | 27% |

DRAFT

**Gwasanaethau Gofal:** 351 o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 30 | 76 | 63 | 65 | 27 | 90 |
| | 9% | 22% | 18% | 18% | 8% | 25% |

**Gwasanaethau Ysgolion a Diwylliant:** 331 o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 4 | 76 | 42 | 29 | 25 | 155 |
| | 2% | 23% | 13% | 8% | 7% | 47% |

**Gwasanaethau Arweinyddiaeth :** 3 o weithwyr

| Lefel ALTE | Dim Sgiliau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | | | | | 3 |
| | | | | | | 100% |

# Fframwaith ALTE ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion

## Datganiadau Medru...

| Lefel | Gwrando/Siarad | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|
| 1 | • Medru ynganu enwau llefydd ac enwau personol yn gywir.<br>• Medru cyfarch cwsmeriaid mewn derbynfa neu ar y ffôn.<br>• Medru agor a chloi sgwrs. | • Medru deall testun byr ynglŷn â phwnc cyfarwydd pan wedi ei gyfleu mewn iaith syml, e.e. arwyddion elfennol, cyfarwyddiadau syml, cynnwys agenda. | • Medru ysgrifennu enwau personol, enwau llefydd, teitlau swyddi ac enwau adrannau'r Cyngor.<br>• Medru ysgrifennu cais syml i gydweithiwr, e.e. Hwn a hon wedi galw. |
| 2 | • Medru deall craidd sgwrs.<br>• Medru derbyn a deall negeseuon syml ar batrymau arferol, e.e. amser a lleoliad cyfarfod, cais am siarad gyda rhywun.<br>• Medru cyfleu gwybodaeth elfennol a chyfarwyddiadau syml.<br>• Medru agor a chau sgwrs a chyfarfod yn ddwyieithog. | • Medru deall y rhan fwyaf o adroddiadau byrion a chyfarwyddiadau arferol o fewn arbenigedd y gwaith, â bod digon o amser wedi ei ganiatáu. | • Medru llunio neges fer syml ar bapur neu ebost i gydweithiwr o fewn y Cyngor neu gyswllt cyfarwydd y tu allan i'r Cyngor. |
| 3 | • Medru deall a chymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgyrsiau arferol o ddydd i ddydd yn y swyddfa.<br>• Medru cynnig cyngor i'r cyhoedd ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol.<br>• Medru cyfrannu i gyfarfod neu gyflwyniad ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol. | • Medru deall y rhan fwyaf o'r adroddiadau, dogfennau a gohebiaeth y byddai disgwyl eu trafod yng nghwrs arferol y gwaith. | • Medru llunio negeseuon ac adroddiadau anffurfiol at ddefnydd mewnol. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | • Medru cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol yng nghyd-destun y pwnc gwaith.<br>• Medru deall gwahaniaethau cywair a thafodiaith.<br>• Medru dadlau o blaid ac yn erbyn achos penodol.<br>• Medru cadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r Gadair yn hyderus. | • Medru deall gohebiaeth ac adroddiadau pwnc wedi eu llunio mewn cywair safonol. | • Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon ebost a llenyddiaeth hysbysrwydd gyda chymorth golygyddol. |
| 5 | • Medru cyfrannu'n rhugl a hyderus yng nghyswllt pob agwedd ar y gwaith beunyddiol, gan gynnwys trafod a chynghori ar faterion technegol, arbenigol neu sensitif.<br>• Medru cyfrannu i gyfarfodydd a darparu cyflwyniadau yn rhugl a hyderus. | • Medru deall adroddiadau, dogfennau ac erthyglau y byddai disgwyl eu darllen yng nghwrs arferol y gwaith, gan gynnwys cysyniadau cymhleth a fynegir mewn iaith astrus. | • Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth hysbysrwydd i safon dderbyniol gyda chymorth cymhorthion iaith.<br>• Medru llunio nodiadau manwl tra'n cymryd rhan lawn mewn cyfarfod. |

DRAFT

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol